



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynllun Aer Glân i Gymru:
Awyr Iach, Cymru Iach

Awst 2020

Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach.

Camau i'w cymryd

Dim. Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cyfeiriad:

Cynllun Aer Glân
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: AirQualityPolicy@gov.wales

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru>

Dogfennau cysylltiedig

Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr) ar gael ar y wefan yn <https://llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru>

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Cyd-destun	5
Trosolwg o'r ymgynghoriad.....	7
Dadansoddiad o'r ymatebion	8
Y Camau Nesaf	8
Cwestiwn 1	9
Cwestiwn 2	11
Cwestiwn 3	13
Cwestiwn 4	15
Cwestiwn 5	17
Cwestiwn 6	20
Cwestiwn 7	23
Cwestiwn 8	25
Cwestiwn 9	27
Cwestiwn 10	28
Cwestiwn 11	31
Cwestiwn 12	33
Cwestiwn 13	36
Cwestiwn 14	38
Cwestiwn 15	40
Cwestiwn 16	41
Cwestiwn 17	43
Cwestiwn 18	45
Cwestiwn 19	47
Cwestiwn 20	48
Cwestiwn 21	50
Cwestiwn 22	52
Cwestiwn 23	54
Cwestiwn 24	55
Cwestiwn 25	57
Cwestiwn 26	59
Cwestiwn 27	61
Cwestiwn 28	63
Cwestiwn 29	65

Cwestiwn 30	67
Cwestiwn 31	69
Cwestiwn 32	70
Cwestiwn 33	72
Cwestiwn 34	74
Cwestiwn 35	75
Cwestiwn 36	76
Cwestiwn 37	78
Cwestiwn 38	79
Cwestiwn 39	81
Cwestiwn 40	83
Cwestiwn 41	85
Cwestiwn 42a	87
Cwestiwn 42b	88
Cwestiwn 43	89
Cwestiwn 44a	90
Cwestiwn 44b	91
Cwestiwn 45	92
Atodiad A.....	94
Gweithdai Ymgynghoriad Cyhoeddus.....	94
Gweithdai Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Aer Glân	94
Sylwadau cyffredinol	94
Senedd leuencid Wreccsam.....	97
Atodiad B.....	99
Gohebiaeth Weinidogol	99
Atodiad C	100
Deiseb Cynllun Aer Glân	100
Atodiad D	102
Sefydliadau a ymatebodd	102
Ymatebwyr unigol	103
Sefydliadau a fynychodd weithdai.....	104

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach ar 10 Rhagfyr 2019 a daeth i ben ar 10 Mawrth 2020. Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, gan gynnwys adborth o 173 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, 823 o ymatebion i ddeiseb a safbwyntiau a fynegwyd mewn digwyddiadau ymgynghori.

Mae'r holl ymatebion wedi'u hadolygu ac yn cael eu hystyried gan randdeiliaid a thimau ledled Llywodraeth Cymru er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynigion polisi o fewn y Cynllun Aer Glân. Mae'r ymatebion wedi tynnu sylw at yr angen i weithredu i leihau llygredd aer er mwyn cefnogi gwelliannau mewn iechyd, llesiant, ein heconomi, bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

Yn fuan ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, daeth tarfu sylweddol ar ein ffordd o fyw yn sgil COVID-19. Mae'r newidiadau digynsail mewn patrymau byw a gweithio yn ystod y pandemig wedi arwain at ddarlun amrywiol o ran llygredd aer yng Nghymru ar hyn o bryd, ac o bosibl ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, newidiodd y cyfyngiadau ar deithio yr allyriadau trafnidiaeth ffyrdd a'r lleoliadau lle mae pobl yn agored i lygredd.

Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr amgylcheddol, Llywodraeth y DU, Awdurdodau Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymgynghorwyr arbenigol i asesu effeithiau'r pandemig ar ansawdd aer. Mae hwn yn fater ymchwil pwysig ac mae'r canlyniadau o'r gwaith hwn yn cael eu hystyried ynghyd ag adborth o'r ymgynghoriad i'n helpu i lunio dulliau rheoli a pholisi ansawdd aer yn y dyfodol.

Cyd-destun

Mae Ffyniant i Bawb, ein Strategaeth Genedlaethol, yn ein hymrwymo i greu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell. Mae gan aer glân rôl ganolog o ran creu'r amodau cywir ar gyfer gwell iechyd, llesiant a mwy o weithgarwch corfforol yng Nghymru. Caiff hyn ei adlewyrchu trwy ymrwymiad i leihau allyriadau a sicrhau gwelliannau hanfodol mewn ansawdd aer.

Roedd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân: Awyr Iach, Cymru Iach yn nodi pedair thema allweddol:

1. Gwella ansawdd aer er mwyn diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
2. Gwella ansawdd aer i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth
3. Gwella ansawdd aer i gefnogi Cymru lewyrchus
4. Gwella ansawdd aer i gefnogi mannau cynaliadwy

Cynlluniwyd pob thema i fynd i'r afael â llygredd aer trwy gamau cydweithredol. Nod y broses ymgynghori oedd cwmpasu'r ystod o gamau gweithredu sydd eu hangen i lunio cynllun cynhwysfawr i sicrhau gwelliannau o ran ansawdd aer yng Nghymru.

Trosolwg o'r ymgynghoriad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi adborth ar bob un o gwestiynau'r ddogfen ymgynghori, ymatebion i'r ddeiseb, gohebiaeth a anfonwyd at Weinidogion Cymru yn uniongyrchol a safbwyntiau a fynegwyd mewn digwyddiadau ymgynghori.

Ystadegau Ymgynghori

Ymatebion ysgrifenedig (e.e. mewn llawysgrifen, e-bost, dogfennau)	90
Ymatebion i'r Ddeiseb	823
Ymatebion ar-lein	
Llawn	99
Rhannol	74
Cyfanswm yr ymatebion ar-lein	173
Digwyddiadau ymgynghori a chyfranogwyr	
Aberystwyth	20
Wrecsam	33
Caerdydd	71
Ymgysylltu â Phobl Ifanc – Senedd Ieuenctid Wrecsam	
Is-gyfanswm y cyfranogwyr yn y digwyddiadau ymgynghori	124
Cyfanswm y cyfranwyr	1,210

Mae rhestr lawn o'r sefydliadau ac ymatebwyr a enwir nad oeddent yn dymuno aros yn ddienw wedi'i chynnwys yn Atodiad D.

Cyfrannwyd ymatebion ysgrifenedig gan 77 o sefydliadau a enwir. Cafwyd y sylwadau sector mwyaf gan gymdeithasau a sefydliadau proffesiynol; cwmnïau unigol o'r sector preifat ac elusennau neu sefydliadau cymunedol.

Sefydliadau a Enwir	Awdurdod Lleol	Plaid Wleidyddol	Sector Preifat / CCC	Cymdeithas Broffesiynol	Corff Iechyd / Cyhoeddus	Undeb Llafur	Trydydd Sector	Addysg Uwch
77	9	1	10	25	9	3	18	2

Cyflwynodd 173 o bobl eu barn i'r ymgynghoriad ar-lein. Disgrifiwyd 74 o'r rhain fel rhai "rhannol" gan na roddwyd manylion cyswllt.

Gellir gweld crynodeb o'r adborth a ddarparwyd yn ystod y tri digwyddiad ymgynghori cyhoeddus a'r trafodaethau yn Senedd Ieuenctid Wrecsam yn Atodiad A.

Anfonwyd 9 eitem o ohebiaeth at Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori a oedd yn cyfeirio at y Cynllun Aer Glân. Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei hystyried ar y cyd ag ymatebion i'r ymgynghoriad, a chrynohir manylion pellach yn Atodiad B.

Cyflwynodd 823 o bobl ymateb i'r ddeiseb nad oedd yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau yn yr ymgynghoriad. Mae hyn wedi'i gynrychioli yn Atodiad C. Addasodd

nifer o ymatebwyr y testun deiseb i gynnwys barn bersonol ar nifer o gynigion yn y Cynllun Aer Glân. Mae'r ymatebion hyn yn cael eu hystyried ar y cyd â chamau gweithredu a nodir yn y Cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad.

Dadansoddiad o'r ymatebion

Mae pob cwestiwn yn cynnwys paragraff sy'n rhoi dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig ac ar-lein.

Y Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio'r Cynllun terfynol ym mis Awst 2020, a bydd yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad ymgynghori hwn a'r gwaith ymgysylltu helaeth a wnaed gyda rhanddeiliaid ledled Cymru. Bydd y cynllun yn nodi sut y byddwn yn gwella ansawdd aer dros dymor presennol y Cynulliad (hyd at 2021), tymor nesaf y Cynulliad (2021-26) ac yn y dyfodol (o 2026 ymlaen).

Bydd Bwrdd Rhaglen Aer Glân Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn camau gweithredu yn y Cynllun Aer Glân trwy brosiectau penodol. Bydd y rhain yn cynnwys ystod o gerrig milltir er mwyn sicrhau atebolrwydd, darparu a gwerthuso.

Byddwn yn sefydlu mecanweithiau priodol i weithio gyda rhanddeiliaid a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni camau gweithredu yn y Cynllun.

Cwestiwn 1

A yw'r dull thematig yn y Cynllun Aer Glân yn dwyn ynghyd y prif faterion ansawdd aer mewn ffordd glir a defnyddiol?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 209 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 128 yn cytuno, 54 yn anghytuno a 27 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r dull. Fodd bynnag, cwestiynodd nifer o ymatebwyr y defnydd o'r pedair thema a'r gorgyffwrdd rhyngddynt.

Nododd sawl ymatebwr y bydd dulliau o wella ansawdd aer mewn un thema yn cael effeithiau eilaidd mewn eraill.

Awgrymodd nifer o ymatebion y gallai hyd a'r defnydd o iaith yn y Cynllun droi'r cyhoedd yn ei erbyn. Roedd cefnogaeth i'r fersiwn "Hawdd ei Ddeall" o'r Cynllun.

Dyfyniadau dangosol

"I mi, gwella ansawdd aer er mwyn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth ddylai fod yn brif thema ac yn thema bwysicaf yn y cynllun. Thema 'eilaidd' ddylai fod lleihau effeithiau ar ecosystemau (sydd mewn llawer o achosion yn debygol o fod yn sgil-gynnyrch i'r brif thema yn hytrach nag yn thema bwysicaf). Dylai cefnogi Cymru lewyrchus a mannau cynaliadwy fod yn 'sgil effeithiau' cadarnhaol i'r cynllun, yn hytrach na themâu allweddol." **Dienw**

"Mae cynhyrchu pedair thema yn helpu i ddwyn ynghyd y materion allweddol a nodir yn y cynllun. Roedd syniadau cychwynnol yn cynnwys dryswch ynghylch y pedair thema, oherwydd y gorgyffwrdd rhwng meysydd a holi a oedd angen y pedair thema yn hytrach na chynnwys materion o fewn themâu 'gwella ansawdd aer er mwyn diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol' a 'gwella ansawdd aer i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth'. Fodd bynnag, mae mynychu gweithdy'r Cynllun Aer Glân (Caerdydd) ar 5 Mawrth 2020 wedi galluogi gwell dealltwriaeth o ddull Llywodraeth Cymru o integreiddio pob sector o fewn nodau'r cynllun." **Cyngor Caerdydd**

"Rwy'n cytuno bod defnyddio themâu yn gweithio i raddau. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod y themâu yn gywir a gellid eu trefnu'n fwy syml ac effeithiol. Y rheswm am hyn yw bod datblygu cynaliadwy/cynaliadwyedd o reidrwydd yn cwmpasu a) yr amgylchedd (gan gynnwys bioamrywiaeth) b) cymdeithas (h.y. iechyd) c) datblygu economaidd (gan gynnwys ffyniant). Hefyd, ar dudalen 28, mae'r Nodau Llesiant ac ansawdd aer yn eithaf defnyddiol ond yn eiriog iawn. Ymddengys hefyd fod llawer o dargedau, gan wneud gweithredu'n llai effeithiol o bosibl." **Dienw**

“Mae’r dull thematig yn symleiddio prif themâu cynllun ansawdd aer ond yn y pen draw bydd gorgyffwrdd ar draws pob thema gyda chamau’n cael eu cymryd ar draws un sy’n dylanwadu ar yr hyn a gyflawnwyd ar draws y llall.”
Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr adborth ar y themâu, y defnydd o iaith a hyd y ddogfen. Byddwn yn ymdrechu i fynd i’r afael â’r pryderon hyn yn fersiwn derfynol y Cynllun.

Cwestiwn 2

A ydych chi'n cytuno y bydd gwella galluoedd monitro ac asesu yn helpu i ddeall a llywio camau gweithredu i leihau effeithiau llygredd aer ar iechyd a llesiant yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 170 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 117 yn cytuno, 15 yn anghytuno a 38 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno y bydd gwella galluoedd monitro ac asesu yn ein helpu i ddeall a llywio gweithredu i leihau effeithiau llygredd aer ar iechyd a llesiant yng Nghymru. Darparwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau ychwanegol.

Thema bwysig oedd diffyg tybiedig monitro ansawdd aer yn gyson yn genedlaethol, mewn ardaloedd â'r risg fwyaf.

Gofynnodd rhai ymatebwyr i Lywodraeth Cymru weithredu ar ddatblygu monitro mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol. Gwnaed ceisiadau i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir ar faterion monitro, rheoleiddio a gorfodi posibl.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai gwella galluoedd monitro presennol fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried rhwydweithiau presennol a lefel cyswllt unigolion sy'n agored i niwed wrth ystyried lleoliad unrhyw gapasiti monitro ychwanegol.

Crybwyllwyd lefel mynediad y cyhoedd at ddata ansawdd aer gan rai ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys cynigion i sicrhau bod data ar gael yn hawdd ac yn berthnasol i'r cyhoedd.

Roedd pryder na fyddai monitro ansawdd aer ar ei ben ei hun yn helpu i leihau llygredd aer. Mae angen dulliau gweithredu a gorfodi cadarn i gefnogi'r gwaith hwn hefyd.

Dyfyniadau dangosol

"Bydd gwella galluoedd monitro ac asesu yn helpu i ddeall a llywio camau gweithredu i leihau llygredd aer. Fodd bynnag, mae angen casglu, defnyddio a lledaenu'r data a gesglir yn briodol." **Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru**

"Unig ganlyniad gwella prosesau monitro ac asesu fydd cynhyrchu mwy o ddata - nid yw'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar lygredd, oherwydd nad oes gan ddata unrhyw duedd na bwriad. Dylid defnyddio'r data i lywio polisi, yn seiliedig ar bolau etholwyr, sy'n gam ar wahân. Mae casgliad anochel ynghlwm wrth eich cwestiwn, sef monitro ~>gweithredu ~>llai o lygredd ~>llesiant gwell, sydd yn ddamcaniaeth ddifflach a di-sail ar y gorau." **Dienw**

"Ydw, os caiff y pethau cywir eu mesur. Er enghraifft, nid oes diben gwneud mesuriadau mewn tref fawr, yna eu defnyddio i gyflwyno terfynau mewn

mannau gwledig neu led-wledig. Mae llosgi glo tŷ yn llai niweidiol yng nghefn gwlad na llosgi glo di-fwg mewn tref fawr, er enghraifft.” **Dienw**

“Rwy’n poeni nad oes llawer o eglurder ynglŷn â faint o arian cyhoeddus fydd yn mynd tuag at fonitro allyriadau o gwmpas ysbytai ac ysgolion a’r budd gwirioneddol y bydd yn ei greu. Rwy’n cytuno â’r egwyddor y dylai ansawdd aer fod yn well o amgylch ysgolion ac ysbytai, ond anaml iawn iawn y mae unrhyw un rwy’n ei adnabod yn edrych ar yr ystadegau y mae Llywodraeth Cymru yn eu dangos ar hyn o bryd.” **Dienw**

“Yn amlwg, byddai galluoedd monitro ac asesu gwell yn fuddiol o ran llywio camau gweithredu i wella ansawdd aer. Fodd bynnag, mae’r diffyg manylion ynghylch lleoliad a math y monitorau ychwanegol yn golygu nad oes modd barnu eto pa mor llwyddiannus fydd hyn. Mae’r broses o fonitro llygryddion yn eithaf tameidiog yng Nghymru.” **Plaid Lafur Etholaeth Ynys Môn**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i’r cwestiwn hwn wrth i ni wella ein galluoedd monitro ac asesu ansawdd aer. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol i sefydlu gwell capasiti o ran monitro ac asesu ansawdd aer ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu i lywio a chymell camau gweithredu cydgysylltiedig i leihau llygredd yn yr aer a sicrhau’r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer gwelliannau i iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd a’r economi.

Ni fydd monitro ac asesu ansawdd aer gwell yn disodli nac yn dyblygu cyfrifoldebau partneriaid cyflawni presennol. Rydym eisiau darparu arbenigedd ychwanegol sy’n gyson yn genedlaethol i ategu ac annog cydweithio rhwng sefydliadau perthnasol, lle y bo’n briodol gwneud hynny.

Mae’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am ansawdd aer i’r cyhoedd yn y dyfodol yn cael eu hadolygu, gyda’r bwriad o’u gwneud yn haws cael gafael arni.

Cwestiwn 3

A yw'r ymrwymïadau a'r camau gweithredu ar gyfer iechyd a llesiant yn mynd i'r afael â'r ffactorau pwysicaf ar gyfer gwella ansawdd aer a gwireddu manteision iechyd?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 164 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 79 yn cytuno, 40 yn anghytuno a 45 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi ymrwymïadau a chamau gweithredu yn y Cynllun a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o fanylion am amserlenni, camau gweithredu penodol, adnoddau, cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

Mae nifer o ymatebion yn cyfeirio at gyfyngiadau'r trefniadau monitro presennol ac arfaethedig a'r amrediad cyfyngedig o lygryddion aer a ddadansoddwyd.

Roedd rhai ymatebwyr yn falch o weld ffocws ar dargedau newydd ar gyfer deunydd gronynnol i gefnogi gwelliannau iechyd. Fodd bynnag, gofynnwyd am i lygryddion eraill gael eu hystyried ymhellach, gan gynnwys Osôn, Nitrogen Deuocsid, Nitrogen Ocsid ac Amonia.

Mae ymatebion manwl yn gofyn am fwy o integreiddio rhwng polisi ansawdd aer a gwaith y gwasanaeth iechyd. Gwnaed cais i fwg tybaco ac anweddu gael eu hystyried fel llygryddion aer.

Mae llawer o'r ymatebwyr yn sôn am wella'r cyfathrebu a'r ddealltwriaeth o ansawdd aer gyda'r cyhoedd.

Roedd ychydig o'r ymatebwyr yn cwestiynu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau gwelliannau.

Dyfyniadau dangosol

"Mae dealltwriaeth y cyhoedd yn allweddol. Ar hyn o bryd, nid oes gan y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd unrhyw wybodaeth am y graddau y maent yn agored i ansawdd aer gwael nac am yr effeithiau tymor hwy ar eu hiechyd yn sgil cyswllt o'r fath." **Academi Morgan, Prifysgol Abertawe**

"Fel rhan o'r argymhellion a'r camau gweithredu, er y cyfeirir at PM_{2.5}, hoffai'r Cyngor dynnu sylw at y ffaith nad yw'r camau gweithredu arfaethedig yn rhagweld cynnwys monitro pellach o Osôn (O₃) nac Amonia (NH₃). Derbynnir yn eang bod y llygryddion hyn yn bygwth iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol, yn bennaf trwy greu llygryddion eilaidd. Nodwyd hefyd bod lefelau metel uwch yn gysylltiedig â cherbydau o dan amodau brecio. Byddai'r

Cyngor yn croesawu unrhyw ddull gan Lywodraeth Cymru i ail-werthuso ei strategaeth i gryfhau'r monitro yng Nghymru a rhoi dealltwriaeth glir o sut y caiff hyn ei gyflawni trwy ddyrannu adnoddau'n briodol i awdurdodau lleol."

Cyngor Caerdydd

"Mae'n bwysig bod gwaith a chanfyddiadau'r panel annibynnol o arbenigwyr yn dryloyw ac yn agored i'w harchwilio. Rhaid i'r targedau fod yn gadarn ond yn gyraeddadwy. Mae'r MPA yn cefnogi'r dull o ddatblygu ac ymgynghori ar dargedau newydd ond i fod yn wirioneddol gynaliadwy, byddem yn ceisio sicrwydd bod y rhain yn gyraeddadwy ac yn destun ystyriaethau economaidd priodol, yn ogystal â rhai cymdeithasol ac amgylcheddol. Ymhellach, dylid rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft pan fydd mesurau i leihau un llygrydd yn arwain at gynnydd mewn llygrydd arall." **MPA Cymru**

"...dylai ymrwymïadau fod yn rhai CAMPUS; mae rhai yn eithaf amwys fel y maent wedi'u hysgrifennu. Yn ogystal, dylid rhoi mwy o bwyslais ar atebion gwella ansawdd aer sy'n cael eu llywio gan yr holl bartneriaid ledled GIG Cymru..." **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

"Rydym yn cefnogi'n gryf ffocws y cynllun ar iechyd y cyhoedd a'i gydnyddiaeth bod angen i wella ansawdd aer fynd y tu hwnt i gydymffurfio â throthwyon terfyn." **RTPI**

"Mae'r cynlluniau'n ceisio dod ag ystod eang o faterion ynghyd, ond nid yw'r rhain yn cynnwys manylion penodol ac maent yn agored i'w dehongli. Mae cwestiynau hefyd ynghylch pryd y bydd y cynllun yn cael ei weithredu'n llawn, pryd y bydd y cyllid yn cael ei ddarparu a phryd y caiff y Ddeddf Aer Glân newydd ei chyflwyno yn y Senedd." **Coleg Brenhinol y Ffisigwyr**

Ymateb

Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu ymrwymïadau a chymau gweithredu yn y Cynllun sy'n canolbwyntio ar ddiogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu targedau newydd ar gyfer deunydd gronynnol yng Nghymru fel rhan o ddatblygiad Deddf Aer Glân Cymru. Rydym wedi nodi'r angen i dargedau fod yn gyraeddadwy, ynghyd â cheisiadau i ystyried y targedau presennol ar gyfer llygryddion eraill.

Rydym wedi cynnull panel annibynnol o arbenigwyr y bydd eu cyngor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Aer Glân a'r Ddeddf. Un o brif amcanion y panel yw rhoi cyngor ar y ffordd iawn o fynd ati i ddatblygu targedau ansawdd aer uchelgeisiol yng Nghymru.

Cwestiwn 4

A ydych chi'n fodlon y bydd y cynigion ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn arwain at drefniadau rheoli ansawdd aer cadarn ac effeithiol?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 167 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 49 yn cytuno, 65 yn anghytuno a 53 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'r cynigion presennol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Yn fras, roedd Awdurdodau Lleol a chyrff proffesiynol o blaid y cynigion, yn amodol ar amodau sy'n ymwneud ag adnoddau. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion roedd ymatebwyr unigol o'r farn nad oedd cynigion yn mynd yn ddigon pell.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at wahaniaeth ymddangosiadol rhwng rheoliadau cynllunio a thrwyddedu cyfredol. Er enghraifft, caniatáu ar gyfer adeiladu boeleri biomas fel rhan o strategaethau datgarboneiddio heb ystyried eu cyfraniad at lygredd aer lleol.

Nodwyd gwahaniaethau mewn ansawdd aer yn deillio o losgi domestig mewn ardaloedd trefol a gwledig gan ymatebwyr, ynghyd â'r effaith ar aelwydydd sy'n agored i niwed.

Gwnaed rhai argymhellion ar gyfer gorfodi, cymhellion i ddisodli neu uwchraddio systemau gwresogi cartrefi a buddsoddiad y Llywodraeth mewn mesurau ehangach i ddylanwadu ar ymddygiad y cyhoedd i newid eu dulliau presennol o deithio.

Dyfyniadau dangosol

"Nac ydw. Dw i'n meddwl eu bod yn dioddef o ddiffyg creadigrwydd a meddwl gwreiddiol a gonest, ac yn hytrach yn dewis cydymffurfio â'r meddwl grŵp. Maen nhw'n dangos diffyg dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol ac yn ymddangos i fod â mwy o ddiddordeb mewn cael eu gweld yn gwneud y "peth iawn" na chymryd camau arloesol i gyflawni'r amcanion a nodwyd." **Dienw**

"Ddim mewn gwirionedd. Gan y bydd pethau'n cael eu gwahardd cyn bod gan lawer ohonynt ddewisiadau dichonadwy amgen sy'n fforddiadwy, bydd teuluoedd incwm is, pensiynwyr, ffermwyr yn cael eu heffeithio'n ddrwg." **Dienw**

"...bydd angen adnoddau newydd er mwyn atgyfnerthu'r gyfundrefn, ac mae'n rhaid i unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol gael adnoddau digonol. Mae angen diweddarau'r pwerau presennol er mwyn i awdurdodau lleol ymdrin yn well â gorfodi rheolau allyrru o gerbydau; gorfodi cerbydau rhag segura'n ddiangen; oherwydd mae gan asiantaethau'r llywodraeth fwy o bŵer i ymdrin â gweithredwyr bysiau a lorïau.

“Mae’n bwysig hefyd, wrth gryfhau’r drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol, cydnabod bod effeithiau ansawdd aer ar iechyd y cyhoedd yn eang a heb fod yn gyfyngedig i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer problemus.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

“Mae’r cynigion (tt. 50-52) yn glodwiw, ond sut ydych chi’n mynd i’w gorfodi?... Ni all diwrnodau di-gar weithio yn y tymor hir heb fuddsoddiad sylweddol mewn trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, glân a diogel sy’n gwasanaethu ardaloedd trefol yn eu cyfanrwydd, nid dim ond y rhannau hynny sy’n ddigon ffodus i gael gorsaf reilffordd -- ac mae’n rhaid i hyn ddod yn gyntaf, cyn i’r parthau di-gar gael eu cyflwyno.” **Dienw**

Ymateb

Rydym yn croesawu’r adborth i’r cwestiwn hwn ac yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn cael ei integreiddio’n well â meysydd polisi a sectorau eraill er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy cynhwysfawr ac ataliol. Byddwn yn ystyried pob ymateb i’r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu’r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Drwy ddatblygu’r Ddeddf Aer Glân, byddwn yn ymchwilio i’r ffordd orau o gynorthwyo Awdurdodau Lleol i sicrhau gwelliannau o ran ansawdd aer.

Cwestiwn 5

A ydych chi'n fodlon â'r dull arfaethedig ar gyfer Parthau Aer Glân/Parthau Allyriadau Isel yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 153 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 55 yn cytuno, 52 yn anghytuno a 46 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Mae nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn berthnasol i gwestiynau eraill hefyd. Roedd pryder na fyddai'r un dull yn berthnasol i bawb.

Cafwyd nifer o awgrymiadau i gefnogi Parthau Aer Glân. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau i reoli cerbydau'n segura, cyfleusterau 'parcio a theithio' effeithiol mewn ardaloedd trefol a gwledig a gwahaniaethu rhwng cerbydau gwasanaeth/dosbarthu hanfodol a thraffig preifat.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i godi tâl ar ffyrdd, ond roedd llawer yn teimlo na ddylid ei gyflwyno'n llawn nes bod systemau trafniadaeth gyhoeddus gwell, fforddiadwy, integredig a hygyrch a gwell systemau rheoli llif traffig ar gael yng Nghymru. Roedd rhai o'r farn y gallai codi tâl gyfyngu ar fynediad i ardaloedd craidd ac effeithio'n negyddol ar gymunedau ac aelodau'r cyhoedd ar incwm is.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu Parthau Aer Glân/Parthau Allyriadau Isel ond yn gofyn am eithriadau ar gyfer staff y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn teithio mewn car i ddarparu gofal cymunedol hanfodol a phobl anabl sy'n dibynnu ar eu cerbyd. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr effaith bosibl ar degwch cymdeithasol a datblygu economaidd.

Nododd sawl ymatebwr y posibilrwydd y byddai creu parthau yn symud problem i ardal gyfagos, ac i effeithiau gael eu hystyried ar lefel ranbarthol neu isranbarthol yn hytrach nag ar lefelau lleol yn unig.

Dyfyniadau dangosol

"Er fy mod yn cytuno'n gryf â'r angen i leihau allyriadau mewn ardaloedd poblog (trefol yn aml), rwy'n pryderu y bydd y costau neu'r diffyg mynediad i'r ardaloedd craidd (e.e. Caerdydd) yn cael effaith negyddol ar gymunedau ac aelodau o'r cyhoedd mewn teuluoedd ac ardaloedd incwm is. Os darperir trafniadaeth gyhoeddus addas, ddibynadwy a fforddiadwy, yna mae'r parthau hyn yn ateb ymarferol. Os nad ydynt, yna nid yw'n realistig disgwyl i aelodau'r cyhoedd wynebu gorfod talu. Bydd modd i aelodau mwy cefnog o'r cyhoedd gyfnewid cerbydau diesel/allyriadau uchel am gerbydau hybrid neu drydan. Ni fydd ardaloedd tlotach yn gallu gwneud hyn. Ymhellach, mae gan ardaloedd cyfoethocach (yn gyffredinol) gysylltiadau trafniadaeth gwell â chanol y ddinas, felly gallant ddefnyddio hyn yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen i'r Cynllun Aer Glân gyfeirio'n effeithlon ac yn benodol at sut y bydd yn helpu ardaloedd llai cefnog sydd â llai o gysylltiadau trafniadaeth

gyhoeddus (neu gysylltiadau llai dibynadwy). Ymhellach, mae'r cynllun yn ymdrin yn effeithlon â sut i leihau'r allyriadau, ond nid yw hyn yn mynd i'r afael â thagfeydd. Mae'r cynllun yn dibynnu ar ei lwyddiant ei hun i leihau nifer y cerbydau. Fodd bynnag, os yw pobl yn dal i fod yn barod i deithio'n unigol mewn cerbydau a thalu tâl, nid yw'n mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd."

Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre

"Yn benodol mewn perthynas â chodi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, yr her yw cyflawni hyn heb greu anghydraddoldebau. Fel ymyriad annibynnol, mae perygl y bydd yn creu sefyllfa lle mae'r rhai sy'n gallu fforddio talu'r taliadau yn parhau i wneud hynny ac yn teithio, a llygru, heb unrhyw ganlyniadau. Mae'n bosibl wedyn na fydd y rhai sydd ddim yn gallu fforddio talu'r ffi yn gallu cael mynediad i gyfleoedd gwaith a hamdden, oherwydd diffyg opsiynau trafnidiaeth amgen, ar draul iechyd a llesiant sy'n gallu negyddu manteision gwell ansawdd yr aer." **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

"Fodd bynnag, gallai parthau aer glân ar y cyd â e.e. mesurau i wella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, fforddiadwyedd, dibynadwyedd, cwmpas, ansawdd, hygyrchedd a diogelwch, ynghyd â seilwaith teithio llesol gwell a thechnoleg sy'n lleihau'r angen i deithio i'r gwaith, hefyd annog hyd yn oed y rhai sy'n gallu fforddio talu costau rhag gwneud hynny, gan wella iechyd a llesiant i bawb." **RTPI Cymru**

"Rhaid i unrhyw Barth aer glân fod yn gyflawnadwy a rhaid iddo gydnabod y lefelau o ddatblygiad sy'n debygol o ddigwydd mewn ardal. Bydd angen ailgylchu deunyddiau adeiladu sy'n gysylltiedig â dymchwel a pharatoi safleoedd fel rhan o'r economi gylchol mewn ardaloedd adfywio. Bydd mesurau lliniaru priodol a ddefnyddir ar y safleoedd hyn yn helpu i leihau allyriadau gronynnau. Bydd angen nifer sylweddol o gerbydau nwyddau trwm hefyd i ddarparu deunyddiau adeiladu i hwyluso datblygiadau newydd yn sgîl adfywio. Byddai gwahardd peiriannau nwyddau trwm neu godi ffioedd mynediad sylweddol ac anghymesur o fewn yr ardaloedd hyn yn wrthgynhyrchol." **Mineral Products Association Cymru**

"Mae Awdurdodau Lleol yn cefnogi cynigion ar gyfer Fframwaith Parthau Aer Glân i'r graddau bod hyn yn darparu pecyn cymorth o ymyriadau i fynd i'r afael â materion ansawdd aer lleol. Er hynny, mae'n bwysig bod unrhyw fframwaith yn cydnabod bod mesurau o'r fath yn fwy addas mewn rhai lleoliadau nag eraill. Mae Parthau Aer Glân, er enghraifft, yn fwy tebygol o lwyddo mewn canolfannau trefol sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan ddulliau teithio a/neu lwybrau amgen. Mae rhannau strategol eraill o'r rhwydwaith priffyrdd yn rhan o lwybrau allweddol ledled rhanbarth a gall cynlluniau lleol, trwy ddadleoli, arwain at anafanteision net ar draws y rhwydwaith. Byddai'r lleoliadau hyn yn elwa o ymyriadau cenedlaethol megis newidiadau i gyfansoddiad fflyd cerbydau'r DU, er enghraifft. Pan fo Parth Aer Glân yn cael ei ystyried, mae'n hanfodol hefyd bod yr effeithiau ar gefnogi'r Cynllun Aer Glân ehangach yn y rhanbarth yn cael eu hystyried." **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

“Mae’n bwysig bod Parthau Aer Glân/Parthau Allyriadau Isel yn cael eu gweld fel un o’r dulliau yn y ‘pecyn cymorth’ wrth weithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a lleihau cyswllt ymhellach. Derbynnir bod Parthau Aer Glân yn gweithio yn Lloegr, ond rhaid edrych arnynt fesul achos... Er y gallai cyfyngu ar fynediad i gerbydau fod yn arf addas i awdurdodau lleol mewn mannau penodol, gellid cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fflyd bysiau heb allyriadau erbyn 2028 yn gynt mewn mannau problemus penodol fel math o gyfyngiad. Gall Parthau Aer Glân fod yn llwyddiannus mewn canolfannau trefol a wasanaethir yn dda gan ddulliau amgen o deithio a/neu lwybrau amgen. Fodd bynnag, ni fyddant yn ddigon ar eu pen eu hunain i wella ansawdd aer yn gyffredinol. Mae angen newidiadau sylweddol ar raddfa ehangach i leihau allyriadau yn y tarddle. Mae gormod o geir preifat ar y ffyrdd a gormod o ddibyniaeth arnynt. Mae angen gwella trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cynnig dewis arall ymarferol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.”

Cyngor Abertawe

“Mae codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn cynnig ffordd arall o fynd i’r afael â’r materion hyn a chodi refeniw ar gyfer datblygu seilwaith. Fodd bynnag, nes bydd dulliau teithio amgen llawn ar gael yng Nghymru, ni ddylid cyflwyno codi tâl am ddefnyddio ffyrdd, nid ar hyn o bryd nac yn y dyfodol agos.” **Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl adborth ar Parthau Aer Glân/Parthau Allyriadau Isel yng Nghymru er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddeddfwriaethol addas ar waith i alluogi i Parthau o’r fath gael eu cyflwyno’n effeithiol, lle bo achos dros wneud hynny. Bydd sylwadau a dderbynnir trwy’r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu ein Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru adolygiad annibynnol, o dan arweiniad Derek Turner CBE, i fanteision a heriau dulliau gwahanol o reoli galw. Bydd yr adolygiad yn ystyried y rhesymeg dros fecanweithiau codi tâl fel lliniaru tagfeydd, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cynyddu cyfraddau teithio llesol ac annog newid i dtrafnidiaeth fwy cynaliadwy. Mae’r adolygiad yn ystyried yr effeithiau yn ystod pandemig COVID-19 hefyd i ddatblygu opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ledled Cymru.

Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Trafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill wrth i ni ddatblygu cynigion a chwblhau ein Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru.

Cwestiwn 6

A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer mynd i'r afael â llygredd aer o hylosgi domestig?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 159 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 73 yn cytuno, 41 yn anghytuno a 45 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â chynigion i fynd i'r afael â llygredd aer o hylosgi domestig. Fodd bynnag, codwyd materion yn ymwneud â thegwch ariannol, gan gynnwys yr angen i ystyried pobl sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd a'r amgylchiadau a'r heriau gwahanol ar gyfer trigolion trefol a gwledig.

Roedd llawer o ymatebwyr yn cymharu'r camau gweithredu arfaethedig ar losgi domestig â'r angen i flaenoriaethu lleihau allyriadau diwydiannol a thrafnidiaeth.

Roedd nifer o'r ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am addysg am effeithiau llosgi domestig ac arferion gorau.

Roedd rhai ymatebwyr yn holi pam fod cymunedau'n dal i ddibynnu ar danwydd solet ac yn tynnu sylw at yr heriau o orfodi newidiadau i werthu neu losgi tanwydd solet.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau cadarnach, gan gynnwys gwahardd gosod stofiau llosgi coed (beth bynnag fo'u tanwydd), tân gwyllt, coelcerthi a llosgi sbwriel a gwastraff gardd. I'r gwrthwyneb, roedd eraill yn teimlo ein bod yn mynd yn rhy bell i gyfyngu ar hawliau i wneud dewisiadau unigol yn eu cartrefi.

Gofynnodd yr ymatebwyr a fyddai'n well buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi yn gyntaf er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar losgi domestig ar gyfer gwresogi mewn ardaloedd gwledig. Awgrymodd rhai ymatebion y dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar losgi 'hamdden' trefol gan gynnwys coelcerthi a llosgi domestig yn yr awyr agored.

Dyfyniadau dangosol

"Er ein bod yn croesawu pob mesur i leihau deunydd gronynnol, byddem yn pryderu pe bai newidiadau yn y rheoliadau ynghylch tanwydd pren a glo tŷ yn arwain at gynnydd yn nifer yr aelwydydd mewn perygl o dlodi tanwydd."

Parciau Cenedlaethol Cymru

"Dylai'r rheini mewn tlodi tanwydd gael eu cefnogi trwy ddefnyddio nifer o fecanweithiau, ond yn gyffredinol rhaid cael trywydd polisi clir sy'n rhoi manylion y camau gweithredu byrdymor, tymor canolig a hirdymor y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd a'r effeithiau posibl ar ddefnyddwyr domestig." **Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cymru**

“Mae'r dystiolaeth yn cynyddu i ddangos bod mwy o losgi coed domestig yn cyfrannu at y crynodiadau PM_{2.5}. Nid yw ymyrraeth Cymru gyfan yn debygol o fod yn briodol o ystyried y cymunedau trefol a gwledig sy'n bodoli a'r gwahaniaethau o ran pa fathau o ffynonellau tanwydd sydd ar gael. Bydd ymwneud parhaus awdurdodau lleol â'r Grŵp Hylosgi Tanwydd Domestig yn dal i esgor ar drafodaeth werthfawr â'r holl gyrff perthnasol sy'n ymwneud â'r pwnc. Drwy ymchwilio i gwynion a dderbyniwyd, mae Cyngor Abertawe yn cytuno y bydd dull addysgol o edrych ar ddefnyddio'r cyfarpar a defnyddio tanwyddau priodol yn cael effaith lesol ar allyriadau o hylosgi domestig. Yn aml gwelir bod achosion o fygu estynedig o fflw yn gysylltiedig â diffyg gwybodaeth am y broses o ddefnyddio/cynnu'r tân ynghyd â'r defnydd o danwydd o ffynonellau lleol (pren), nad yw wedi'i sychu'n briodol, gyda chynnwys lleithder uchel. Croesewir y cynnig am bwerau i gyfyngu ar werthu tanwydd uwchlaw cynnwys lleithder dynodedig a darparu adnoddau i alluogi awdurdodau lleol i roi'r pwerau newydd ar waith. Fodd bynnag, bydd defnyddio'r pwerau ac addysgu'r boblogaeth yn chwarae rhan fawr yn eu llwyddiant. Mae'n werth nodi, er bod offer domestig newydd yn mynd i gydymffurfio â gofynion 'eco-ddylunio' o 2022 ymlaen, bydd nifer fawr o stofiau presennol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf dylunio newydd ac mae angen trafodaeth bellach i gytuno ar ffordd addas ymlaen. Dylid mynegi pryder hefyd ynglŷn â chyfleu neges bosibl bod llosgi yn dderbyniol.” **Cyngor Abertawe**

“Mae hyn yn effeithio ar bobl dlotach a chymunedau gwledig unwaith eto. I lawer, coed a glo yw'r unig danwydd gwresogi [iddynt].” **Dienw**

“Ydw, rwy'n teimlo bod y cynnig wedi'i ystyried yn dda iawn. Mae'n amlinellu nodau cyraeddadwy ac yn canolbwyntio ar addysg, a rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y boblogaeth i wneud dewisiadau gwell wrth ddefnyddio tanwyddau solet. Mae'r wybodaeth a'r cydweithio yn darparu nodau cywir a chyraeddadwy i unigolion.” **Dienw**

“Mae angen meddwl yn ofalus am y pwynt hwn. Mae llawer o aelwydydd yn y Gymru wledig yn dibynnu ar losgi coed fel prif ffynhonnell wresogi. Mae hwn yn fodel gwahanol iawn i losgi coed mewn ardaloedd trefol, lle mae hwn yn ychwanegiad cosmetig yn bennaf. Mae angen i'r rheoliadau adlewyrchu'r anghenion gwahanol hyn. Byddai ailgyflwyno parthau rheoli mwg mewn ardaloedd trefol yn ateb delfrydol, a byddai hefyd yn cwmpasu ffynonellau awyr agored sy'n dod yn fwy cyffredin.” **Dienw**

“Dylid gwahardd llosgwyr coed yn ninasoedd Cymru.” **Canolfan Feddygol St Julians**

“Na, mae'n ddull rhy syml ac ansoffistigedig. Mae angen dulliau gwahanol ar ganol dinasoedd o gymharu ag ardaloedd llai poblog” **Dienw**

“Ddim o gwbl. Mae cynnu tân yn y cartref yn hawl ddynol sylfaenol. Mae'n nodwedd o fodau dynol sy'n ein gwahaniaethu'n fwyaf amlwg oddi wrth anifeiliaid eraill. Mae'r hawl i gael tân yn fwy sylfaenol nag unrhyw un o'r hawliau eraill a roddir i bobl gan ddeddfwriaeth hawliau dynol. Mae'n gwella

llesiant mewn ffordd debyg i dreulio amser wrth raeadr, ger y môr, mewn coedwig, neu ar fynyddoedd. Pan fydd y tywydd yn wael, neu pan fyddwn yn dychwelyd adref ar ôl gweithgaredd, dyna sut y mae bodau dynol yn ailgrwpio, ymlacio, myfyrio, bondio. I rai pobl, nad ydynt yn gallu cyrchu mynyddoedd, y môr, coedwigoedd ac yn y blaen, efallai mai tân yw eu prif ffynhonnell o ran cysylltiad â natur. Mae'n amlwg bod anwybodaeth lwyr yn rhedeg trwy'r ddeddfwriaeth hon ynglŷn â pha mor ganolog yw tân i fodolaeth ddynol. Iawn, ataliwch ffatrïoedd rhag allyrru nwy gwenwynig. Ond byddai amharu ar gysylltiad cysefin pobl â thân yn gibddall a rhyfygus. Nid oes gennych hawl i ymyrryd fel hyn â chysylltiad pobl â natur." **Dienw**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wrth i ni baratoi i ymgynghori ymhellach ar gynigion penodol sy'n ymwneud â llosgi domestig. Bydd unrhyw gynigion yn seiliedig ar dystiolaeth.

Byddwn yn ystyried yr effaith ar gartrefi gwledig a threfol a busnesau cysylltiedig, ac anghenion yr aelwydydd hynny, ynghyd â nod Llywodraeth Cymru o ddileu tlodi tanwydd.

Cwestiwn 7

Pa agweddau ar Reoli Mwg yr hoffech i Lywodraeth Cymru eu hystyried neu eu cryfhau?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 143 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 yn meddwl na ddylid cryfhau unrhyw agweddau.

Daeth sawl neges allweddol i'r amlwg o'r ymatebion a gafwyd:

- Rheoliadau ar wahân ar gyfer stofiau llosgi coed a llosgi yn yr awyr agored (choelcerthi, barbeciws ac ati).
- Datblygu rhaglen addysg i hyrwyddo'r defnydd o goed sych a chefnogi dulliau sychu naturiol cynaliadwy yn hytrach na choed wedi'i sychu mewn odyn neu friquettes coed sy'n defnyddio ynni.
- Defnyddio tystiolaeth ansawdd aer, gan gynnwys meini prawf dwysedd tai ac ardal ddaearyddol, ar gyfer trwyddedu, cyfyngiadau a gwahardd offer tanwydd solet domestig.
- Ystyried materion tlodi tanwydd, cost newid ac effeithlonrwydd ynni mewn anheddau.
- Cyflymu'r newid yn y wybodaeth am ddosbarthiad stofiau trwy ei rhoi ar-lein.
- Caniatáu gosod y dyfeisiau Ecoddylunio mwyaf effeithlon yn unig.
- Ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth fel y gellir mynd i'r afael â choelcerthi a mathau eraill o 'llosgi hamdden' trwy ddeddfwriaeth rheoli mwg a niwsans.
- Gwella dealltwriaeth o effeithiau llosgi domestig ar iechyd. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn y man gwerthu tanwyddau a tân gwyllt a thrwy ffynonellau'r Llywodraeth.
- Ystyried cofrestr gyhoeddus debyg i gyflenwadau dŵr preifat ar gyfer unrhyw losgwyr pren, tanau agored a boeleri biomas.
- Mynd i'r afael â llosgi diwydiannol a masnachol.
- Tynhau'r ddeddfwriaeth ar goelcerthi a tân gwyllt.
- Lleihau llosgi rhostir/tir fferm tymhorol.

Dyfyniadau dangosol

"Mae cynnwys pwerau newydd ar gyfer rheoli mwg yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae angen cadarnhad y bydd yr adnoddau priodol ar gael i awdurdodau lleol gyflawni'r gwaith addysgol a gorfodi ychwanegol a fydd yn ofynnol." **Fforwm Ansawdd Aer Cymru**

"Mae cyflenwyr coed i berchenogion stofiau llosgi coed yn tueddu i fod yn fusnesau un person neu'n fusnesau teuluol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. A fyddai'n ymarferol cofrestru'r cyflenwyr hyn? Fel rhan o'u cofrestriad, a ellid rhoi mesurydd lleithder iddynt, fel eu bod yn gallu tystio bod y coed a gyflenwir ganddynt wedi'i sychu a'i fod yn bodloni'r lefelau lleithder isel gofynnol? Gall maint yr elw fod yn isel yn y busnesau hyn, a gall fod

angen cymorth ariannol i sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni er mwyn lleihau allyriadau. Rydym yn pryderu am oblygiadau amgylcheddol eraill (defnydd o ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr) o awgrymiadau yn y wasg yn y DU y dylai coed gael eu sychu mewn olyn bob tro. Ni fyddem yn hoffi gweld y dull hwn o sychu yn cael ei gyflwyno fel dull gorfodol. Yn yr un modd, bydd gan "goed amgen" wedi'u prosesu gostau amgylcheddol ynghlwm wrth eu cynhyrchu hefyd – mae angen dadansoddiad cost a budd i benderfynu a yw'r rhain, yn y tymor hir, yn well ar gyfer yr amgylchedd na llosgi pren wedi'i aer sychu'n dda sy'n isel o ran lleithder. Yn olaf, a ellir disodli'r defnydd o lo yn raddol ar gyfer systemau gwresogi domestig? A allai grantiau fod ar gael ar gyfer newid o'r tanau/stofiau llygru hynaf sy'n llosgi glo yn unig i stofiau â chynllun newydd, sy'n cynhyrchu llai o lygredd?" **Plaid Lafur Etholaeth Ynys Môn**

"Mae Cyngor Caerdydd yn cytuno bod angen craffu ymhellach ar y gwaith o orfodi llygredd o hylosgi domestig. Mae'r gweithdrefnau presennol i orfodi llosgi domestig yn broses hir iawn ac mae angen llawer o dystiolaeth cyn y caiff niwsans statudol ei gymeradwyo. Felly byddai'r Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylid ystyried deddfwriaeth symlach a haws ei gorfodi. Er mwyn cefnogi hyn, byddai angen i'r mecanweithiau fod yn hygyrch i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddarparu digon o arferion da. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Fforwm Ansawdd Aer Cymru i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried adolygu sut y dylid rheoleiddio a gorfodi materion hylosgi domestig yn well i lywio unrhyw newid mewn deddfwriaeth." **Cyngor Caerdydd**

"Cynllun cofrestru a chofrestr gyhoeddus fel gyda chyflenwadau dŵr preifat ar gyfer unrhyw losgwyr pren, tanau agored a boeleri biomas. Dylai fod cyfle hefyd i gynnwys y defnydd o eneraduron a pheiriannau symudol sy'n cael eu pweru gan ddiesel. Mae Parth Aer Glân yn targedu cerbydau; dylai Ardal Rheoli Mwg ganiatáu targedu/rheoleiddio unrhyw allyriadau nad ydynt yn gysylltiedig â chludiant. Heb gynllun cofrestru, bydd dibynnu ar hysbysiadau cosb benodedig i orfodi ardal rheoli mwg yn methu. Dylid gwahardd llosgi gwastraff gardd a chartref yn llwyr." **Cyngor Dinas Casnewydd**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Ardaloedd Rheoli Mwg gyda phartneriaid gan gynnwys Fforwm Ansawdd Aer Cymru i sicrhau bod mecanweithiau priodol yn cael eu hystyried. Byddwn hefyd yn ystyried a ddylid ymestyn y cwmpas i losgi yn yr awyr agored, megis coelcerthi, ac opsiynau eraill ar gyfer cyflwyno system gymeradwyo ar gyfer tanwyddau a ddefnyddir mewn lleoliadau awyr agored. Byddai unrhyw estyniad o'r fath i ddeddfwriaeth reoleiddio yn destun ymgynghori pellach.

Cwestiwn 8

A ydych chi'n fodlon â'r cynigion ar gyfer dull rheoli ansawdd aer mwy integredig?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 125 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 54 yn cytuno, 25 yn anghytuno a 46 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Yn fras, roedd Awdurdodau Lleol a chyrff proffesiynol o blaid y cynigion. Roedd unigolion yn fwy tebygol o ystyried nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell neu'n amau gallu 'Llywodraeth' i gyflawni gwelliannau.

Y materion allweddol a gododd o'r ymatebion oedd:

- Yr angen i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol integreiddio polisiau er mwyn sicrhau nad yw llygredd aer yn cael ei ddadleoli o un ardal i'r llall.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ddatblygu dulliau integredig o reoli ansawdd aer ar y cyd.
- Dulliau rhanbarthol o leihau NO₂.
- Ni ddylai ardaloedd gwledig gael eu hintegreiddio â'r un polisi a allai fod yn berthnasol i ardaloedd trefol.
- Dylid ystyried a hyrwyddo dulliau amgen adeiladol cyn treialu ardollau parcio yn y gweithle neu ddulliau 'bygythiol' eraill.
- Cynllunio a rheoleiddio amaethyddol er mwyn alinio i leihau NH₃ a mannau problemus o ran nitrogen mewn ardaloedd gwledig.
- Symud o 'syniadau gwyh' i ddarparu gwelliannau gwirioneddol i ansawdd aer trwy Reoli Ansawdd Aer Lleol.
- Mynegwyd amheuaeth ynghylch ymarferoldeb integreiddio oherwydd ei fod yn cael ei gyplysu'n aml gyda phryderon am adnoddau a chyllid i gyflawni newid.

Dyfyniadau dangosol

"Bydd angen dull rhanbarthol o fynd i'r afael ag allyriadau NO₂ wrth i ni symud tuag at system drafnidiaeth integredig sy'n cael ei sbarduno'n fwy rhanbarthol. Mae'n bwysig dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a gwaith yr Awdurdodau Lleol ar y cyd â Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael ag ansawdd aer ar sail ardal gyfan." **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

"Dylai Trafnidiaeth Cymru a sefydliadau tebyg fod yn gyfrifol am sicrhau gwelliant, ac nid awdurdodau lleol yn unig. Mae mwy o gydweithio rhwng rhanddeiliaid yn ddefnyddiol; fodd bynnag, nid awdurdodau lleol yn unig ddylai fod wrth y llyw. Os oes bwriad i gosbi awdurdodau lleol am beidio â gwella, pa gosbau sydd yna i'r byrddau iechyd, Trafnidiaeth Cymru, yr Asiantaeth Briffyrdd ac ati?" **Cyngor Dinas Casnewydd**

"Rydym yn croesawu dull mwy integredig o reoli ansawdd aer a hoffem weld hyn yn cael ei ddatblygu yn unol ag egwyddorion Pontio Cyfiawn, gydag

undebau llafur a gweithwyr yn cael llais canolog fel rhan o ddull cydweithredol o fynd i'r afael â llygredd aer." **TUC Cymru**

"Mae'r cysyniad o ddull integredig yn gywir ar gyfer y rhan fwyaf o broblemau ar raddfa fawr, felly ydw, rwy'n fodlon â hynny. Ond... y llynedd, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd. Mae llygredd aer o bob math yn cyfrannu at yr argyfwng hwn. Ac eto, y cyfan sy'n cael ei gynnig yma yw fframwaith gweithredu erbyn canol 2021. Nid oes cynnig yma ynghylch pryd y cymerir camau i leihau llygryddion atmosfferig i lefelau cyfreithiol, ac yn sicr nid oes dim yn cael ei gynnig i gyflawni targed o 75% neu hyd yn oed 50% o lefelau cyfreithiol ledled Cymru." **Dienw**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y byd academiaidd a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod gennym ddulliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol effeithiol a chydlynol o wella ansawdd aer ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Cwestiwn 9

A oes agweddau ar llygredd aer dan do yr hoffech i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw? Efallai yr hoffech ystyried beth ddylai prif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fod ar gyfer rheoleiddio cemegau mewn eitemau a chynhyrchion a allai gyfrannu at ansawdd aer gwael dan do.

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 121 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 12 yn meddwl na ddylid rhoi sylw i unrhyw agwedd.

Roedd galw am waith ymchwil ychwanegol ar effeithiau cysylltiad â llygredd aer dan do, er mwyn nodi a chynllunio ymyriadau derbynol ac effeithiol. Roedd gan rai ymatebwyr bryderon ynghylch preifatrwydd pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i fonitro llygredd mewn cartrefi.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at faterion ansawdd aer dan do y dylid eu hystyried, gan gynnwys:

- potensial i wella effeithlonrwydd ynni i leihau cysylltiad â lleithder a llwydni
- defnyddio chwistrellau aerosol yn hytrach na chynwysyddion gweithredu â llaw/pwmpio
- peraroglyddion
- canhwyllau persawrus
- allyriadau o gynhyrchion glanhau
- Cyfansoddion Organig Anwedol yn rhyda nwyon o ddeunyddiau adeiladu a dodrefn a weithgynhyrchwyd
- micro-blastigau a gludir yn yr aer o ddillad a chelfi
- cynhyrchion tybaco ac anweddu

Awgrymodd ymatebwyr y dylai amgylcheddau gwaith dan do gynnwys cerbydau yn ogystal â chludiant cyhoeddus.

Dyfyniadau dangosol

“Addysg. Nid yw'r boblogaeth gyffredinol yn gwybod beth yw llygredd aer dan do. Drwy addysgu'r boblogaeth, byddent yn gallu gwneud dewisiadau gwell a fyddai'n llesol i'r blaned.” **Dienw**

“Hoffwn i Lywodraeth Cymru ystyried mesurau sy'n sicrhau bod awyru priodol ar gael dan do. Hefyd, ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol, a fyddai hidlwyr gronynnau yn weithredol ar gyfer unrhyw awyru? Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ein bod yn cadw'r un safon o reoleiddio cemegol ag Ewrop o leiaf (fel rhywun sy'n gweithio yn y diwydiant cemegol, nid yw llacio rheoleiddio yn opsiwn mewn gwirionedd)” **Dienw**

“Nid yw ansawdd aer dan do wedi bod yn rhywbeth i mi feddwl amdano erioed, felly mae fy ngwybodaeth am ansawdd aer dan do wedi cynyddu'n

arw. Mae allyriadau o danau agored a stofiau, yn un peth, wedi bod yn ddiddorol i'w darllen. Bydd angen i Lywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth pobl o lygredd aer dan do hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn mynd i chwarae rôl weithredol yn llywodraethu'r gyfundrefn newydd.” **Dienw**

“Ni allaf weld hyn yn fater rheoleiddiol, mae cymaint o bethau sy'n cyfrannu at amgylchedd y cartref fel bod llygredd aer yn ddewis cwbl anghywir o eiriad, addysg yw'r ateb os ydych chi wir yn teimlo'r angen i bennu beth mae pobl yn ei ganiatáu a'i wneud yn eu cartrefi eu hunain.” **Dienw**

“Rydym yn cefnogi unrhyw gynigion i wella ansawdd aer dan do, ond rydym yn cydnabod mai ysmygu ac anweddu yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o hyd.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

“Cytunir bod ansawdd aer dan do yn fater cymhleth sydd angen ymchwilio iddo a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd/busnesau ohono. Dylai amgylcheddau ansawdd aer dan do mewn safleoedd eraill megis gweithleoedd a chyfleusterau addysgol fod yn flaenoriaeth. Gallai amgylcheddau gwaith gynnwys cerbydau lle mae gyrwyr yn treulio cryn amser ynddynt. Yna gellir cymhwyso'r gwersi a ddysgir o'r amgylcheddau hyn i amgylchedd 'llai rheoladwy' cartrefi. Mae cyngor cynllunio ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd lle mae ansawdd aer gwael yn annog ffenestri nad ydynt yn agor ynghyd ag awyru mecanyddol. Mae angen ymchwilio i'r mater hwn. Dylid nodi hefyd fod y ffocws presennol ar inswleiddio cartrefi i leihau colli gwres yn aml yn golygu nad yw cartrefi'n cael eu hawyru cystal. Gall hyn arwain at dwf llwydni, a gellir ystyried ei sborau fel llygrydd sy'n effeithio ar iechedd. Mae hon yn broblem arbennig i rai unigolion ar incwm isel sy'n sychu dillad gwlyb dan do. Dylai gwaith ar y maes hwn ystyried y mater hwn.” **Cyngor Dinas Casnewydd**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried adborth i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu rhagor o dystiolaeth i gefnogi polisi i fynd i'r afael ag effeithiau ansawdd aer dan do ar iechedd. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth i wella addysg a chyfathrebu ar y mater hwn.

Rydym yn lansio Prosiect Ôl-osod wedi'i Optimeiddio sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Y bwriad yw gosod systemau monitro mewn eiddo, cyn ac ar ôl gosod y mesurau datgarboneiddio, er mwyn casglu data ar lefelau lleithder a charbon deuocsid cymharol, yn ogystal â thymheredd dan do, dwysedd carbon a chostau. Gobeithio y bydd hyn yn darparu data defnyddiol ar ansawdd aer dan do. Byddwn yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw'r posibilrwydd o fonitro ansawdd aer dan do yn effeithio ar hawliau'r unigolyn i breifatrwydd.

Cwestiwn 10

A ydych chi'n cefnogi'r cynigion ar gyfer Deddf Aer Glân i Gymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 157 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 111 yn cytuno, 21 yn anghytuno a 25 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi cynigion ar gyfer Deddf Aer Glân i Gymru. Cawsom rai ymatebion rhybuddiol a oedd yn awgrymu y gallai deddfwriaeth bresennol fynd i'r afael â llawer o'r problemau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen adnoddau ychwanegol ar Awdurdodau Lleol er mwyn monitro a gorfodi'n effeithiol.

Roedd rhai ymatebion yn pwysleisio'r angen i gyflwyno'r Papur Gwyn ar Ddeddf Aer Glân yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Dyma oedd canolbwynt deiseb ar-lein (mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad C). Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn ag ansawdd aer yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth yn y dyfodol.

Cafwyd galw am eglurder ynglŷn â phwrrpas deddfwriaeth newydd ac i sicrhau ei bod yn gyson â'r ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei datblygu ledled y Deyrnas Unedig.

Cais mynych oedd ymgorffori canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar lygredd aer yn y gyfraith. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am gael cydnabyddiaeth o lygredd aer fel problem iechyd galwedigaethol yn y gweithle, a thynnodd eraill sylw at yr angen i ymdrin â'r ystod o ffynonellau llygredd yn yr awyr.

Roedd cefnogaeth eang i weithredu cryfach i fynd i'r afael â cherbydau'n segura. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth ynghlwm wrth amod am angen i ddatblygu tystiolaeth ar y mater cymhleth hwn er mwyn sicrhau bod yr ateb cywir yn cael ei roi ar waith i wella ansawdd yr aer mewn amgylcheddau gorlawn.

Dyfyniadau dangosol

"Ydym, rydym yn cefnogi'r galw am Ddeddf Aer Glân newydd i Gymru. Fodd bynnag, nid deddfwriaeth newydd yw'r unig ateb i fynd i'r afael â materion ansawdd aer. Mae toreth o ddeddfwriaeth, polisi, canllawiau ac ati sy'n berthnasol ac o ansawdd da yn bodoli eisoes, felly mae'n bwysig adolygu hyn i gyd yng nghyd-destun anghenion Cymru i amlygu bylchau lle byddai Deddf newydd yn ychwanegu gwerth. Byddai'n fuddiol, wrth weithredu'r Cynllun Aer Glân, pe bai modd sicrhau cysylltiad cryfach â'r Strategaeth Aer Glân (ar gyfer Lloegr) er mwyn gallu datblygu a defnyddio offer ac adnoddau cyffredin i gymharu effaith y cynigion ar iechyd. Mae'r Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygredd Aer (COMEAP) a'r Grŵp Arbenigol ar Ansawdd Aer (AQEG) yn darparu adnoddau ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd o ddod i gysylltiad â llygredd aer. Dylai safonau data geisio bod yn gyson â'r rhai yng ngwledydd eraill y DU." **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

"Rhaid i gyflwyno deddfwriaeth newydd fod yn angenrheidiol, yn rhesymol, yn gymesur, ac yn orfodadwy, a pheidio ag ailadrodd unrhyw beth sy'n bodoli eisoes." **SMMT**

“Gwrthwynebu’n chwyrn, gan fod gennym Ddeddf yn barod nad yw ei phwerau’n cael eu defnyddio ddigon. Os yw’n mynd rhagddi, dylid canolbwyntio’n fanwl ar leihau dibyniaeth ar geir, cynyddu buddsoddiad mewn teithio llesol a llygru masnachol a chan wasanaethau, gan fod ardaloedd lle mae angen aer glân yn cael eu hanwybyddu er gwaethaf rhybuddion hysbys a’r problemau sy’n sail iddynt (e.e. canol Caerdydd)” **Ymgyrch Seiclo ‘Bargen Prifddinas-Ranbarth’ Caerdydd**

“Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn cefnogi cyflwyno Deddf Aer Glân yng Nghymru, ond mae’n rhybuddio bod rhaid ymdrin â’r ystod o ffynonellau llygredd yn yr aer, yn enwedig llygredd amaethyddol. Ein diddordeb allweddol yn y Ddeddf Aer Glân arfaethedig yw’r potensial i sicrhau bod ein cynefinoedd a’n rhywogaethau arbennig a/neu agored i niwed yn cael eu hadfer, a’u cynnal mewn cyflwr ffafriol, nawr ac i’r dyfodol. Mae’r ddeddfwriaeth bresennol yn methu a gallai Deddf Aer Glân i Gymru fod yn gam pwysig i ddatrys hyn.” **Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ar Fil Aer Glân i Gymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Er gwaethaf effaith ddiweddar COVID-19 a’r ymateb iddo, mae’r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd adborth i’r cwestiwn hwn yn cael ei ystyried wrth i ni ddatblygu’r Ddeddf Aer Glân i Gymru.

Cwestiwn 11

A oes materion ychwanegol y dylai Deddf Aer Glân fynd i'r afael â nhw?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 128 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 19 yn credu na ddylid rhoi sylw i unrhyw faterion.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn tynnu sylw at lawer o syniadau ar gyfer deddfwriaeth newydd i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer. Mae adborth wedi'i grynhoi yn unol â'r themâu yn y Cynllun:

Gwella ansawdd aer er mwyn diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol

- Galluogi partneriaethau amlasiantaeth i fynd i'r afael â llygredd aer.
- Rhaid i bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig gael eu cefnogi a'u hamddiffyn rhag ansawdd aer gwael.
- Cyfyngiadau ychwanegol ar Ysmygu ac Anweddu mewn mannau cyhoeddus.
- Gwella deddfwriaeth i atal defnyddio a gwerthu'r tanwyddau sy'n llygru fwyaf.
- Gwella deddfwriaeth i atal coelcerthi domestig a thân gwyllt.
- Mae llygredd plastig atmosfferig (gan gynnwys plastigion micro a nano) yn broblem y mae angen ei ystyried.

Gwella ansawdd aer i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth

- Mwy o ffocws ar lygryddion (N, NH₃ ac NO₂) o ffynonellau amaethyddol.
- Dylai rheoleiddio gweithgareddau amaethyddol gael ei integreiddio'n agos â mesurau i atal llygredd dŵr ac allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Adolygu'r rheolau ar losgi llystyfiant/rhostir dan reolaeth ac ystyried dulliau rheoli eraill.
- Mynd i'r afael â datgoedwigo a cholli mannau gwyrdd.

Gwella ansawdd aer i greu Cymru lewyrchus

- Dylid asesu pob diwydiant a datblygiad arfaethedig o ran sut y maent yn bodloni rhwymedigaethau ansawdd aer cyfreithiol.
- Dyletswyddau ar weithgynhyrchwyr i leihau mygdarthau niweidiol o ddeunydd pecynnu neu gynhyrchion.

Gwella ansawdd aer i gefnogi mannau cynaliadwy

- Gwerthusiad o'r effeithiau ar ansawdd aer o ddatblygiadau preswyl a diwydiannol. Dylai hyn gynnwys allyriadau o'r datblygiad, y seilwaith cysylltiedig a'r cyfraniadau posibl at ffurfio llygryddion eilaidd.

- Deddfwriaeth sy'n ymwneud â Pharthau Eithrio Ysgolion, gan adeiladu ar gynlluniau cadarnhaol sy'n cael eu cynnal ar sail wirfoddol.
- Mynd i'r afael â phroblemau lle mae polisi'r Llywodraeth neu'r Awdurdod Lleol yn creu mwy o lygredd. Er enghraifft, twmpathau ffordd, colli lonydd, newidiadau i amseru goleuadau traffig, ac ati.
- Cynyddu nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- Cyflwyno dulliau o leihau cost trafnidiaeth gyhoeddus o gymharu â defnyddio'r car.
- Rheolaethau llymach ar lygredd trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys tacsis a bysiau, cerbydau cludo a chludwyr, a'r cerbydau hyn yn segura;
- Diweddarau'r pwerau presennol i Awdurdodau Lleol ymdrin yn well â gorfodi rheolau allyriadau cerbydau a segura diangen.
- Adolygu teithiau awyr a'u heffaith ar ansawdd aer.
- Gwellu deddfwriaeth ar Barthau Aer Glân.
- Sicrhau bod y sector cyhoeddus a chyflogwyr mawr yn adrodd ar allyriadau sy'n deillio o gymudo a milltiroedd busnes y fflyd lwyd.
- Atal cydsyniadau cynllunio trawsffiniol neu ffiniau rheoliadol sy'n cynyddu llygredd mewn ardaloedd eraill.

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl adborth o'r cwestiwn hwn wrth i ni fwrw ymlaen â pholisi a deddfwriaeth yn y dyfodol i fynd i'r afael â llygredd aer. Byddwn yn sicrhau bod cynigion ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar Bapur Gwyn ar Ddeddf Aer Glân i Gymru a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2021.

Cwestiwn 12

Pa gamau deddfwriaethol neu reoliadol eraill mewn perthynas ag ansawdd aer y dylem eu hystyried i wella bywydau pobl a llesiant cymunedol mewn ffordd gynaliadwy?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 126 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 5 yn credu na ddylid ystyried unrhyw gamau gweithredu.

Amlygodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn lawer o syniadau ar gyfer gweithredu deddfwriaethol a rheoleiddiol yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer. Mae adborth wedi'i grynhoi yn unol â'r themâu yn y Cynllun.

Gwella ansawdd aer er mwyn diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol

- Galwyd ar Lywodraeth Cymru i fodloni canllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer PM2.5 erbyn 2030. Cafwyd ceisiadau hefyd am adolygu targedau ansawdd aer eraill, a'u diweddarau os oedd angen, o leiaf bob 5 mlynedd.
- Sicrhau bod y sector cyhoeddus a phreifat yn cymryd camau i leihau eu heffaith ar lygredd aer.
- Cryfhau'r cysylltiadau â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ac ehangu'r cyfyngiadau ar dybaco ac anweddu, dan do ac mewn mannau cyhoeddus.
- Dylid sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i gymryd lle rôl y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn sicrhau llywodraethu effeithiol.
- Deddfwriaeth newydd i Awdurdodau Lleol hwyluso gweithredu ymyriadau wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â thorri safonau ansawdd aer, bodloni targedau lleihau carbon a sicrhau bod tystiolaeth gadarn ar gael ac yn cael ei darparu i gefnogi mesurau o'r fath.
- Adolygu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a deddfwriaeth ansawdd aer arfaethedig i sicrhau eu bod yn gweithio mewn modd cydlynus a chynhyrchiol.
- Osgoi creu gormod o ddyletswyddau cyfreithiol i atal newidiadau sy'n "dod yn ymarfer ticio blychau yn hytrach na newid blaengar".
- Gwella deddfwriaeth i atal defnyddio a gwerthu'r tanwyddau sy'n llygru fwyaf.
- Gwella deddfwriaeth i alluogi rheoleiddwyr priodol i fynd i'r afael â mwg o ffermydd a lleoliadau domestig. Er enghraifft, mwy o bwerau mynediad, pwerau galw am wybodaeth a dirwyon cosb benodedig.
- Darparu cymhellion ar gyfer gosod llosgwyr pren, boeleri a phympiau gwres effeithlon a glân.

Gwella ansawdd aer i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth

- Diwygio'r Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt i ddisodli llosgi arferol yn raddol.
- Ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr blannu mwy o goed a gwrychoedd.

Gwella ansawdd aer i greu Cymru lewyrchus

- Dileu eithriadau i safonau allyriadau ar gyfer cerbydau oddi ar y ffordd a generaduron.
- Dylai cwmnïau mawr gyhoeddi eu data monitro ansawdd aer ar-lein, ar ffurf safonol, fel eu bod yn atebol i'r cyhoedd am yr allyriadau a ryddheir ganddynt i'r amgylchedd.
- Cynlluniau iawndal i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan lygrwyr diwydiannol.

Gwella ansawdd aer i gefnogi mannau cynaliadwy

- Darparu mwy o ardaloedd agored gwyrdd mewn ardaloedd adeiledig. Caniatáu parthau aer glân ar gyfer pob unigolyn mewn ardaloedd sy'n cael eu datblygu'n barhaus, er mwyn hyrwyddo llesiant.
- Sicrhau nad yw mannau chwarae ar gyfer plant ifanc ac ysgolion yn cael eu hadeiladu ger ffyrdd prysur.
- Dileu'r dreth ar geir a chynyddu'r dreth ar danwydd.
- Cyfyngu ar nifer y ceir sy'n eiddo i aelwydydd yng Nghymru neu gyflwyno treth ar aelwydydd sydd â nifer anghymesur o gerbydau.
- Gwaharddiad neu gyfyngiadau ar gerbydau sy'n segura.
- Rheoleiddio traffig busnes (cerbydau nwyddau) sy'n mynd trwy ardaloedd preswyl, gyda phwerau gorfodi ar gyfer rheoleiddwyr perthnasol.
- Rheoleiddio i ganiatáu i ddatblygiadau di-garbon fynd trwy'r gyfundrefn gynllunio yn haws. Bydd mynediad at drafnidiaeth a gwresogi di-garbon yn cael effaith fawr ar ansawdd aer hefyd.
- Atal caniatâd cynllunio sy'n cynyddu llygredd neu sy'n achosi problemau trawsffiniol. Er enghraifft, adeiladu tai ar lwybrau sydd eisoes yn llygredig ac yn dioddef tagfeydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru gael rheolaeth dros dreth tanwydd a threthi/ardollau eraill yn ymwneud â thrafnidiaeth fodurol.
- Mwy o ynni gwynt a haul trwy grantiau a newidiadau i reoliadau adeiladu.
- Deddfwriaeth sy'n dwyn datblygwyr ac adeiladwyr tai i gyfrif am ddatblygiadau os nad ydynt yn cydymffurfio â dyletswyddau amgylcheddol.
- Cefnogaeth a symbyliad ar gyfer newid i dechnolegau a systemau sy'n allyrru llai i gefnogi cludo nwyddau ar drenau neu fordeithiau byr i helpu i symud nwyddau trwy ddulliau ag allyriadau is.
- Diweddarau'r pwerau presennol i Awdurdodau Lleol ymdrin yn well â gorfodi rheolau allyriadau cerbydau a segura diangen.

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni fwrw ymlaen â pholisi a deddfwriaeth yn y dyfodol i fynd i'r afael â llygredd aer. Byddwn yn sicrhau bod cynigion ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth. Cynhelir ymgynghoriad pellach lle mae newidiadau i ddeddfwriaeth, neu ddeddfwriaeth newydd, yn cael eu datblygu.

Cwestiwn 13

Hyd yma, mae prosiectau gwyddor dinasyddion wedi canolbwyntio ar waith gyda phobl ifanc. A oes grwpiau oedran neu gymunedau eraill yr hoffech ein gweld ni'n gweithio gyda nhw?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 126 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 8 yn meddwl na ddylid gweithio gyda grwpiau oedran ychwanegol.

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion y dylid datblygu prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion ansawdd aer ar gyfer pob grŵp oedran. Nododd rhai ymatebwyr grwpiau oedran, cymunedau a sectorau penodol fel blaenoriaethau. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am brosiectau gwyddoniaeth dinasyddion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylid monitro'r prosiectau hyn i werthuso lefel y newid mewn ymddygiad ac effeithiau ar ansawdd aer.

Dyfyniadau dangosol

"Dylid gwneud hyn ar draws y boblogaeth, gan fod hwn yn fater sy'n effeithio ar bawb a gall llawer o bobl wneud newidiadau." **Dienw**

"Dylai'r strategaeth gyfathrebu ymgysylltu â phob elfen o gymdeithas, gan gynnwys y cyhoedd a chymunedau a chyda diwydiant. Yn wir, byddai ymgysylltu â diwydiant yn hwyluso cyflwyno neges gytbwys ar draws y grwpiau oedran." **MPA**

"Awgrymwn y dylai hyn gael ei fframio o amgylch cynulleidfaoedd a'r effaith y gall codi ymwybyddiaeth ei gael sy'n arwain at weithredu, newid ymddygiad a buddsoddi a thrwy hynny leihau llygredd yr atmosffer." **Plantlife Cymru**

"Mae parhau i weithio gyda phobl ifanc ac ysgolion yn bwysig iawn oherwydd nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phwysigrwydd deddfwriaethol gweithio gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, dylai'r gwaith gynnwys dinasyddion eraill hefyd, yn enwedig gan fod tanwyddau ffosil wedi bod yn norm ers blynnyddoedd lawer ac mae angen newid ymddygiad ar draws grwpiau oedran canol oed a hŷn. Yn ogystal, dylai cyfathrebu a gwaith pellach gynnwys y grwpiau hynny sy'n arbennig o agored i niwed (gyda chyflyrau iechyd cronig sy'n bodoli eisoes a allai gael eu gwaethygu gan ansawdd aer gwael a phoblogaethau sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig)." **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid i ehangu ac ymestyn y defnydd o brosiectau gwyddoniaeth dinasyddion sy'n canolbwyntio ar effeithiau ansawdd aer ar fywydau pawb. Byddwn yn defnyddio ac yn darparu adnoddau addysg a chyfathrebu sy'n helpu pawb i wneud newidiadau er mwyn lleihau eu heffaith ar lygredd aer. Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth gynllunio prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion.

Cwestiwn 14

Yn eich barn chi, pa grwpiau oedran fyddai'n elwa fwyaf ar well dealltwriaeth o ansawdd aer, llygryddion, tystiolaeth a dehongli, a datblygu ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb personol?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 122 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Credai 5 na fyddai unrhyw grŵp oedran yn elwa fwyaf.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn argymhell y dylai ymgysylltu ac addysgu ynghylch ansawdd aer ddigwydd ar draws pob amrediad oedran. Nododd rhai ymatebwyr grwpiau oedran, cymunedau a sectorau penodol fel blaenoriaethau.

Dyfyniadau dangosol

“Mae'r Cynllun Aer Glân yn rhoi pwyslais mawr ar gydweithredu gydag ysgolion i sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol wybodaeth am ansawdd aer a'i effaith niweidiol ar iechyd a'r amgylchedd. Fodd bynnag, bydd llygryddion aer gronynnol nid yn unig yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol os yw ansawdd yr aer yn parhau i ddirywio ond yn cael eu hanadlu'n ddyddiol ac yn achosi niwed i iechyd pob aelod o'r cyhoedd. Rhaid i bawb ddeall effeithiau negyddol llygredd aer, er mwyn helpu pobl i ddeall eu bod yn gallu cyfrannu at waethygu ansawdd yr aer, ond hefyd pam mae angen cymryd camau radical. Er gwaethaf pwysigrwydd addysgu'r cyhoedd yn gyffredinol am ansawdd aer a'u cyfrifoldebau personol, mae rhai cynulleidfaoedd yn fwy agored i lygryddion aer nag eraill; un o'r grwpiau hyn yw'r rhai sydd wedi cael diagnosis o glefyd y galon a chlefydau cylchrediad y gwaed. Mae BHF Cymru o'r farn y dylai'r rheini sydd â chyflwr y galon a'r system cylchrediad gwaed fod yn ymwybodol o'r risg gynyddol hon a chael eu cyfeirio at wefannau fel gwefan Ansawdd Aer Cymru, sy'n monitro ansawdd aer yn eu hardal leol. Os caiff y cynulleidfaoedd hyn eu hannog i wirio'r rhagolwg llygredd aer, gallent wneud trefniadau teithio amgen megis osgoi oriau brig a defnyddio strydoedd ochr tawelach. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ymarferol os nad yw monitro ansawdd aer gwell yn cael ei flaenoriaethu ar yr un pryd.” **Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru**

“Gorfodi oedolion sy'n prynu neu'n gwneud newidiadau i'w cartrefi, yn enwedig landlordiaid, i gynnal a chadw eiddo yn unol â'r safonau amgylcheddol uchaf.” **Dienw**

“Byddai gwybodaeth o fudd i bob grŵp o bobl, nid dim ond plant. Gallai gweithwyr gofal iechyd fel nyrsys a meddygon teulu fod yn hyddysg hefyd trwy weithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth i ddangos/addysgu cleifion am lygredd yn yr awyr a'r ffordd y gall hyn effeithio ar eu hiechyd. Gallant gyfeirio cleifion at wefannau sy'n nodi lefelau llygredd lle maent yn byw/yn ymweld ac ati, fel eu bod yn gallu cymryd rhagofalon rhesymol.” **Dienw**

“Pob oedran, ond mae rhai ifanc yn derbyn addysgu yn well. Ar ôl i chi wneud hynny am genhedlaeth, byddant yn addysgu eu plant eu hunain.” **Dienw**

“18+ oed. Mae angen i fwy o ymwybyddiaeth dargedu llygrwyr o bob oed yn uniongyrchol drwy'r cerbydau, y cynhyrchion a'r tanwydd maent yn eu prynu er mwyn gwireddu manteision iechyd defnyddio dewisiadau amgen. Byddai manwerthwyr tanwydd coed yn elwa o ddeall y risg o adael coed sych allan yn y glaw.” **Dienw**

“Pobl ifanc (fel grŵp sy'n arbennig o agored i lygredd aer) a'u gofalwyr. Mae'n arbennig o bwysig bod cyfranogwyr yn cael eu galluogi i gymryd camau i osgoi neu liniaru risgiau.” **Parciau Cenedlaethol Cymru**

“Rwy'n teimlo mai cenedlaethau hŷn fyddai'n elwa fwyaf o gael gwell dealltwriaeth o lygredd aer, gan eu galluogi i ddeall y newidiadau sy'n cael eu gwneud. Bydd hyn yn creu llai o wrthwynebiad i newidiadau fel terfynau cyflymder, cyfyngiadau gyrru a sut yr ydym ni fel unigolion yn cyfrannu at lygredd yn yr awyr. Drwy addysg ac amynedd, gellir sefydlu dealltwriaeth bersonol well. Drwy gynnwys pob cenedlaeth mewn addysg, nid ydym yn awgrymu bai ond gallem ddangos ac amlygu newidiadau bach y gall unigolion eu gwneud er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.” **Dienw**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu dull cyfathrebu sy'n gallu cyrraedd grwpiau ledled y gymdeithas yn effeithiol. Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth gynllunio deunydd cyfathrebu i sicrhau eu bod yn cael eu targedu'r gynulleidfa briodol.

Cwestiwn 15

A oes unrhyw ddulliau neu gyfleoedd eraill i ddatblygu gwell dealltwriaeth o faterion ansawdd aer y dylem eu harchwilio yn eich barn chi?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 100 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 10 yn meddwl na ddylid ystyried unrhyw ddulliau eraill.

Nododd nifer fawr o ymatebwyr y dylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu trwy wefannau a dysgu ar-lein rhyngweithiol i hyrwyddo camau gweithredu sydd eu hangen i leihau llygredd aer. Fodd bynnag, rhybuddiodd sawl un yn erbyn gorddibyniaeth ar ymgysylltu ar-lein gan y gellid methu rhannau sylweddol o'r gymuned trwy'r dull hwn.

Roedd ymgysylltu trwy'r cwricwlwm yn thema allweddol ynghyd ag ymgyrchoedd a mesurau gorfodi a fyddai'n annog cynllunwyr a datblygwyr i rannu ac ymgorffori arfer gorau wrth gynllunio prosiectau newydd.

Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys cydlynu diwrnodau 'di-gar' ledled Cymru, ymgyrchoedd taflenni a phosteri a nodiadau atgoffa i deilwra unrhyw negeseuon i'r gynulleidfa darged.

Dyfyniadau dangosol

“Monitro ym mhob maes, a darparu gwybodaeth i'r boblogaeth fel eu bod yn ymwybodol o sut mae eu gweithredoedd a'u ffordd o fyw yn effeithio ar bawb”
Dienw

“Gallai fod yn fuddiol cael ymgyrch wedi'i thargedu ar gyfer manwerthwyr offer gwresogi i sicrhau eu bod yn deall y risgiau er mwyn cyfathrebu'n effeithiol â'u cwsmeriaid a chynnig cyngor safonol ar ofal cwsmeriaid am ddefnyddio'r tanwydd cywir, sicrhau cynnal a chadw rheolaidd ac ati.” **Dienw**

“Ni ddylid diystyru pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol ac mae'n adnodd a ddylai gael ei annog yn frwd i hyrwyddo cynnwys priodol i'r cyhoedd.” **Cyngor Abertawe**

“Mwy o ffocws ar gydweithio gyda'r ystod eang o sefydliadau trydydd sector...”
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cydgysylltu negeseuon â phartneriaid i gyrraedd grwpiau perthnasol a chynulleidfaoedd targed yn y ffordd orau. Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth gynllunio deunyddiau cyfathrebu ansawdd aer.

A yw'r ffrydiau gwaith cyfathrebu arfaethedig yn rhoi ffocws addas ar gyfer gwaith cyfathrebu a newid ymddygiad mewn perthynas ag ansawdd aer?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 98 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 28 yn cytuno, 18 yn anghytuno a 52 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Amlygwyd pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol fel adnodd i'w annog yn frwd i hyrwyddo cynnwys priodol i'r cyhoedd. Rhybuddiodd rhai yn erbyn gorddibyniaeth ar ymgysylltu ar-lein ac awgrymwyd defnyddio dulliau cyfathrebu lluosog i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cyrraedd cynulleidfaoedd targed.

Crynhair sylwadau eraill a dderbyniwyd isod:

- Dylai gwybodaeth am ansawdd aer fod yn glir, yn rhyngweithiol ac yn hawdd ei darllen.
- Dylid edrych ar gyfleoedd i ymgysylltu wyneb yn wyneb â chymunedau lleol er mwyn nodi newidiadau bach sy'n bosibl iddynt eu gwneud i leihau'r risgiau o fewn eu dylanwad a chefnogi'r amgylchedd. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddamcaniaeth a gwyddoniaeth newid ymddygiad, gan weithio gyda strategaethau cyfathrebu priodol
- Mae gan grwpiau penodol o bobl lefel uchel o sensitifrwydd a bregusrwydd i lygredd aer. Gellir gwneud mwy i fynd ati i reoli risgiau i'r bobl hyn. Er enghraifft, cyfathrebu pan fydd diwrnod llygredd uchel yn yr arfaeth i ganiatáu osgoi ardaloedd ansawdd aer gwael, neu ddefnyddio meddygaeth ataliol.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio trwy sefydliadau fel y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, nid yw llawer o bobl yng Nghymru yn dod i gysylltiad rheolaidd â'r sefydliadau hyn a dylid ystyried cysylltiadau amgen i sicrhau bod negeseuon yn cyrraedd y derbynwyr arfaethedig.

Dyfyniadau dangosol

"Dylai unigolion/cymunedau/grwpiau gael cyfle i nodi newidiadau bach y gallant eu gwneud i leihau risgiau o fewn eu dylanwad a chefnogi'r amgylchedd. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddamcaniaeth a gwyddoniaeth newid ymddygiad, gan weithio gyda strategaethau cyfathrebu priodol. Bydd yn bwysig gwella'r adnoddau gwybodaeth sydd ar gael trwy'r wefan. Dylai'r rhain gynnwys posteri, taflenni ffeithiau, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, dolenni i adnoddau perthnasol eraill e.e. cyhoeddiadau gwyliadwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddai o ddiddordeb gwirio ansawdd aer mewn cymuned, gweithle ac ysgolion lleol e.e. sgriniau ar ochr y ffordd sy'n arddangos ansawdd aer. Gallai gwybodaeth (a phryder) lleol helpu i ysgogi gweithredu lleol." **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

“Ydyn, ond lle bo’n bosibl, dylai fod modd mesur effeithiolrwydd y camau gweithredu. Dylai’r ffocws fod ar rymuso pobl i wneud dewisiadau iachach ac nid dim ond tynnu sylw at y problemau.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

“Ydyn, mae’r tair ffrwd gyfathrebu yn darparu ffocws addas ar gyfer ansawdd aer. Rydym yn cefnogi’r defnydd o gyfathrebu digidol a ffisegol gan y byddai darparu gwybodaeth ar-lein yn unig yn anwybyddu’r problemau cysylltedd sy’n wynebu rhai pobl a bodolaeth rhaniad digidol yn y DU.” **Y Gymdeithas Ynni Cynaliadwy**

“Dylai’r wybodaeth fod yn syml. Dylai fod yn rhyngweithiol ac yn hawdd i’w darllen. Mae’n hanfodol nad yw’n ddigidol yn unig. Mae’n bosibl na fydd gan lawer o gymunedau tlawd (y bydd y rheoliadau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn effeithio ar lawer ohonynt) fynediad i’r rhyngrwyd. Bydd siarad mewn canolfannau cymunedol/tafarndai/eglwysi lleol yn creu cyfle i gysylltu â phobl leol a’u cadw’n hyddysg ac yn ymgysylltiedig.” **Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid i ddarparu gwybodaeth glir, gyfredol a seiliedig ar dystiolaeth am ansawdd aer i gefnogi gwell iechyd a llesiant. Rydym yn croesawu cefnogaeth i ddull sy’n defnyddio adnoddau digidol a ffisegol i sicrhau y gallwn gyrraedd pob rhan o’r gymdeithas. Byddwn yn ystyried pob ymateb i’r cwestiwn hwn wrth gynllunio gwaith cyfathrebu a newid ymddygiad.

A oes nodweddion yr hoffech eu gweld ar wefan Ansawdd Aer yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 96 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 7 nad oedd unrhyw nodweddion yr hoffent eu cael fel rhan o wefan Ansawdd Aer yng Nghymru.

Roedd ymatebwyr yn pryderu am faint, ansawdd a lefel y data ar ansawdd aer sydd ar gael ar y wefan. Derbyniwyd nifer sylweddol o sylwadau yn tynnu sylw at yr angen am ddata monitro amser real ar lefel leol, ynghyd â gwybodaeth i egluro beth mae'r data monitro yn ei olygu a sut mae'n berthnasol i iechyd y cyhoedd. Credwyd y byddai hyn yn sbardun allweddol ar gyfer newid ymddygiad i Awdurdodau Lleol, ymgynghorwyr, academyddion ac aelodau'r cyhoedd.

Crynoir sylwadau eraill a dderbyniwyd isod:

- Gellid darparu cyfleuster i ddefnyddwyr gofrestru gyda'r wefan i dderbyn rhybuddion trwy neges destun neu e-bost am gyfnodau o ansawdd aer cymedrol neu wael, gan eu galluogi i drefnu eu gweithgareddau awyr agored.
- Mae angen i'r dudalen we fod yn haws dod o hyd iddi trwy beiriannau chwilio.
- Dylai'r wefan gael ei hysbysebu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol, yn y gweithle ac mewn canolfannau gofal iechyd.
- Gellid symleiddio'r wefan a'i gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, gyda mynediad rhwydd at wybodaeth fanylach i'r rhai sydd angen hynny.
- Bydd yn bwysig gwella'r adnoddau gwybodaeth sydd ar gael trwy'r wefan. Dylent gynnwys posteri, taflenni ffeithiau, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw a chysylltiadau ag adnoddau perthnasol eraill.
- Dylai'r wefan gael ei chysylltu'n well â gwefannau iechyd cyhoeddus a gwefannau perthnasol eraill, er enghraifft, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Burn Right.
- Cynnwys ffilmiau wedi'u hanimeiddio ar yr hyn sy'n achosi allyriadau mewn gwahanol leoliadau a'r effeithiau cysylltiedig.

Dyfyniadau dangosol

"Fel rhan o'r broses ail-gynllunio, bydd angen ystyried swyddogaeth y wefan. Mae argaeledd setiau data cadarn ar gyfer awdurdodau lleol, ymgynghorwyr, academyddion ac aelodau'r cyhoedd yn bwysig, ynghyd â gwybodaeth i egluro beth mae'r data monitro yn ei olygu a sut mae'n berthnasol i iechyd y cyhoedd. Gellid cynnal trafodaethau gyda chyrrff eraill i gysylltu â'r nifer fawr o wefannau iechyd y cyhoedd a phecynnau cymorth/gwybodaeth sy'n gorgyffwrdd, er enghraifft, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Burn Right." **Cyngor Abertawe**

“OES: a. Data crai; b. Data llygredd aer amser real ar gyfer gwahanol ardaloedd, yn enwedig y mannau problemus. (Er enghraifft, dangos yr M4 ger TATA Steel yn ystod yr awr frys, yna amser cinio a min nos.); c. Data allyriadau hanesyddol i ddangos lle mae ymyriadau Llywodraeth Cymru wedi cael effaith. d. Swyddogaeth chwilio ‘sut mae’r aer yn fy ardal i’ syml iawn, gyda dangosyddion goleuadau traffig yn ôl llygrydd fel haen gyhoeddus gyntaf y safle, gan gynnwys esboniadau byr a syml o lefelau llygryddion a’u heffeithiau ar iechyd.” **Prifysgol Abertawe**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i’r cwestiwn hwn wrth adolygu a diweddarau gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru.

A oes ymgyrchoedd cyfathrebu a newid ymddygiad penodol y byddech yn eu cefnogi?
--

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 101 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 10 nad oedd unrhyw ymgyrchoedd penodol y byddent yn eu cefnogi.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at newid ymddygiad a'r angen i gyfathrebu gwmpasu dulliau lluosog yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar gyfathrebu electronig trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau.

Mae'r meysydd ffocws a'r ymgyrchoedd a awgrymwyd yn cynnwys:

- Mwy o ddigwyddiadau fel "Diwrnod Aer Glân". Gallai Cymru gael diwrnodau aer glân ar adegau eraill o'r flwyddyn hefyd. Er enghraifft, un yn y gaeaf sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o stofiau llosgi coed ac un yn y gwanwyn neu'r hydref sy'n targedu gweithgareddau ffermio i leihau allyriadau amonia
- Ymgyrch genedlaethol gyda'r nod o ddiffodd yr injan pan mae cerbydau'n llonydd.
- Mentrau i annog pobl i gerdded yn hytrach na gyrru pellteroedd byr (e.e. cerdded gyda'r plant i'r ysgol).
- Ymgyrchoedd cyfathrebu a newid ymddygiad yn ymwneud â rhoi'r gorau i ysmygu i gefnogi'r 68% o ysmygwyr sydd am roi'r gorau iddi, a thargedu'r rhai nad ydynt am wneud hynny gyda chynghor iechyd perthnasol ac anogaeth i ystyried rhoi'r gorau iddi.
- Annog defnyddio system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy. Er enghraifft, ystyried teithio llesol yn gyntaf gyda chysylltiadau priodol â chludiant cyhoeddus ar gyfer siwrneiau hirach. Yna defnyddio cerbydau allyriadau trydan/isel iawn os oes angen, wedi'u hategu gan seilwaith priodol i ateb y galw.
- Hysbyseb teledu ysgytwol sy'n debyg i'r ymgyrchoedd yfed a gyrru neu ymwybyddiaeth o garbon monocsid. Gall effaith weledol sut mae llygredd yn gallu niweidio iechyd a theuluoedd lywio camau gweithredu, yn enwedig pan fo'r risgiau'n anweledig yn aml.
- Ymgyrch benodol ar gyfer ffermwyr, tîrfeddianwyr a chontractwyr i'w hysbysu am effeithiau gollyngiadau amonia ac i annog newid mewn ymddygiad ynghyd â mesurau rheoleiddio a deddfwriaethol, cyngor fferm a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.
- Ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gyffredinol.

Un pwynt allweddol a wnaeth yr ymatebwyr oedd, wrth geisio dylanwadu ar newid mewn ymddygiad, bod angen buddsoddi mewn perswadio cyn canolbwyntio ar orfodi newid ymddygiad.

Dyfyniadau dangosol

“Y cyfryngau cymdeithasol. Dyma’r ffordd fwyaf effeithiol o dargedu’r boblogaeth sy’n debygol o ddefnyddio allyriadau yn hawdd, yn gyflym ac yn gryno. Yn ogystal, ystyried cynigion darlledu a chynnydd ar y teledu neu’r newyddion i dargedu’r ddemograffeg hŷn.” **Dienw**

“Gwneud gyrwyr yn ymwybodol bod addasu eu hymddygiad gyrru yn gallu lleihau llygredd aer yn sylweddol e.e. peidio â chyflymu ac yna gorfod brecio’n sydyn ar ôl i arwydd ffordd ddangos y gall fod angen i’r cerbyd ddod i stop – cylchfan, cynllun tawelu traffig, ymuno â ffordd arall. Gellid cyflwyno hyn fel cyfle i arbed arian yn ogystal â’r blaned gan y byddai gyrwyr yn defnyddio llai o danwydd a byddai angen newid eu brecio yn llai aml.” **Roger Davies**

“Atal gyrwyr bysiau a choetsis sy’n aros ger ysgolion a meysydd pêl-droed gyda pheiriannau diesel yn rhedeg. Byddai arwyddion yn helpu. Yn yr arosfan tacsï ger gorsaf Casnewydd, mae gyrwyr yn aros gyda pheiriannau eu ceir yn rhedeg. Gellir aroglï’r llygredd.” **Dienw**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad hwn wrth gynllunio ymgyrchoedd cyfathrebu a newid ymddygiad yn y dyfodol.

Cwestiwn 19

A oes grwpiau oedran neu gymunedau a allai gyfrannu at ddatblygu prosiectau gwyddor dinasyddion?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 90 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn argymhell y dylai pob grŵp oedran gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion ynglŷn ag ansawdd aer. Gwnaed cynigion i ddefnyddio'r grwpiau a'r strwythurau presennol ar gyfer prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion, yn hytrach na chreu rhywbeth newydd. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at grwpiau oedran neu sectorau cymunedol penodol fel blaenoriaethau.

Thema gyffredin i nifer o ymatebion oedd awydd i weld camau'n cael eu cymryd ar lefel leol. Gofynnodd yr ymatebwyr i gynllun prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion gwmpasu manteision i gymunedau a mwy o gyswllt rhwng gwahanol grwpiau oedran.

Dyfyniadau dangosol

"Pobl leol o bob oedran gyda'r un gwerthoedd yn gweithio gyda'i gilydd yn eu pentrefi gydag un hyrwyddwr o bob pentref i fynychu cyfarfodydd grŵp ehangach i rannu syniadau a dod yn ôl i'w cymunedau lleol." **Wendy Pugh**

"Gall grwpiau sy'n bodoli eisoes megis Senedd Ieuenctid Cymru a Llysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn ddylanwadrwyd allweddol a chyrraedd amrediad eang o oeddrannau, nid dim ond yr ieuenctid. • Mae'r model 'Cynulladau Dinasyddion' yn un teilwng iawn i'w ystyried, ac mae un yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2020 ar newid yn yr hinsawdd trwy Lywodraeth y DU. • Dylai cyfathrebu ac addysg bontio'r cenedlaethau a dylent gyrraedd y cymunedau mwyaf diarffordd a difreintiedig." **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

"Mae cynnwys llygredd aer yn y cwricwlwm yng Nghymru yn gam da iawn gan y bydd yn helpu i hybu ymwybyddiaeth ymhlith ein pobl ifanc a gobeithio, ymhlith eu teuluoedd." **Plaid Lafur Etholaeth Ynys Môn**

"Dylid targedu pob grŵp. Byddai'n wych gweld ffocws ar gymunedau BAME." **Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed wrth i ni ddatblygu prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer.

Pa grwpiau oedran fyddai'n elwa fwyaf ar ddatblygu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chyfrifoldeb personol o ran ansawdd aer a llygryddion?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 107 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Thema gyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd y dylid canolbwyntio gwybodaeth ar unigolion sy'n gwneud penderfyniadau o fewn sefydliadau a busnesau. Byddai hyn yn golygu llawer mwy o effaith trwy wneud penderfyniadau 'corfforaethol', yn hytrach na dim ond targedu'r un unigolion yn eu swyddogaeth breifat.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i gynnwys pob grŵp oedran. Dywedodd rhai ymatebwyr fod gwahanol grwpiau oedran neu sectorau yn flaenoriaethau.

Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr gais i gamau gweithredu fod wedi'u targedu a bod yn gymesur.

Dyfyniadau dangosol

"Pob un ohonynt. Gellid dadlau mai'r henoed a'r ifanc iawn yw'r rhai mwyaf agored i niwed, ond yr anoddaf i'w cyrraedd. Efallai y gallai rhieni sy'n gofalu am blant a'u rhieni oedrannus elwa fwyaf gan y gallant ddylanwadu ar yr ifanc a'r hen iawn." **Dienw**

"Mae'n bwysig bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael gwybodaeth am ansawdd aer a llygryddion er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o sut y gallant gael effaith trwy wneud y dewis i deithio'n gynaliadwy lle bo hynny'n bosibl, ond hefyd sut y gall eu hiechyd gael ei beryglu gan lygredd yn yr aer. Serch hynny, mae'n bwysig pwysleisio nad yw ansawdd aer yn fater sy'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol yn unig ond yn hytrach yn effeithio ar bob unigolyn heddiw. Yn hyn o beth, mae'n hanfodol nad yw datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth bersonol o ansawdd aer yn gyfyngedig i rai grwpiau oedran a'i fod yn hygyrch i bawb." **Sefydliad Prydeinig y Galon**

"Rydym yn argymhell y dylai'r ffocws ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chyfrifoldeb ganolbwyntio ar ystod o ffactorau demograffig megis grwpiau oedran, rhyw neu nodweddion unigol eraill. Gellid gwneud hyn yn fwy effeithiol trwy wneud ymchwil briodol i'r ffactorau demograffig-gymdeithasol, agweddau a chyfnod bywyd sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau gwahanol o newid i ymddygiadau dymunol. Credwn y byddai canfod y cyfuniad o'r priodoleddau hyn yn golygu y gellid nodi grwpiau wedi'u targedu a fyddai naill ai'n elwa fwyaf o ymyriadau ymddygiadol, neu y byddai eu gweithredoedd yn cael yr effaith fwyaf ar leihau llygredd aer." **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion a wnaed i'r cwestiwn hwn wrth lunio cynlluniau ymgysylltu a chyfathrebu ar ansawdd aer yn y dyfodol.

Cwestiwn 21

A oes dulliau neu gyfleoedd ychwanegol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o faterion ansawdd aer y dylid eu harchwilio?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 93 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 8 yn credu na ddylid ystyried unrhyw ddulliau ychwanegol.

Nododd llawer o ymatebion y dylid rhoi mwy o ffocws ar ddulliau academaidd neu addysgiadol ar gyfer datblygu dealltwriaeth o faterion ansawdd aer.

Amlygwyd pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol fel adnodd i'w annog yn frwd i hyrwyddo cynnwys priodol i'r cyhoedd. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion yn cymeradwyo gwell defnydd o gyfryngau ehangach i hyrwyddo negeseuon ansawdd aer trwy ymgrychoedd a rhaglenni teledu adnabyddus, fel Dr Who.

Derbyniwyd adborth yn argymhell sefydliadau a fyddai yn y sefyllfa orau i hysbysu unigolion a chymunedau am effeithiau llygredd aer. Er enghraifft, meddygfeydd, modurdai a gorsafoedd gwasanaeth ceir/MOT.

Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng camau gweithredu sydd â'r nod o leihau cyfraniadau unigol neu gyfunol i gynnydd mewn llygredd aer a chamau gweithredu a oedd yn gofyn am ymateb i lefelau uchel o lygredd aer. Gwnaed argymhelliad i sefydlu tîm arbenigol o wyddonwyr ymddygiadol er mwyn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael, eu monitro'n drylwyr a'u defnyddio'n effeithiol i'r eithaf.

Derbyniwyd ceisiadau i ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth wyddonol gadarn i sicrhau cyfathrebu diduedd sy'n osgoi codi bwganod a pheri dychryn ynghylch y mater pwysig ond cymhleth iawn hwn.

Roedd rhywfaint o feirniadaeth fod y cwestiwn hwn yn ymddangos yn debyg i gwestiynau a atebwyd yn flaenorol.

Dyfyniadau dangosol

“Gallai gweithio gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol dargedu cynulleidfau ehangach. Mae llawer o weithwyr proffesiynol sy'n rhyngweithio â'r gymuned o ddydd i ddydd yn ymwneud â'u hiechyd a'u llesiant, a chyda'r wybodaeth a'r adnoddau cywir, mae'n bosibl y byddant yn gallu annog newid mewn ymddygiad. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn ymwneud ag ansawdd aer o ddydd i ddydd yn ymwybodol o'u heffaith bosibl.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

“Rwyf wedi dweud y cyfan uchod. Cynyddu ymwybyddiaeth ar bob lefel, ym mhobman. A glanhau'r aer. Mesur a monitro mwy.” **Dienw**

“Ymgyrch yn cael ei harwain gan ffigwr amlwg fel David Attenborough neu ateb Cymru iddo, Iolo Williams.” **Dienw**

“Dylai radio a theledu lleol gael y wybodaeth i dynnu sylw at broblemau llygredd yn eu hardal leol.” **Dienw**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad hwn wrth gynllunio dulliau ymgysylltu a chynlluniau cyfathrebu yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd aer.

A yw'r ymrwymadau a'r camau gweithredu arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifir yn yr adran iechyd a llesiant yn y Cynllun?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 93 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 52 yn cytuno, 21 yn anghytuno a 20 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid cymryd camau o dan adran iechyd a llesiant y Cynllun, ond gan ychwanegu cafeatau at eu hymateb. Yn fras, y rhain oedd:

- Ceisiadau i fwrw ymlaen â'r cynllun yn gyflym.
- Awgrymiadau ar sut y gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid eraill.
- Cyfeiriadau at faterion lleol sy'n effeithio ar eu bywydau, yr oeddent wedi gobeithio y byddai unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn mynd i'r afael â hwy.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno wedi'u rhannu rhwng anghytundebau ar egwyddor. Er enghraifft, roedd rhai o'r farn nad oedd llygredd aer yn broblem ac roedd eraill o'r farn nad oedd y cynllun yn mynd yn ddigon pell neu nad oedd yn mynd i'r afael â materion penodol.

Dyfyniadau dangosol

“Ar y cyfan, ydyn. Fodd bynnag, un rhyng-gysylltiad hanfodol nad yw'n cael ei gwmpasu yw datgarboneiddio. Mae gan hyn y potensial i sicrhau manteision sylweddol iawn i ansawdd aer.” **Dr Chris Hazell-Marshall**

“Yn rhannol, ac yn araf iawn. Yn ddiweddar, mae San Steffan wedi dwyn ymlaen y dyddiad ar gyfer gwahardd gwerthu ceir newydd gyda pheiriannau piston, a hefyd ar gyfer gwerthu glo a phren gwlyb. Yn y cyfamser, mae Bae Caerdydd yn trafod a ddylai ystyried cyfyngiadau ar rai tanwyddau sy'n llygru mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru hyd yn oed yn bwriadu lleihau PM_{2.5} i lefelau diogel ym mhobman, gan ddefnyddio'r cymal diddymu “lle bo modd” i osgoi mynd i'r afael ag unrhyw broblemau anodd.”
Dienw

“Mae ASH Cymru yn argymhell targedu pobl ifanc, ysmygwyr beichiog ac oedolion sy'n ysmygu sydd â phlant, grwpiau a fyddai'n elwa fwyaf o ddatblygu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chyfrifoldeb personol o ran ansawdd aer a llygryddion o dybaco ac ysmygu.” **ASH Cymru**

“Nid oes sôn penodol am wyrddio dinasoedd a allai arwain at leihad mewn llygredd aer a dylanwad llawer mwy cadarnhaol ar iechyd a llesiant ehangach ac ansawdd bywyd poblogaethau e.e. trwy fwy o gyfleoedd ar gyfer

gweithgarwch corfforol, mynediad at wasanaethau ac ati. Dylid ystyried hyn ymhellach.” **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu a chyflwyno camau gweithredu o dan adran iechyd a llesiant y Cynllun.

A ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu yn helpu i leihau effaith llygredd aer ar iechyd a llesiant yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 111 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 57 yn cytuno, 21 yn anghytuno a 33 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gamau i helpu i leihau effaith llygredd aer ar iechyd a llesiant yng Nghymru. Roedd nifer o'r rhai a oedd yn anghytuno o'r farn nad oedd y Cynllun yn mynd yn ddigon pell. Mynegwyd rhai materion yn ymwneud â diffyg hyder y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno camau gweithredu arfaethedig yn y cynllun. Amlygwyd pryderon hefyd ynghylch capasiti o ran adnoddau i gyflawni cynigion.

Dyfyniadau dangosol

“Nid ar eu pen eu hunain, mae angen mwy o ddatblygu ar y seilwaith, yn ogystal ag ymrwymiad i weithio gyda diwydiant i ddatgarboneiddio mewn ffordd realistig sy'n niwtral o ran cost.” **Dienw**

“Rwy'n cytuno y bydd yn helpu i sicrhau bod mwy o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r mater a, gobeithio, yn eu helpu i wneud dewisiadau mwy hyddysg, ond rwy'n teimlo eu bod wedi'u cyfyngu yn y cyswllt hwn oherwydd yr hyn sydd ar gael iddynt.” **Dienw**

“Gan gymryd bod y camau gweithredu yn cael eu cefnogi gan gyllid priodol (e.e. i awdurdodau lleol), yna ydw. Yr her allweddol fydd gwireddu dyheadau a sicrhau effeithiau yn y byd go iawn.” **Dienw**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni camau gweithredu yn fersiwn derfynol y Cynllun Aer Glân i Gymru. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws ystod eang o sectorau i ddatblygu a chyflwyno polisiau a deddfwriaeth newydd i wella ansawdd aer.

Bydd camau gweithredu yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ystyried argaeledd a dulliau rheoli adnoddau.

A ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu yn helpu i leihau effaith llygredd aer ar iechyd a llesiant yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 93 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 7 nad oeddent am gynnig unrhyw ymrwymiadau na chymau ychwanegol.

Darparodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o syniadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Codwyd dyfodol y ddarpariaeth drafnidiaeth yn aml, gyda sawl cyfeiriad at deithio amgen ac awgrymiadau am ffyrdd o leihau allyriadau'r fflyd drafnidiaeth bresennol. Er enghraifft, mesurau gwrthsegura neu leihau tagfeydd mewn ardaloedd adeiledig.

Cyfeiriwyd hefyd at losgi domestig (defnyddio llosgwyr pren, pyllau tân awyr agored neu goelcerthi mewn ardaloedd trefol) mewn sawl ymateb.

Cawsom lawer o adborth yn argymhell dull cydgysylltiedig o ymdrin â strategaethau cynllunio a thrafnidiaeth gyda mwy o gysylltiad ag iechyd ac addysg i'r cyhoedd. Un thema allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion oedd bod angen gweithredu i fynd i'r afael â llygredd aer o ddiwydiant.

Roedd cefnogaeth i'r egwyddor o fwy o gydweithio rhwng asiantaethau allweddol fel y sector iechyd, Awdurdodau Lleol, y byd academiaidd, y trydydd sector a grwpiau eiriolaeth lleol. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch lefel y buddsoddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill i gefnogi gwelliannau o ran ansawdd aer.

Dyfyniadau dangosol

"...Bydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac annog camau gweithredu cadarnhaol yn galw am ddeunyddiau cyfathrebu wedi'u targedu. Er enghraifft, mae llygredd aer o draffig yn effeithio ar lawer o gymunedau lleol ac, yn benodol, y niwsans a'r effeithiau niweidiol ar iechyd yn sgil yr arfer gwrthgymdeithasol o beiriannau'n segura. Er mwyn brwydro yn erbyn yr arfer hwn, bydd angen cyfuniad o negeseuon cenedlaethol ac ymgyrchoedd lleol sy'n targedu unigolion fel trigolion cymunedau, ond hefyd fel modurwyr ac aelodau o gymunedau ysgol. Mae gweithgareddau ynghlwm wrth y cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y daith i'r ysgol ac annog teithio llesol ehangach yn bwysig." **RTPI**

"Rydym yn cynnig y dylid cynnal adolygiad cyfnodol ar fynychder sy'n briodol i'r bil er mwyn sicrhau mai dim ond y camau sy'n effeithiol sy'n cael eu dilyn. Byddem yn croesawu safbwynt cyffredin ar sut rydym yn rheoli – yn enwedig trwy brosesau cynllunio a thrwyddedu – allyriadau llygryddion nad ydynt yn rhai trothwy." **Cyfoeth Naturiol Cymru**

“Mae integreiddio fframwaith newydd gyda pholisïau presennol yn rhan bwysig o’r broses. Ceir cysylltiadau â Pholisi Cynllunio Cymru, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sydd ar y gweill, Deddf yr Amgylchedd 2016 ac ati. Mae hwn yn gyfle i sicrhau bod rheoli ansawdd aer yn cael ei integreiddio o fewn yr enghreifftiau niferus o orgyffwrdd sy’n bodoli. Gall weithio ar draws cylch gwaith ehangach iechyd y cyhoedd i ddarparu atebion effeithiol. Mae’n bwysig bod awdurdodau lleol yn cael yr adnoddau i allu cyflawni’r ymyriadau newydd sy’n cael eu cynnig.” **Cyngor Abertawe**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl awgrymiadau a sylwadau a gafwyd mewn perthynas â’r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu a chyflawni camau gweithredu yn y Cynllun Aer Glân i Gymru.

Pa fathau o atebion seiliedig ar natur y gellid eu hyrwyddo i helpu i leihau cysylltiad pobl â llygredd aer?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 114 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 2 yn meddwl na ellid hyrwyddo unrhyw atebion sy'n seiliedig ar natur.

Gofynnodd nifer fawr o ymatebwyr am blannu coed ychwanegol a diogelu mannau gwyrdd. Cydnabuwyd mai dim ond rhan o'r ateb yw plannu ac awgrymwyd y bydd angen datblygu cynlluniau eraill ar y cyd â'r gwaith hwn gan gynnwys:

- Adfywio dyfrffyrdd a gwlyptiroedd.
- Canolbwyntio ar goed llydanddail brodorol yn hytrach na choedwigaeth pinwydd.
- Adfer gwrychoedd.
- Diogelu cymunedau rhag datblygu anghynaliadwy.

Roedd llawer yn galw am gynlluniau teithio llesol haws i ddefnyddwyr eu defnyddio a gwell cynllunio trefol. Cawsom rai sylwadau rhybuddiol, gan ddweud y gallai lleoli coed a gwrychoedd ar hyd ffyrdd arwain at ansawdd aer gwaeth oherwydd crynodiad llygredd. Awgrymwyd y gallai plannu blodau gwyllt neu blanhigion sy'n tyfu'n isel gefnogi gwelliannau i ansawdd yr aer a manteision ehangach o ran bioamrywiaeth.

Dyfyniad dangosol

“Mae'r rhai a awgrymir yn y cynllun yn edrych yn dda. Byddai plannu coed a gwrychoedd mewn ffordd ddeallus yn arbennig o werthfawr. Mae mannau gwyrdd a chysiau dŵr glân mewn ardaloedd trefol yn helpu i wella ansawdd yr aer (ond mae angen eu cadw'n lân ac ni ddylid caniatáu i fannau gwyrdd droi'n doiledau cŵn neu'n domennydd sbwriel). Dylai datblygiadau adeiladu gael eu cynllunio i annog symudiad aer trwy'r adeiladau, yn hytrach na chaethiwo aer neu lygredd mewn pocedi, fel y gall unrhyw lygredd aer wasgaru.” **Dienw**

“Mae angen cydnabod llygredd fel rhan o'r broses o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'i ystyried yn llawn fel rhan o'r prosesau dylunio a chynllunio ar lefel strategol a lleol. Mae angen i hyn gael ei ystyried yn ehangach na choed, o gofio, er enghraifft, rôl werthfawr dŵr a chorsydd ucheldir ac ati. Mae cymwysiadau fel iTree yn meintioli effeithiau amgylcheddol coed, gan gynnwys amsugno llygredd a gellid eu hyrwyddo'n ehangach.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

“Mae adfer safleoedd mwynau yn gynyddol yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni manteision sy'n seiliedig ar natur. Mae'r gofynion ar gyfer rheoli a chynnal a chadw trwy gynlluniau ôl-ofal cytunedig yn sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn cyflawni dros y tymor hir. Yn yr amgylchedd trefol, anaml y caiff

cynlluniau tirlunio eu monitro ac ni chânt eu gorfodi'n ddigonol gan awdurdodau cynllunio lleol. Felly, mewn ardaloedd sy'n aml yn gysylltiedig â lefelau traffig uwch, nid yw cyfraniad posibl atebion ar sail natur yn cyrraedd yr hyn y gellid ei gyflawni." **MPA Cymru**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r awgrymiadau ar gyfer atebion seiliedig ar natur er mwyn lleihau llygredd aer. Defnyddir yr adborth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno polisiau a deddfwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r gorchudd coetir yng Nghymru 2,000 hectar y flwyddyn o 2020 ymlaen, gan godi i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted â phosibl. Adlewyrchir hyn yn strategaeth Coetiroedd i Gymru, sy'n egluro polisi coedwigaeth Cymru ar gyfer y 50 mlynedd nesaf, yn ogystal â dogfen Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel. Byddant yn darparu casgliad o wasanaethau ecosystem megis coed, cynefinoedd bioamrywiaeth, amwynderau a chysgod, yn ogystal â dal a storio carbon, yn dibynnu ar eu hamcanion.

Sut gallwn ni gyflymu'r gwaith o adfer ein bioamrywiaeth a'n hecosystemau ochr yn ochr â lleihau allyriadau?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 106 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Derbyniwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Rhoddwyd ffocws cyffredinol ar reoli tir yn well gyda mwy o gefnogaeth i raglenni datblygu bioamrywiaeth.

Roedd llawer o ymatebwyr eisiau mwy o blannu blodau gwyllt mewn ardaloedd fel ymylon ffyrdd a thir diwydiannol segur i gefnogi gwenyn a pheillwyr eraill, adar, a bywyd gwyllt ehangach.

Roedd cynllunio a rheoleiddio datblygiad yn thema allweddol, gyda chaniatâd cynllunio ôl-weithredol a thrwyddedu diwydiannol yn cael eu beirniadu.

Cafwyd awgrymiadau ynghylch defnyddio dulliau cynhyrchu pŵer amgen ar gyfer cartrefi a busnesau, ynghyd â dewisiadau teithio mwy cynaliadwy o ddatblygiadau sy'n bodoli eisoes.

Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y byddai rheoli gwlyptiroedd a dyfrffyrdd a chael gwared â mannau parcio oddi ar y stryd o erddi trefol yn helpu i adfer ein bioamrywiaeth a'n hecosystemau ynghyd â lleihau allyriadau. Mewn rhai achosion, cysylltwyd hyn â llifogydd difrifol a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Dyfyniadau dangosol

“Bydd lleihau allyriadau yn cyfrannu at leihau llygredd a thrwy hynny wella'r amgylchedd lleol a darparu gwell amodau ar gyfer hybu bioamrywiaeth yn unol â'r disgwyliadau a roddir ar awdurdodau lleol yn adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Ynghyd â dilyn agenda wyrddio ac annog datblygu coridorau gwyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, bydd hyn yn cyflwyno amodau cynefin newydd a ddylai gynyddu bioamrywiaeth.” **Cyngor Sir Ynys Môn**

“Rhoi'r gorau i ddefnyddio gwrteithiau cemegol. Rhoi'r gorau i dorri coed a chwalu ecosystemau sefydledig i adeiladu ffyrdd, rheilffyrdd a thai. Atal pobl rhag gwaredu sbwriel a gwastraff gwenwynig yng nghefn gwlad.” **Dienw**

“Mae adnoddau i weithredu Cynllun Adfer Natur Cymru, trwy ymdrech bioamrywiaeth Cymru gyfan a'r partneriaid adfer natur lleol, gan gynnwys staff yr ardal forol warchodedig, yn hanfodol. Rydym yn croesawu cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyffredinol (cynigiodd Parciau Cenedlaethol Cymru sylwadau ar yr ymgynghoriad ar y pryd). Rhaid ystyried dyfodol yr ucheldiroedd a rheolwyr tir yr ucheldir yn enwedig ar ôl Brexit, o ystyried yr

effeithiau a ragwelir ar ffermio defaid a'r posibiliadau i wella bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem mewn ardaloedd mynyddig tra'n darparu cyfleoedd incwm amgen i reolwyr tir. Hoffem dynnu sylw at rôl cynefinoedd morol o ran dal a storio carbon (e.e. dolydd morwellt, fforestydd lludwymon)." **Parciau Cenedlaethol Cymru**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu polisiau a deddfwriaeth ar sail tystiolaeth yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau o ran bioamrywiaeth, ecosystemau ac ansawdd aer.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi plannu o'r newydd yn unol ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Safon Coedwigaeth y DU. Dyma safon y Llywodraeth ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, er mwyn sicrhau bod y plannu'n briodol ar gyfer y safle.

Pa weithgareddau y gallwn ni eu pwysleisio yn ein cynllun twf amgylcheddol i helpu i fynd i'r afael â llygredd aer a'i effaith ar ecosystemau yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 100 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 2 yn credu na ellid pwysleisio unrhyw weithgareddau.

Roedd cynrychiolaeth dda o sylwadau ynghylch cludiant, plannu coed ac annog ffyrdd mwy gweithgar o fyw. Roedd nifer o ymatebwyr yn trafod annog pobl i droi at gerbydau trydan a rheoli'r seilwaith gwyrdd yn well er mwyn annog newid.

Cawsom adborth yn annog rheoli tir yn gynaliadwy a newidiadau i'r ffordd rydym yn ffermio ac yn cynhyrchu ynni yng Nghymru. Rhoddwyd cefnogaeth i nifer o'r cynlluniau a amlinellir yn y Cynllun. Fodd bynnag, awgrymwyd y byddai ymgynghori pellach â'r gymuned wledig yn gwella hyn ymhellach.

Cafwyd rhywfaint o feirniadaeth gan nifer o ymatebwyr fod y cwestiwn yn debyg i gwestiynau blaenorol ac y byddai'n ennyn yr un ymateb.

Dyfyniadau dangosol

"Reidio beic. Mae hyn yn cael ei ddiystyru'n aml, gan fod peryglon beicio yn gorbwyso'r budd, yn enwedig i blant. Mae angen creu llwybrau beicio oddi ar y prif ffyrdd, neu lonydd beicio ar bob ffordd, er mwyn ei wneud yn ffordd fwy diogel o deithio." **Dienw**

"Rydym yn croesawu nifer y grantiau y mae'r cynllun yn nodi a fydd ar gael i'r diwydiant amaethyddol er mwyn gwella a datblygu eu busnes er mwyn lleihau allyriadau. Drwy wobrwyo ffermwyr i gyflawni canlyniadau rheoli tir cynaliadwy nad yw'r farchnad yn eu gwobrwyo, gall ffermwyr gymryd camau cadarnhaol i leihau eu hól troed carbon a gweithredu i fynd i'r afael â lefelau uchel o amonia yng Nghymru." **Awyr Iach Cymru**

"Rydym yn cefnogi'r cysyniadau o stopio, tyfu a newid mewn Cynllun Twf Amgylcheddol. Fodd bynnag, dylai cynllun gynnwys mesurau i gefnogi newid. Mae terfyn ar allu annog ethos o 'wneud y peth iawn' heb ddarparu dulliau amgen. Er enghraifft, ni ellir annog y cyhoedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus os yw'n anghymesur o ddrud, yn rhedeg ar amserlen gyfyngedig a/neu os nad yw'n hygyrch o leoliad y cartref. Ni fyddai ymdrech i gyfnewid ceir petrol am geir trydan yn llwyddiannus os nad oes seilwaith ategol o ran pwyntiau gwefru mynych a hygyrch. Mae angen rhagor o waith ymchwil i effeithiau ansawdd aer er mwyn gwella ein dealltwriaeth o effeithiau ecolegol a'r mesurau posibl y gellid eu cyflawni i liniaru effeithiau, gan ddarparu canlyniadau pendant a mesuradwy. Yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau parhaus ar Safleoedd Natura sy'n deillio o lygredd aer a/neu gyfoethogi cyrsiau dŵr gyda maetholion. Yn y pen draw, ymddengys mai prin yw'r

ddealltwriaeth o natur a graddfa'r effeithiau a all ddilyn, sut y gellir mesur effeithiau o'r fath a sut y gellir eu lliniaru. Dylid cynnwys hyn yn y Cynllun Twf Amgylcheddol." **Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol**

"Gall cynyddu gorchudd coetir a chynyddu'r diwydiant coedwigaeth gyfrannu at gynyddu stociau o ynni cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy lleol. Mae gan fiomas ardystiedig grynhoed isel o ddeunydd gronynnol ac mae ganddo gyfraniad i'w wneud o ran gwella diogelwch ynni a bioamrywiaeth Cymru." **Y Gymdeithas Ynni Cynaliadwy**

"Mae angen mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd y Cynllun Twf Amgylcheddol yn gweithio law yn llaw â'r cynlluniau presennol. Cefnogwn yn gryf y gweithgareddau canlynol: • Ymrwymiad i barhau i fonitro ac adrodd ar ansawdd aer yn ogystal â mynediad agored parhaus i ddata ansawdd aer trwy wefan Ansawdd Aer yng Nghymru. • Ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i leihau lefelau amonia yn gyflym i dargedau cytunedig. Mae gostyngiadau brys mewn allyriadau amonia yn arbennig o bwysig o ran adfer natur a dylent ystyried cost aruthrol adfer cynefinoedd yn y dyfodol os na chymerir camau digonol nawr. • Rhoi strategaeth glir ar waith ar gyfer ymdrin â diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod y broses fonitro. • Diwygio deddfwriaeth gynllunio ar frys i ystyried effeithiau cronol ffynonellau llygredd lluosog." **Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

"Capio a rheoli ffermydd diwydiannol, glanhau'r cyrsiau dŵr, plannu mwy o goed mewn ffordd reoledig, diogelu coetiroedd hynafol a diogelu waliau cerrig a gwrychoedd." **Wendy Pugh**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer twf amgylcheddol yng Nghymru. Bydd polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol i helpu i fynd i'r afael â llygredd aer a'i effaith ar ecosystemau yn seiliedig ar dystiolaeth.

A yw'r ymrwymïadau a'r camau gweithredu arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifir yn adran amgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth y Cynllun?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 93 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 39 yn cytuno, 19 yn anghytuno a 35 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Yn fras, teimlwyd bod y Cynllun yn mynd i'r afael â'r problemau. Lle'r oedd ymatebwyr yn anghytuno, roedd cyfran dda ohonynt yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn teimlo y dylai'r Cynllun fynd ymhellach.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebion bwyntiau am yr angen am newid mewn gweithrediadau amaethyddol i wella ansawdd aer. Roedd cytundeb cyffredinol fod dyddodiad amonia (NH_3) mewn ardaloedd gwledig yn bryder ac mae angen gwneud mwy o waith yn ei gylch. Awgrymwyd nad yw'r trefniadau presennol i annog gwell rheolaeth ar NH_3 gwledig yn darparu'r canlyniadau y gobeithiwyd amdanynt. Hefyd, cafwyd rhybudd ynghylch cyflwyno amaethyddiaeth fel unig ffynhonnell ansawdd aer gwael ledled Cymru.

Hefyd, mynegwyd yr angen am fwy o dystiolaeth wyddonol, ymchwil a mesur ansawdd aer ynghyd â galwad am fwy o weithredu i wella bioamrywiaeth ac effeithiau llosgi biomas ar yr amgylchedd.

Dyfyniadau dangosol

"Mae'n ymddangos yn ddechrau addawol. Os yw'n dechrau adfywiad, gorau oll..." **Dienw**

"Na, dydyn nhw ddim yn ddigon – mae angen mwy o fuddsoddiad i sicrhau ymrwymiad ar y cyd â'r gyllideb Teithio Llesol o £60 y pen y flwyddyn"
Ymgyrch Seiclo 'Bargen Prifddinas-Ranbarth' Caerdydd

"Man cychwyn da ond bydd angen eu gwerthuso a'u herio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben." **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

"Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar effeithiau llygryddion nitrogen ar yr amgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth, yn enwedig mewn perthynas â mynd y tu hwnt i lwythi critigol Confensiwn LRTAP y Cenhedloedd Unedig ar gyfer ewtroffigedd ac asideiddio. Mae llygryddion eraill yn effeithio ar Gymru hefyd ac mae angen eu cynnwys. Er enghraifft, yn 2015, rhagwelwyd y byddai lefelau stomataidd sy'n seiliedig ar ddefnydd ar gyfer osôn (sy'n fwy biolegol berthnasol na'r rhai sy'n seiliedig ar grynodiad) yn uwch na'r lefelau critigol mewn 17% a 40% o'r mannau tyfu gwenith a thatws, yn y drefn honno, yng Nghymru, gyda'r potensial o leihau'r

cynnyrch (Mills et al., 2017, Scoping Study for NECD Reporting for Effects of Ozone on Vegetation in the UK. Astudiaeth a ariannwyd gan DEFRA).” **Plaid Lafur Etholaeth Ynys Môn**

“Does dim sôn am losgi dan reolaeth wrth ystyried y cyfraniad amaethyddol i PM_{2.5}. Mae llosgi dan reolaeth yn cael ei gynnwys ar gam gyda hylosgi domestig, ac mae angen ei nodi a’i reoleiddio ar wahân.” **Stove Industry Alliance**

“Dyma’r adran yr wyf yn anghytuno fwyaf â hi. Fel y trafodwyd eisoes, caiff amaethyddiaeth y bai yn annheg fel arfer am y rhan fwyaf o ollyngiadau nwyon tŷ gwydr, ac yng nghyd-destun llygredd yn yr aer, am y rhan fwyaf o ollyngiadau amonia. Mae’r camau a amlinellir i fynd i’r afael â hyn yn union yr un fath â’r rhai a gafodd eu cynnig gan Lywodraeth Cymru i leihau halogiad dyfrffyrdd (Cynllun Rheoli Maetholion) ac felly mae Is-grŵp Llygredd Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi mynd i’r afael â’r mater yn helaeth. Nid oes sôn am hyn, ac yn anhygoel, argymhellir sefydlu grŵp i fynd i’r afael â phob digwyddiad sy’n ymwneud â llygredd amaethyddol, pan fo grŵp o’r fath yn bodoli eisoes.” **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i’r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu polisïau a deddfwriaeth ansawdd aer seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a’n bioamrywiaeth. Mae’n rhaid i goetiroedd newydd fodloni Safon Coedwigaeth y DU ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Wrth wneud hynny, caiff eu heffeithiau hirdymor eu hystyried.

Cwestiwn 29

A ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu'n helpu i leihau effaith llygredd aer ar yr amgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 99 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 48 yn cytuno, 22 yn anghytuno a 29 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer yn mynegi cefnogaeth neu'n cynnig awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu ychwanegol ar lefel leol neu genedlaethol. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu na fyddai'r ymrwymadau'n cael eu hategu gan gamau gweithredu na chymorth ariannol digonol i alluogi eu cyflawni.

Dyfyniadau dangosol

"Rydym yn cytuno y bydd y camau yr ymdrinnir â hwy yn yr ymgynghoriad hwn yn helpu i leihau effeithiau llygredd aer. Fodd bynnag, dylid rhoi rhagor o fanylion am bwy fydd yn gyfrifol yn y pen draw am weithredu, a'r cyllid, yr adnoddau a'r hyfforddiant angenrheidiol... Dim ond gyda monitro a llywodraethu effeithiol y bydd y camau hyn yn effeithiol, felly mae angen corff craffu amgylcheddol annibynnol newydd gyda phwerau gorfodaeth i lenwi rôl y Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw'n glir chwaith yw a fydd camau gweithredu a mesurau o'r fath yn rhoi ystyriaeth ddigonol i dwf y boblogaeth ledled Cymru. Bydd cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at fwy o ddatblygu gyda thraffig, mwy o wastraff a mwy o lygredd." **Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol**

"Nid yw'n ymddangos bod y camau gweithredu'n hyrwyddo nac yn cefnogi camau ymarferol/gweithredu a fyddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau effaith llygredd aer, felly nid yw'n glir sut y byddant yn gwneud unrhyw beth gwirioneddol wahanol neu'n bodloni bwriadau'r cynllun. Fel y crybwyllir uchod, mae llawer o fesurau eraill fel adfer mawndiroedd a chamau gweithredu seilwaith gwyrdd a fyddai'n lleihau effaith llygredd aer ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at adfer natur yng Nghymru. Byddem yn dymuno gweld mwy o gefnogaeth i weithredu cadarnhaol ac ymarferol o'r fath." **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

"Bydd y camau gweithredu arfaethedig yn helpu gyda'r amcan hwn, ond maent yn annigonol ac nid ydynt yn adlewyrchu natur frys y bygythiad. Mae angen camau gweithredu mwy pendant, wedi'u targedu a'u hariannu'n dda i fynd i'r afael â'r broblem hon yn briodol." **Plantlife Cymru**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu camau gweithredu i leihau effaith llygredd aer ar yr amgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth. Rydym wedi nodi bod angen i'r Cynllun terfynol ddiffinio'n well sut y byddwn yn sicrhau newid effeithiol.

Pa ymrwymïadau neu gamau gweithredu ychwanegol fydddech chi'n eu cynnig i leihau effaith llygredd aer ar yr amgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 89 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 12 nad oeddent am gynnig unrhyw ymrwymïadau neu gamau ychwanegol.

Cafwyd ystod eang iawn o ymatebion i'r cwestiwn agored hwn, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer:

- Cyflogi mwy o swyddogion iechyd yr amgylchedd i orfodi'r rheoliadau presennol.
- Cynnwys opsiynau teithio cynaliadwy fel seilwaith teithio llesol.
- Mwy o fuddsoddi i ddatblygu cerbydau nwyddau trwm trydan a gwell trafnidiaeth gyhoeddus.
- Mwy o fuddsoddi mewn ynni gwynt, ynni dŵr ac ynni solar.
- Cysylltu ag ysgolion a chreu parthau yn eu meysydd chwarae/caeau i dyfu planhigion neu blannu blodau gwyllt.
- Gwell defnydd o'r seilwaith gwyrdd a phlannu coed, gyda chynllunio sy'n ystyried newidiadau tymor hir gan y bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i effaith cynlluniau ddod yn amlwg.
- Ymchwilio i gyfleoedd i dyfu algâu morol.
- Rheoli mawndiroedd a morfeydd heli yn well, yn ogystal â choetiroedd i ddal a storio carbon/methan.
- Annog mwy o arferion ffermio 'dim trin tir' a ffermio llai dwys a darparu cymorth i gynhyrchu bwyd yn lleol er mwyn lleihau milltiroedd bwyd ac allyriadau cysylltiedig.
- Pwysleisio pwysigrwydd cynyddu'r Seilwaith Gwyrdd yn yr amgylchedd adeiledig ac o'i gwmpas, gan gynnwys effeithiau llesol planhigion dan do ar iechyd corfforol a meddyliol.
- Cymell pob perchennog tir i blannu coed priodol mewn mannau priodol i ddal a storio carbon ac amsugno llygryddion.

Dyfyniadau dangosol

"Mae angen mwy o fonitro i gynhyrchu mwy o ddata ar sawl agwedd, gan gynnwys ansawdd dŵr naturiol, dyfrhau ac ansawdd pridd – gall ansawdd aer neu ffactorau tebyg/yr un fath gyfrannu at y rhain i gyd." **Prifysgol Abertawe**

"Mae Fforwm Ansawdd Aer Cymru yn croesawu'r adran ar Fioamrywiaeth ac yn cytuno'n fras â'r cynigion a geir ynddi." **Fforwm Ansawdd Aer Cymru**

"Weithiau mae ffyrdd o fudd i ansawdd yr aer – mae'r M4 bresennol yn ardal Casnewydd yn gwbl annigonol. Dylid adeiladu'r M4 newydd." **Chris Penn**

“Annog pobl i gerdded a beicio. Llai o lygredd o draffig. Gorfodi Awdurdodau Lleol i ddarparu lonydd beicio diogel, h.y. lonydd ar wahân, fel rhan o ddatblygiadau newydd.” **Canolfan Feddygol St Julians**

“Adfer pob mawn dwfn (>50cm) a systemau gweithredol cysylltiedig yng Nghymru, gan ganolbwyntio’n arbennig ar adfer mawndiroedd dan goed a mawndiroedd deheuol yn gyntaf tra bod yr hinsawdd yn dal yn addas. Cefnogi ymchwil i fflwcs carbon ac allyriadau o’r corsydd mawn cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith adfer i lywio arferion gorau o ran adfer. Cefnogi’r broses o ddatblygu prosiectau seilwaith gwyrdd arloesol, gan gynnwys ôl-osod mewn ardaloedd lle ceir lefelau uchel o lygredd aer. Mewn perthynas â safleoedd dynodedig, efallai y bydd angen ystyried newid dulliau mewn perthynas â sut y caiff asesiadau eu cynnal er mwyn sicrhau nad yw baich llygryddion yn parhau i gynyddu mewn cynyddrannau bach. Nid oes unrhyw ganllawiau penodol ar gael mewn perthynas â sut mae lefelau llygredd aer o ddatblygiadau newydd yn cael eu hasesu ar gyfer safleoedd dynodedig anstatudol. Nid oes unrhyw ofynion penodol ar gael ar hyn o bryd o ran ystyried pryd mae lefel yn annerbyniol fel pren mesur ar gyfer dyfarniadau cydsyniad. Byddai arweiniad pellach ar yr agwedd hon yn ddefnyddiol os oes disgwyl i’r effaith ar fioamrywiaeth gael ei datrys trwy’r cynllun hwn.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi’r syniadau a’r pryderon a godwyd, a bydd yn adolygu’r camau gweithredu yn y Cynllun yn unol â hynny lle bo modd.

Cwestiwn 31

Ar ba sectorau, prosesau neu ardaloedd y dylem ganolbwyntio ein camau gweithredu i leihau cysylltiad y cyhoedd â llygredd aer o allyriadau diwydiannol?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 106 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion yn cynnig enghreifftiau o broblemau llygredd mawr. Er enghraifft, gwaith dur TATA ym Mhort Talbot a Kronospan yn y Waun.

Cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer cynhyrchu pŵer a symud tuag at ynni adnewyddadwy gan nifer o ymatebwyr. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau am foeleri biomas, y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig a'r angen am astudiaeth ychwanegol i'w heffeithiau ar ansawdd yr aer.

Tynnwyd sylw at losgyddion ac amlosgfeydd fel meysydd sy'n peri pryder, yn ogystal â'r defnydd cynyddol o siopa ar-lein a chludo nwyddau â 'fan wen' yn hytrach nag unigolion yn teithio i siopau lleol gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu fesurau teithio llesol.

Dyfyniadau dangosol

“Llosgi gwastraff, yn enwedig gweithfeydd llosgi masnachol. Ni ddylent fod yn agos at ardaloedd poblog” **Nicola Hughes**

“Mae llosgyddion biomas, generaduron diesel brig a llosgyddion troi gwastraff yn ynni yn peri pryder. Cynhyrchu a defnyddio pŵer a thrafnidiaeth gyhoeddus. Os yw'r sectorau hyn mor lân ac effeithlon â phosibl, byddai'n gosod esiampl glir o'r hyn sy'n bosibl.” **Cyngor Dinas Casnewydd**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pryderon a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Byddwn yn defnyddio'r adborth i adeiladu ar ymchwil a thystiolaeth sy'n bodoli eisoes a gomisiynwyd yn 2019 i ddatblygu pecyn mwy penodol o fesurau diwydiannol ar gyfer Cymru. Yn y lle cyntaf, rydym yn debygol o ganolbwyntio ar y diwydiannau sy'n llygru fwyaf. Ynghyd â hyn, byddwn yn ceisio tystiolaeth i ddatblygu polisi ar hylosgi tanwyddau ar gyfer pŵer. Bydd hyn yn cyfrannu at leihau allyriadau yn y sector cynhyrchu pŵer.

Rydym yn cydnabod yr ymatebion a oedd yn tynnu sylw at faterion ehangach o ran y datgysylltiad ymddangosiadol rhwng y cyfundrefnau Cynllunio a Thrwyddedu Diwydiannol presennol. Byddwn yn adolygu'r mater hwn ac yn ceisio nodi gwelliannau a/neu atebion yn y dyfodol.

A ddylem ystyried unrhyw newidiadau deddfwriaethol penodol er mwyn mynd i'r afael ag allyriadau diwydiannol i'r aer?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 87 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 yn credu na ddylid ystyried unrhyw newidiadau penodol i deddfwriaeth.

Mae cyrff cyhoeddus yn mynegi pryderon ynghylch defnyddio'r Technegau Gorau sydd ar Gael i leihau llygredd a cheisiadau am reolaethau neu reoliadau ar weithfeydd hylosgi yn yr amrediad 500kW i 1Mw. Yn yr un modd, tynnodd sefydliadau amaethyddol sylw at weithfeydd hylosgi, ond gan ystyried y byddai'n gymesur eithrio'r rhai ar ffermydd. Codwyd y mater o weithfeydd peiriannau symudol nad ydynt ar ffyrdd gan fod diffyg rheolaethau swm ac allyriadau ar y cerbydau hyn yn hynodrwydd cyfreithiol.

Cafwyd galw am wneud llygrwyr yn fwy uniongyrchol atebol am eu hallyriadau ac i ddarparu ar gyfer mwy o bwerau gorfodi i Awdurdodau Lleol. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr ynghylch cyfyngiadau. Teimlwyd y dylent fod yn gymesur ac na ddylent achosi anfantais i economi Cymru.

Dyfyniadau dangosol

“Rydym yn cytuno â'r cynnig i gynnal y drefn reoleiddio bresennol ar gyfer atal a rheoli llygredd diwydiant integredig. Rydym yn cefnogi datblygiad a defnydd parhaus o'r Technegau Gorau sydd ar Gael ar gyfer rheoli llygredd hefyd, sy'n ganolog i'r drefn honno. Yn ogystal, credwn y dylid ystyried yr achos dros reolaethau rheoliadol newydd ar weithfeydd hylosgi yn yr amrediad mewnbwn thermol 500kW i 1MW.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

“Bydd ymestyn dyletswydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i bob corff cyhoeddus yng Nghymru yn helpu i sicrhau bod diwydiant newydd yn cael ei gynllunio a'i leoli yn y lle priodol er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Yn y dyfodol gellid ystyried datblygu cyfundrefn reoleiddio ddiwydiannol benodol i Gymru hefyd sydd â tharged sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag ar safle, a fyddai'n galluogi buddsoddiad gan ddiwydiant i sicrhau'r budd amgylcheddol gorau.” **Cyfoeth Naturiol Cymru**

“Byddai o fudd i Awdurdod Lleol pe bai'n ofynnol i fusnesau masnachol gofrestru eu gweithgaredd a reoleiddir hyd yn oed os yw i gael esemptiad am nad yw'n bodloni'r trothwyon. Byddai hyn yn caniatáu cyfleoedd i ddarparu canllawiau a chynghor ar arfer da, e.e. defnyddio tanwyddau, defnyddio toddyddion” **Dienw**

“Cyflwyno deddfwriaeth newydd ond gwneud hynny trwy geisio helpu'r rheini a fydd yn gorfod gwneud newidiadau yn y lle cyntaf” **Dienw**

“Mae Tata yn torri safonau ansawdd aer Trwyddedau Amgylcheddol yn aml. A oes angen i chi newid deddfwriaeth neu ddarparu'r adnoddau i roi'r ddeddfwriaeth bresennol ar waith? Mae arolygwyr Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyrraedd pen eu tennyn. Neu yn achos Tata, a yw materion economaidd a gwleidyddol yn bwysicach i'r Llywodraeth nag ansawdd aer?” **Dienw**

Ymateb

Bydd polisïau, camau gweithredu a rheoliadau Llywodraeth Cymru yn parhau i gael eu llywio gan dystiolaeth wyddonol a chan gyfeirio at y Technegau Gorau sydd ar Gael, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Byddwn yn ystyried yr amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn wrth ddatblygu ein rhaglen waith ehangach mewn perthynas â llygredd diwydiannol. Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau ac unigolion perthnasol sydd wedi mynegi pwyntiau defnyddiol, a byddwn yn ystyried yr angen am newid deddfwriaethol pellach fel rhan o'r broses honno.

Cwestiwn 33

A oes camau neu fesurau penodol y gallwn eu cymryd i annog buddsoddiad gan ddiwydiant er mwyn lleihau llygredd aer?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 83 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Canolbwyntiodd nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn ar gymhellion ariannol i fusnesau gymryd camau gwrthlygredd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cymell newid fflyd cerbydau i gerbydau trydan neu hybrid.
- Cymhellion treth i wella a buddsoddi mewn mesurau gwrthlygredd neu ddefnyddio ynni adnewyddadwy.
- Trethi masnachu carbon neu drethi llygredd eraill i gymell newid.

Roedd gorfodi llymach o ran y ddeddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth y dyfodol yn thema allweddol, ynghyd â gofynion ychwanegol ar ddiwydiant i fonitro a chyhoeddi eu data llygredd.

Argymhellodd rhai ymatebwyr y dylid trydaneiddio rheilffyrdd a cherbydau fflyd, cael mwy o wasanaethau cludo nwyddau ar y rheilffyrdd a chynlluniau sgrapio cerbydau.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at amaethyddiaeth, gyda cheisiadau am gymorth a buddsoddiad ychwanegol i ledaenu arferion gorau ac annog rheoli gwastraff yn well.

Dyfyniadau dangosol

“Mae synergeddau rhwng defnyddio ynni a llygredd aer yn ogystal â mentrau datgarboneiddio. Gellid annog y diwydiant i ddefnyddio ynni yn y modd mwyaf effeithlon posibl a gwneud y defnydd gorau o ynni gwyrdd er mwyn lleihau eu heffaith gyffredinol ar ansawdd yr aer. Dylai'r drefn gynllunio ystyried cydleoli diwydiannau symbiotig posibl er mwyn gwneud yn fawr o'r potensial i ynni a nwy gwastraff o safle penodol gael ei ddefnyddio gan un arall.” **Cyfoeth Naturiol Cymru**

“Bydd adolygiad o'r nodiadau cyfarwyddyd ar y broses, y technegau lleihau a'r cyfyngiadau ar allyriadau yn cael effaith ar y broses o wneud penderfyniadau a gyflawnir gan weithredwyr wrth ystyried penderfyniadau prynu. Yn aml, nid yw gweithredwyr yn dymuno gwario mwy o arian nag sy'n gwbl angenrheidiol ar gyfarpar fel lleihau nad yw'n ychwanegu at broffidioldeb y busnes. Mae angen i fuddsoddiad gael cymhelliant ariannol i annog busnesau i wneud newidiadau. Mae elw o ddiddordeb i'r rhan fwyaf o gwmnïau, ac os nad yw arloesi'n cynnig budd ariannol, mae'n annhebygol o ddigwydd.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

“Lleihau treth – er enghraifft, y lefelau treth yn cael eu priodoli i lefelau allyriadau” **Dienw**

“Cymorthdaliadau i ddiwydiant i symud at ynni adnewyddadwy. Nid wyf yn cytuno â dirwyon – roedd fy nghyflogwr yn asesu cael paneli solar ar gyfer busnes sy’n cyflogi 800+ o bobl ar y safle a phenderfynodd nad oedd yr adenillion ar fuddsoddiad yn ddigon derbyniol.” **Dienw**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi’r syniadau a’r pryderon a fynegwyd ac maent yn cael eu hystyried wrth inni ddatblygu polisiau a deddfwriaeth i fynd i’r afael â llygredd aer.

Cwestiwn 34

A oes unrhyw ddulliau newydd neu sy'n datblygu ar gyfer lleihau allyriadau i aer o ddiwydiant y dylem eu hystyried yn eich tyb chi?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 61 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Cyflwynwyd nifer o syniadau diddorol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Parhau i adolygu'r Technegau Gorau Sydd ar Gael er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol.
- Trin gwastraff amgen gan gynnwys nwyeddio neu gynhyrchu biodanwyddau.
- Newid i gefnogi technoleg Hydrogen mewn cerbydau gyda chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Dal a storio carbon deuocsid i weithgynhyrchu calchfaen;
- Ynni'r llanw.
- Annog gweithio gartref neu mewn canolfannau swyddfa lleol.
- Cysylltu safle storio batri â chynhyrchu trydan adnewyddadwy i leihau'r angen am eneraduron wrthgefn ar adeg llwyth brig.
- Cefnogi Ymchwil a Datblygu yng Nghymru ar dechnolegau amgylcheddol.

Dyfyniadau dangosol

“Annog gweithio gartref neu ganolfannau lloeren lleol” **Nicola Hughes**

“Mae llawer o dechnegau sefydledig y gellir eu huwchraddio i raddfa ddiwydiannol ar yr amod bod y polisi a'r fframwaith rheoleiddio yn glir. Byddem yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i:

- ddefnyddio hydrogen fel tanwydd
- defnyddio nwyon gwastraff diwydiannol fel porthiant i gynhyrchu polymerau hydrocarbon
- dal a storio carbon deuocsid i gynhyrchu calchfaen.

“Mae llawer o dechnegau sefydledig y gellir eu huwchraddio i raddfa ddiwydiannol ar yr amod bod y polisi a'r fframwaith rheoleiddio yn glir.” **Liftshare Ltd**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r syniadau a roddwyd gan ymatebwyr ac maent yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu polisiau a deddfwriaeth i fynd i'r afael â llygredd aer.

Cwestiwn 35

A ydych chi'n credu y dylid trin generaduron a ddefnyddir ar gyfer ymchwil a datblygu yn wahanol o ran rheolaethau allyriadau?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 83 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 14 yn cytuno, 46 yn anghytuno a 23 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Cyflwynwyd amrywiaeth eang o atebion i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod ymchwil a datblygu yn hanfodol. Fodd bynnag, ni ddylid ei ddefnyddio fel esgus dros ryddhau allyriadau gormodol, yn enwedig y tu hwnt i'r lefelau arferol a ganiateir.

Cyrff sector cyhoeddus a chyrff proffesiynol ar y cyfan a awgrymodd y dylai rheolaethau ar allyriadau ar gyfer ymchwil a datblygu naill ai gael eu hadolygu'r un pryd i gyd neu eu hystyried fesul achos. Roedd unigolion yn fwy o'r farn y dylai cynhyrchwyr ymchwil a datblygu fod yn ddarostyngedig i'r un lefel o reolaethau ag eraill.

Dyfyniadau dangosol

"Gall hyd yn oed ffynonellau bach o allyriadau gael effaith andwyol ar ansawdd yr aer yn y cyffiniau. Mae angen canolbwyntio ar ddylunio pwyntiau allyriadau'n briodol, a darparu Arfer Diwydiannol Da ar gyfer dylunio simneiau." **Dr Chris Hazell-Marshall**

"Mae Cymdeithas y Diwydiannau Cemegol yn cefnogi trin generaduron a ddefnyddir at ddibenion ymchwil a datblygu yn unol â'r Gyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig i hyrwyddo yn hytrach na llesteirio gweithgareddau ymchwil a datblygu." **Peter Walters**

"Mae Cyngor Sir Fynwy yn cytuno y dylid adolygu'r sefyllfa reoleiddio bresennol mewn perthynas â rheolaethau ar allyriadau ar gyfer generaduron a ddefnyddir at ddibenion ymchwil a datblygu." **Cyngor Sir Fynwy**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r syniadau a fynegwyd gan ymatebwyr a bydd yn eu hystyried wrth i'r Cynllun gael ei gwblhau.

A yw'r ymrwymïadau a'r camau gweithredu arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifiwyd yn adran Cymru Lewyrchus y Cynllun?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 89 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 38 yn cytuno, 20 yn anghytuno a 31 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Cafwyd cymysgedd eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai'r mesurau fynd i'r afael â'r materion pe baent yn cael eu cyflawni'n effeithlon.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellid gwneud mwy o waith i edrych ar y cysylltiadau rhwng rheoli gwastraff a llygredd aer.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi sylw priodol i gyflymder y newid y gellir ei wneud mewn diwydiant, heb orfodi cwmnïau allan o Gymru. Gofynnodd ymatebwyr o Awdurdodau Lleol i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus a rhannu manylion y strwythurau a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen cyn gweithredu newidiadau i sicrhau manteision.

Roedd ymatebion unigol yn cynnwys amrywiaeth eang o awgrymiadau. Roedd rhai yn teimlo bod y mesurau'n mynd yn rhy bell ac yn sicr o yrru busnesau o Gymru ac eraill am weld mesurau pellach ac yn teimlo nad oedd y camau gweithredu'n mynd yn ddigon pell.

Dyfyniadau dangosol

"Rydym yn awgrymu dileu cyfeiriadau at dwf economaidd (e.e. tudalen 28), gan eu disodli gyda chyfeiriadau at gynaliadwyedd, ffyniant a thegwch (neu welliant mewn cynhyrchiant lle y bo'n berthnasol) yn unol â'r egwyddor o economi gylchol a'r gyfres o nodau llesiant." **Parciau Cenedlaethol Cymru**

"Teimlaf fod yr adran hon yn ddiffygiol o gymharu â rhannau eraill o'r cynllun. Byddai amlinelliadau mwy helaeth yn creu cynllun cadarnach wrth weithio tuag at y dyfodol, nid yn unig yn dilyn canllawiau'r UE ond gan weithredu a datblygu strategaeth i Gymru." **Dienw**

"Mae rheoli gwastraff yn llac iawn. Mae'n amlwg nad yw Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr UE yn addas i'r diben; er enghraifft, caiff plastigau "wedi'u hailgylchu" eu dympio mewn gwledydd sy'n datblygu, ac ychydig iawn o gosbau sydd i domennydd gwastraff sy'n mynd ar dân yn "ddamweiniol" neu ddympio gwastraff yn anghyfreithlon ar raddfa fasnachol. Dylai ailgylchu gwastraff gael ei gyflawni yn y wlad lle tarddodd y gwastraff. Os nad yw ailgylchu deunyddiau fflamadwy yn economaidd bosibl, yna dylai eu llosgi ar gyfer gwres a phŵer cyfunol fod yn ofynnol. Mae honni bod

rhywbeth yn cael ei ailgylchu pan mae'n cael ei anfon dramor am gost fawr yn anonest.” **Dienw**

“Mae angen sicrhau bod technolegau glanach yn cael eu defnyddio lle bo'n briodol a bod diwydiant yn cael ei annog i newid lle bo angen, ynghyd â chefnogaeth y sector cyhoeddus.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

“Ydyn, mae'r Cyngor yn cytuno â'r ymrwymadau arfaethedig a amlinellir yn y Cynllun drafft. Fodd bynnag, byddai rhagor o fanylion am y camau arfaethedig i sicrhau newid yn y cerbydau casglu gwastraff i redeg ar drydan/hydrogen yn cael eu croesawu. Nid yw'n glir sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso/darparu adnoddau i gyflawni'r newid hwn ac felly byddai rhagor o wybodaeth/eglurhad ar gynigion o'r fath yn cael ei groesawu.” **Cyngor Caerdydd**

Ymateb

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi pwysleisio pryder eang ynghylch llygredd a gynhyrchir gan amrywiaeth o sectorau ac wedi amlygu'r effaith bosibl ar ffyniant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol os nad yw'r mesurau'n gymesur. Mae'r angen i leihau llygredd aer oherwydd yr effaith ar iechyd yn hollbwysig. Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn ac yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiwygio'r adran hon o'r Cynllun Aer Glân.

Cwestiwn 37

A ddylid cyfeirio at faterion ansawdd aer yng nghylch gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 103 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 72 yn cytuno, 10 yn anghytuno a 21 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn o blaid gosod ansawdd aer o fewn cylch gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Holodd nifer o ymatebwyr pam nad oedd hyn wedi digwydd eisoes.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai hyn yn rhoi gormod o bŵer i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i newid targedau ansawdd aer, neu 'gelu' methiannau mewn prosiectau seilwaith. Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at bryderon cyffredinol ynghylch ychwanegu haenau o fiwrocratiaeth ychwanegol.

Dyfyniadau dangosol

“Dylid. Wrth gynghori ar anghenion seilwaith y dyfodol, mae'n rhaid i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ystyried nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn barod. Os nad yw'n ofynnol i ystyried effeithiau seilwaith yn y dyfodol ar ansawdd aer, bydd hyn yn hepgoriad difrifol ac yn gyfyngiad ar y cyngor a roddir gan y Comisiwn.” **Cyswllt Amgylchedd Cymru**

“Oherwydd y gall penderfyniadau cynllunio a buddsoddi mewn perthynas â darpariaeth seilwaith gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ansawdd aer, mae'n hanfodol cyfeirio at ansawdd aer o fewn cylch gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.” **RTPI**

“Yn sicr, dylai Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru gael rhyw fath o gyfeiriad at faterion yn ymwneud ag ansawdd aer yn ei gylch gwaith. Mae cludiant a seilwaith yn rhan hanfodol o'r ateb i faterion ansawdd aer, o ran darparu mathau glanach o drafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau'r newid moddol hanfodol sydd ei angen er mwyn i bobl ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae natur gydgysylltiedig polisïau a gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu teithio mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes yn rhaid iddynt ddefnyddio ceir yn mynd i fod yn hanfodol i lwyddo i gael ansawdd aer gwell.” **Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r holl sylwadau a ddarparwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a byddant yn cael eu hystyried wrth ystyried cylch gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

A oes materion ansawdd aer eraill yn ymwneud â thrafnidiaeth y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried neu eu hadolygu?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 118 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Cafwyd nifer fawr o awgrymiadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn sydd wedi'u crynhoi isod:

- Archwilio cynigion ar gyfer defnyddio bysiau trydan yng nghanol dinasoedd ac ehangu o'r pwynt hwnnw.
- Cynyddu'r defnydd o fysiau ysgol i helpu i leihau'r defnydd o geir ar siwrneiau i ac o ysgolion.
- Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r syniad o Symudedd fel Gwasanaeth fel cam arloesol allweddol sy'n ofynnol i gyflawni'r nodau a amlinellir yn y Cynllun.
- Gallai rhentu ceir a gwasanaethau clwb ceir gyflymu'r newid tuag at symudedd fel gwasanaeth.
- Mae angen gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus glanach, mwy dibynadwy a mwy uniongyrchol i leihau teithio mewn ceir. Dylai'r gwasanaethau hyn ystyried anghenion penodol cymunedau gwledig a threfol.
- Mae angen system drafndiaeth gyhoeddus effeithiol a chydgyssylltiedig ar y cyd â rhwydwaith ffyrdd lle gall beicwyr deimlo'n ddiogel 100% o'r amser.
- Ehangu'r rheilffyrdd, trydaneiddio a chynyddu'r defnydd o'r rheilffyrdd ar gyfer cludo nwyddau yn hytrach na chludo nwyddau ar y ffyrdd. Mwy o fuddsoddi mewn rhwydweithiau rheilffyrdd lleol a'r cyswllt rheilffordd rhwng y de a'r gogledd.
- Mwy o bwyslais ar rannu ceir a gwell gwasanaethau parcio a theithio i leihau'r defnydd o geir gan berson unigol.
- Mwy o ddiwrnodau di-gar.
- Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i rôl teithio llesol y tu allan i ardaloedd trefol ac ar isffyrdd heb balmentydd.
- Cynyddu pwyntiau gwefru cerbydau trydan, trosi fflydoedd trafndiaeth gyhoeddus Llywodraeth/Awdurdod Lleol i gerbydau trydan neu hybrid ac adolygu'r gofynion ar gyfer tacsis.
- Archwilio rôl micro-symudedd a cherbydau llai yn ogystal â rhannu ceir.
- Bod yn realistig ynghylch daearyddiaeth a phoblogaeth wasgaredig Cymru a chydabod nad yw'r un polisi'n addas i bawb y tu allan i'r dinasoedd mawr.

Dyfyniadau dangosol

“Rydym yn croesawu’r cynigion ar drafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a newid moddol. Mae cerbydau allyriadau isel (e.e. cerbydau trydan) yn lleihau allyriadau wrth iddynt gael eu defnyddio ond maent yn creu baich ychwanegol ar gynhyrchu trydan (tanwyddau ffosil sy’n gwneud y cyfraniad mwyaf at gynhyrchu pŵer yn y DU), ac ar elfennau daearol prin (e.e. mewn magnetau a batris). Nid yw’n bosibl newid fflyd petrol/diesel Cymru i un trydan yn uniongyrchol. Mae angen ystyried defnydd adnoddau ac allyriadau bywyd cyfan cerbydau, a rhaid galluogi ymddygiad i newid, trwy ddylanwadu ar ymddygiad gwaith a hamdden, logisteg ac ati. Byddai effaith adlam os bydd cerbydau allyriadau isel yn annog milltiroedd ychwanegol fesul person. Mae gennym feddwl agored am gerbydau sy’n cael eu pweru gan hydrogen”
Parciau Cenedlaethol Cymru

“Meddylwch ble fydd y pwyntiau gwefru trydan a’u gosod cyn gynted â phosibl. Anodd credu bod trenau yn dal i fod gennym ni. Pryd y gellir cyfnwio y rhain am drydan? Rwy’n gwybod bod trenau stêm yn boblogaidd gyda thwristiaid a phlantos, ond onid yw’r holl fwg yna’n afiach? Oes yna unrhyw ffordd arall i’w rhedeg heb y llygredd aer?” **Dienw**

Ymateb

Bydd llawer o’r awgrymiadau a gafwyd mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu ymhellach yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a’r Cynllun Cyflawni Carbon Isel ar gyfer 2021-2025. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i adborth hefyd wrth i ni symud ymlaen i gyflawni camau gweithredu yn y Cynllun Aer Glân.

Rydym yn cydnabod bod angen ymchwilio ymhellach i rôl cludo nwyddau oherwydd cynnydd mewn cludo nwyddau a thraffig faniau. Mae ‘Cymru Carbon Isel’ yn nodi’r angen i integreiddio cynhyrchu ynni adnewyddadwy gyda systemau storio a gwasanaethau hyblygrwydd eraill, er mwyn lleihau’r angen am genhedlaeth newydd ac atgyfnerthu’r system i ateb gofynion newydd megis trydaneiddio trafnidiaeth. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru erbyn diwedd 2020.

Yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, gwelwyd newidiadau digysnail i’n ffordd o fyw yng Nghymru oherwydd y pandemig COVID-19. Mae’r newidiadau hyn yn cynnig cyfle i ailystyried ymddygiad teithio ac arferion gweithio o bell, a allai gael effaith lesol ar ansawdd yr aer. Rydym hefyd yn ystyried opsiynau i wrthgymell mwy o ddefnydd o geir o ganlyniad i lai o gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus, gan y bydd hyn yn cael effeithiau negyddol ar ansawdd aer ac iechyd y cyhoedd.

Rydym yn asesu effeithiau’r pandemig COVID-19 ar ansawdd aer a thrafnidiaeth. Mae canlyniadau’r gwaith hwn yn cael eu hystyried ar y cyd ag adborth o’r ymgynghoriad i’n helpu i lunio polisiau a deddfwriaeth yn y dyfodol i fynd i’r afael â llygredd aer.

A yw'r ymrwymadau a'r camau gweithredu arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifir yn y Cynllun i leihau llygredd aer er mwyn cefnogi mannau cynaliadwy yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 94 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 48 yn cytuno, 14 yn anghytuno a 32 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid yr ymrwymadau a'r camau gweithredu a ddisgrifir yn y Cynllun. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o fanylion ar sut y caiff camau gweithredu arfaethedig eu cyflawni ac awgrymodd rhai nad oedd y Cynllun yn mynd yn ddigon pell.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi cysylltiad cydlynol rhwng rheoli ansawdd aer, cynllunio a pholisi trafndiaeth ar lefelau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr y byddai angen sicrhau bod cyllid ac adnoddau sylweddol ar gael i weithredu'r camau angenrheidiol i leihau llygredd aer o fewn yr amserlenni a awgrymir.

Dyfyniadau dangosol

“Nac ydynt – mae angen mwy o fanylion ac ymateb cryfach i anghydraddoldebau o ran mynediad at dtrafnidiaeth gyhoeddus.” **Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre**

“Mae Fforwm Ansawdd Aer Cymru'n edrych ymlaen at weld rhagor o fanylion er mwyn deall pa adnoddau, buddsoddiadau a chymhellion a fydd ar gael i ysgogi newid i dtrafnidiaeth lanach. Sut yn union fydd hyn yn gweithio?” **Fforwm Ansawdd Aer Cymru**

“Mae'r ymrwymadau a'r camau gweithredu yn nodi y bydd y Cynllun Aer Glân, Polisi Cynllunio Cymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sydd yn yr arfaeth, yn cael eu hintegreiddio, ond nid yw'n rhoi unrhyw fanylion sut y bydd hynny'n digwydd, felly mae'n anodd gwneud sylwadau. Mae angen i Bolisiau Cynllunio fod yn llawer cryfach i atal datblygiadau newydd rhag cyfrannu at neu achosi problemau ychwanegol. Mae Teithio Llesol yn creu llawer o opsiynau da ar gyfer teithiau byrrach, ond mae'n rhaid i ni fod yn rhesymol yng Nghymru ac ystyried y rhwystrau a wynebier gan lawer o ran cerdded a beicio i weithleoedd, addysg ac ati. Mewn llawer o fannau, mae'r dirwedd yn anodd ac mae'n debyg mai canran fechan sy'n gorfforol abl i gyflawni teithiau hirach. Mae angen canolbwyntio mwy ar ddulliau trafndiaeth gynaliadwy. Gellid gwneud mwy i annog pobl i weithio gartref.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

Ymateb

Rydym yn cydnabod bod y Cynllun Aer Glân drafft yn nodi ymrwymïadau lefel uchel i fynd i'r afael â materion ansawdd aer. Mae gwaith manylach yn cael ei ddatblygu ar gyfer cynigion penodol fel y cynlluniau Metro. Bydd y rhain yn destun ymgynghoriad pellach.

Yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, gwelwyd newidiadau digynsail i'n ffordd o fyw yng Nghymru oherwydd y pandemig COVID-19. Rydym yn asesu effeithiau'r pandemig COVID-19 ar ansawdd aer a thrafnidiaeth. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu hystyried ar y cyd ag adborth o'r ymgynghoriad i'n helpu i lunio dulliau rheoli, polisïau a deddfwriaeth ansawdd aer yn y dyfodol.

A ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu yn helpu i leihau effaith llygredd aer er mwyn cynnal mannau cynaliadwy yng Nghymru?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 91 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 45 yn cytuno, 17 yn anghytuno a 29 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r camau gweithredu a restrir yn y Cynllun. Roedd cafeatau ynghlwm wrth nifer o'r rhain, gyda cheisiadau am ymgynghori pellach a manylion ynghylch sut y caiff y cynigion eu cyflawni. Er enghraifft, pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog pobl i ddefnyddio dulliau eraill o deithio a sut y bydd gwelliannau i ansawdd aer yn cael eu meintioli i fesur eu heffeithiolrwydd.

Dywedodd ychydig o'r ymatebwyr nad oedd y Cynllun yn mynd yn ddigon pell. Roedd rhai o'r farn bod y Cynllun yn canolbwyntio gormod ar ardaloedd trefol. Awgrymwyd y dylai cynigion ystyried anghenion penodol cymunedau gwledig a phobl ar incwm isel yn well.

Mynegwyd rhai pryderon ynghylch lefel y dechnoleg sydd ar gael i ddisodli cerbydau nwyddau trwm a cherbydau nwyddau eraill.

Dyfyniadau dangosol

"Na. Mae angen i bobl deithio o hyd oni bai eu bod yn byw yn agos at, neu mewn, dinas. Mae'n galed ar incymau isel yn yr ardaloedd gwledig, nid oes cyfarpar gwefru ceir yn y bryniau" **Julie Vernal**

"Gobeithio. Mae'r cynllun yn nodi cam gweithredu i 'hyrwyddo'r newid o'r cerbyd modur preifat i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus – byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus well'. Mae hyn yn annelwig – a fydd hyn yn golygu mwy na'r cynlluniau Metro arfaethedig neu gamau eraill a nodir yn y cynllun? Rhaid gallu gorfodi terfyn cyflymder o 20mya, byddai'n synhwyrol newid yr amgylchedd ffisegol i sicrhau na all gyrwyr yrru ar gyflymder uchel yn hytrach na dibynnu ar gydymffurfedd sy'n anodd ac yn defnyddio llawer o adnoddau i'w orfodi." **Cyngor Dinas Casnewydd**

"Ydw, rwy'n teimlo y bydd sawl cam gweithredu a amlinellir yn helpu i leihau effaith llygredd aer. Yn arbennig pob bws yn rhedeg heb ryddhau unrhyw allyriadau pibell egsôst erbyn 2028 a hyfforddiant beicio ar gyfer plant ac oedolion." **Dienw**

"Ydw, fodd bynnag, mae cyfle mawr o ran hydrogen nad yw'n cael ei wireddu." **Dr. Chris Hazell-Marshall**

Ymateb

Rydym yn cydnabod bod y Cynllun Aer Glân drafft yn cyflwyno ymrwymadau lefel uchel i fynd i'r afael â materion ansawdd aer. Mae gwaith manylach yn cael ei ddatblygu ar gyfer cynigion penodol fel y cynlluniau Metro. Bydd y rhain yn destun ymgynghoriad pellach. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i gynllunio a sefydlu mecanweithiau adrodd ar ansawdd aer i asesu effeithiolrwydd camau gweithredu yn y Cynllun Aer Glân.

Cwestiwn 41

Pa ymrwymïadau neu gamau gweithredu ychwanegol fydddech chi'n eu cynnig ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Aer Glân i wella ansawdd aer er mwyn cefnogi mannau cynaliadwy?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 78 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 15 nad oeddent am gynnig unrhyw ymrwymïadau na chamau ychwanegol.

Cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, a rhywfaint o feirniadaeth hefyd nad oedd y Cynllun yn mynd yn ddigon pell, neu ar y llaw arall yn mynd yn rhy bell.

Roedd llawer o gefnogaeth i gamau trafndiaeth a gynigir yn y Cynllun Aer Glân. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu gallu Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhai o'r camau gweithredu hyn o fewn yr amserlenni a amlinellwyd. Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i ystyried gofynion buddsoddi cyfalaf yn ofalus ar gyfer seilwaith gwefru a cherbydau, a chyflenwi cerbydau gan weithgynhyrchwyr a goblygiadau Cymorth Gwladwriaethol posibl.

Gwnaed rhai argymhellion i sicrhau bod y Cynllun Aer Glân, Polisi Cynllunio Cymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cyd-fynd yn glir â'i gilydd, gyda chyllid ategol i sicrhau gwelliannau i ansawdd aer.

Dyfyniadau dangosol

"Rydym yn credu bod y rhestr o fesurau yn feiddgar ac yn uchelgeisiol, ac nid ydym yn cynnig unrhyw ychwanegiadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch y gallu i gyflawni'r hyn a restrir a'r ddibyniaeth ar wahanol adrannau ac ar awdurdodau lleol i ariannu'r seilwaith hwn. Os gellir cyflawni'r cynlluniau hyn, bydd yn cael effaith enfawr ar lygredd aer, ond mae llawer i'w wneud, seilwaith i'w adeiladu a chalonnau a meddyliau i'w hennill." **Awyr Iach Cymru**

"Cefnogi a/neu hwyluso'r broses o ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy a/neu gynaliadwy o lefel gymunedol i fyny." **Prifysgol Abertawe**

"A ddylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy i gynyddu ffynonellau pŵer nad ydynt yn llygru e.e. solar, ffotofoltaidd, gwynt, llanw, cerrynt, storfa batri ac ati... A oes rheswm pam na ddylai Cymru fod yn arwain yn hyn o beth?" **Dienw**

"Un o'r camau allweddol fydd pa mor dda y gall Llywodraeth Cymru integreiddio'r Cynllun Aer Glân newydd, Polisi Cynllunio Cymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ynghyd â'r buddsoddiad mewn gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o leihau llygredd aer." **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

“Rydym yn cefnogi ymrwymadau a chatau gweithredu'r cynllun yn gyffredinol ond byddem yn tynnu sylw at y buddsoddiad cyfalaf sylweddol y bydd ei angen er mwyn adnewyddu'r fflyd, seilwaith gwefru, yr angen i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgynhyrchu a chyflenwi a materion yn ymwneud â rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Yn hyn o beth, byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru bennu llwybr clir tuag at gyrraedd ei tharged o ran cerbydau allyriadau isel a seilwaith.” **RTPI**

“Gwaharddiad ar gerbydau'n segura, buddsoddi pellach mewn moddau trafnidiaeth sy'n rhydd o allyriadau, gan gynnwys mwy o gyfleusterau parcio diogel i feiciau, gwell cysylltiad â llwybrau presennol ac, o bosibl, mwy o grantiau i helpu pobl i symud i bethau fel e-feiciau o geir personol.” **Lime Firms Ltd**

Ymateb

Rydym yn ddiolchgar am yr holl syniadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a byddwn yn eu hystyried wrth i ni ddatblygu'r camau i wella ansawdd aer ymhellach.

Rydym yn cydnabod fod rhai o'n huchelgeisiau yn y Cynllun yn heriol, fel y rhai ar gyfer bysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat heb unrhyw allyriadau. Fodd bynnag, mae angen gweithredu mentrus i fynd i'r afael â heriau ansawdd aer gwael a newid yn yr hinsawdd. Mae gwaith ar y gweill i ddangos sut y byddwn yn cyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, gwelwyd newidiadau digynsail i'n ffordd o fyw yng Nghymru oherwydd y pandemig COVID-19. Rydym yn asesu effeithiau'r pandemig COVID-19 ar ansawdd aer a thrafnidiaeth. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu hystyried ar y cyd ag adborth o'r ymgynghoriad i'n helpu i lunio dulliau rheoli, polisïau a deddfwriaeth ansawdd aer yn y dyfodol.

Cwestiwn 42a

Hoffem gael eich barn ar yr effaith y bydd y Cynllun Aer Glân yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 83 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymateb yn awgrymu na fydd y Cynllun Aer Glân yn effeithio'n benodol ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd darparu gwybodaeth am bolisi ansawdd aer, tystiolaeth, addysg a chyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg.

Dyfyniadau dangosol

"Gallai hyrwyddo defnyddio a diogelu mannau gwyrdd ac ardaloedd o dreftadaeth Gymreig trwy raglenni cymunedol ac addysg ansawdd aer annog dysgu a sgysiau yn Gymraeg yn yr ardaloedd hyn. Mae cysylltiadau y gellid eu gwneud â rhaglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd." **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

"Credaf na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai fod fersiwn Gymraeg o bob polisi a dylai'r holl weithgareddau/sesiynau addysgol gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg." **Dienw**

"Rwy'n siarad Cymraeg fel mamiaith, ond nid wyf yn credu bod hyn yn berthnasol." **Dienw**

"Onid oes deddfwriaeth eisoes yn bodoli i sicrhau na fydd effaith andwyol ar y Gymraeg?" **Dienw**

"Ni fydd y Cynllun Aer Glân yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Dylid bod wedi dileu'r cwestiwn hwn, gan ei fod yn gwastraffu amser pawb." **Dienw**

"Amau a fydd yn cael unrhyw effaith ar iaith. Rydyn ni i gyd yn anadlu..." **Dienw**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Aer Glân. Rydym wedi ymrwmo i gefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant Gymreig wrth i ni ddatblygu polisiau a dulliau cyfathrebu yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer.

Cwestiwn 42b

Hoffem gael eich barn ar yr effaith y bydd y Cynllun Aer Glân yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 13 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn nad oedd y Cynllun Aer Glân yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Codwyd rhai pwyntiau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebu ac ymgysylltu a diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.

Dyfyniadau dangosol

“A bod yn onest, nid oes modd i mi weld beth sydd a wnelo'r iaith Gymraeg â'r Cynllun Aer Glân i Gymru. Mae'n fater yr un mor bwysig i siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Deddfwriaeth, gwyddoniaeth ac addysg fydd yn gyfrifol am ddatrys ein problemau ni, nid iaith.” **Dienw**

“Rhaid i bob deunydd cyfathrebu fod ar gael yn ddwyieithog. Wrth gynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, bydd yn hanfodol i siaradwr Cymraeg rhugl fod yn bresennol ar ran Llywodraeth Cymru fel y gall gysylltu â'r gymuned gyfan, nid siaradwyr Saesneg yn unig” **Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Aer Glân. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wrth i ni ddatblygu polisïau a dulliau cyfathrebu yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer.

Cwestiwn 43

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai'r Cynllun Aer Glân yn eu cael ar yr iaith Gymraeg? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 52 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Cwestiynodd nifer o ymatebwyr berthnasedd y cwestiwn hwn i'r Cynllun Aer Glân ac roeddent yn teimlo hefyd ei fod yn ailadrodd cwestiynau ymgynghori eraill ar y Gymraeg. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion na fyddai unrhyw effeithiau negyddol gan y Cynllun pe bai'r holl wybodaeth berthnasol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd llawer o'r ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu gwybodaeth am bolisi ansawdd aer, tystiolaeth, addysg a chyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dyfyniad dangosol

“Bydd aer glân yn gwneud bywyd yn llawer mwy pleserus i lawer o Gymry, gyda llawer ohonynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Bydd yn atal marwolaethau o lygredd aer ac yn gwneud Cymru'n lle mwy deniadol i fyw ynddo, o bosibl yn annog pobl i beidio â gadael y wlad i chwilio am amgylchedd iachach. Wrth i Loegr gyflwyno mesurau llymach i ffrwyno llygredd aer, mae'n hanfodol bod safonau cyfatebol o leiaf gan Gymru, fel arall bydd pobl yn gadael – a bydd hyn yn niweidio'r Gymraeg.” **Dienw**

“Rwy'n teimlo bod hyrwyddo'r ddwy iaith yn bwysig ac y caiff ei dderbyn yn ffafriol o'i gyflwyno yn y naill a'r llall.” **Dienw**

“Dim effaith arwyddocaol ar y Gymraeg. Mae'n bwysig bod cyfathrebu yn ddwyieithog wrth gwrs mewn perthynas â deunydd addysgol.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Aer Glân. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wrth i ni ddatblygu polisiau a dulliau cyfathrebu yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer.

Cwestiwn 44a

Esboniwch hefyd sut gellid llunio neu newid y Cynllun arfaethedig yn eich barn chi fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 47 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn nad oedd angen newidiadau i'r Cynllun Aer Glân er mwyn gallu cael effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd unrhyw ymatebion yn awgrymu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn y Cynllun na'r Saesneg.

Codwyd nifer o bwyntiau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu ac ymgysylltu ac wrth ddiogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.

Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu gwybodaeth am bolisi ansawdd aer, tystiolaeth, addysg a chyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dyfyniadau dangosol

“Rhaid i'r cynllun fod yn gwbl ddwyieithog ond efallai y bydd angen mwy o esboniad ac eglurhad ar rai termau technegol yn y Gymraeg, o ystyried y tueddiad mai'r Saesneg yw iaith ryngwladol gwyddoniaeth.” **Dienw**

“Effeithiau cadarnhaol yw mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg trwy addysg a gwasanaethau a nodir yn 'Cymraeg 2050'” **Dienw**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Aer Glân. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wrth i ni ddatblygu polisiau a dulliau cyfathrebu yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer.

Cwestiwn 44b

Esboniwch hefyd sut gellid llunio neu newid y Cynllun arfaethedig yn eich barn chi fel nad yw'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 10 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn nad oedd angen newidiadau i'r Cynllun Aer Glân er mwyn adlewyrchu'n well y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd unrhyw ymatebion yn awgrymu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn y Cynllun na'r Saesneg. Codwyd rhai pwyntiau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebu ac ymgysylltu a diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.

Dyfyniadau dangosol

“Byddai unrhyw bolisi sy'n arwain at leihau gweithgarwch amaethyddol ac sydd felly'n creu all-lifiad o deuluoedd sy'n gwneud bywoliaeth o'r tir, a'r holl fusnesau sy'n dibynnu ar y teuluoedd hynny, yn niweidiol i'r Gymraeg. Pe bai coedwigaeth yn disodli magu da byw fel y brif fenter, byddai'r rhai a fyddai wedi meddiannu'r tir am genedlaethau lawer yn cael eu disodli gan weithlu rhan-amser, yn bennaf ar yr ochr cludo a phrosesu, ac felly'n llai tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg. Un rheswm da arall dros beidio â gorchuddio Cymru â sbriws Sitka.” **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant**

“Fel rhan o ddilyniant mesurau yn y Cynllun Aer Glân, bydd angen i'r broses sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnwys a'u clywed.” **Cyngor Abertawe**

“Gallai defnydd priodol o'r Gymraeg mewn unrhyw ymgyrchoedd ansawdd aer fod yn fuddiol.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i'r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Aer Glân. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wrth i ni ddatblygu polisiau a dulliau cyfathrebu yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os gallwch feddwl am faterion cysylltiedig sydd heb gael sylw penodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Ymatebion a gyflwynwyd

Cafwyd ateb gan 72 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys sylwadau ychwanegol.

Cafwyd nifer fawr o sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn sydd wedi'u crynhoi isod:

- Dylid mynd ati'n annibynnol i ddewis safleoedd monitro ansawdd aer a chyhoeddi a dadansoddi data ansawdd aer.
- Dylai cynigion trafnidiaeth i leihau llygredd aer ystyried gofynion pobl anabl a phobl sy'n agored i niwed, yn ogystal ag anghenion penodol cymunedau gwledig. Er enghraifft, mae angen i bob opsiwn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol fod yn hygyrch ac yn ddiogel.
- Gwnaed cais i fynd i'r afael â'r problemau a'r llygredd cynyddol a achosir gan dwmpathau cyflymder ar ffyrdd. Awgrymwyd bod brecio parhaus a goryrru rhwng twmpathau'n achosi mwy o allyriadau mewn cerbydau ac mae gronynnau llwch brêc yn niweidiol iawn. Dylid ystyried mynd i'r afael â gronynnau llwch ffordd, teiars a phadiau brêc o ran ansawdd aer.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried arferion da o wledydd eraill wrth ddatblygu camau gweithredu yn y Cynllun.
- Awgrymwyd y dylid defnyddio cyfyngiadau cyflymder o 50mya ar draws Cymru ar bob ffordd unffrwd i leihau llygredd, damweiniau, difrifoldeb damweiniau, sŵn a'r defnydd o danwydd.
- Dylid ychwanegu mwy o fanylion at y Cynllun ynghylch camau gweithredu penodol i leihau llygredd sŵn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar lygredd sŵn o drafnidiaeth a dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir bod hwn yn fater ehangach.
- Dylai deunydd cyfathrebu i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer gael eu targedu a'u teilwra i'w cynulleidfia;
- Cadw golwg ar fframweithiau cynllunio, trwyddedu a rheoleiddio i sicrhau eu bod yn cadw i fyny â'r dechnoleg a'r datblygiadau cyfredol.
- Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i edrych ar y cysylltiadau rhwng gwastraff, yr economi gylchol a llygredd aer.
- Awgrymwyd bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i fynd i'r afael â llygredd aer ac allyriadau carbon o awyrennau yng Nghymru.
- Codwyd nifer o faterion lleol penodol ynghylch gweithfeydd diwydiannol, ffyrdd neu ddatblygiadau eraill.

Dyfyniadau dangosol

“Ni ddylai camau cyfathrebu ganolbwyntio ar newid ymddygiad unigolion yn unig – mae’r cynnydd mwyaf i’w wneud gan sectorau a busnesau yn gweithredu gyda’i gilydd.” **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

“Mae angen fframwaith monitro a gwerthuso cadarn o effeithiau a mesurau (y tu hwnt i fesurau ansawdd aer lleol) sydd ag adnoddau digonol (o ddechrau gweithredu ymyrraeth) a fydd yn golygu y gellir mesur cynnydd yn wrthrychol a darparu adborth i’r system. Ni ddylai camau cyfathrebu ganolbwyntio ar newid ymddygiad unigolion yn unig – mae’r cynnydd mwyaf i’w wneud gan sectorau a busnesau yn gweithredu gyda’i gilydd.” **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

“Mae eich cynigion yn dychmygu sefyllfa â chanlyniad anochel, mae eich cynigion yn unochrog, ac yn arwain y darlennydd i gredu bod llygredd aer yn llawer gwaeth nag ydyw, nid oes unrhyw beth democrataidd am y cynigion, nid yw’r cynigion, fel y cyfaddefwch, yn gynigion gan Gymru na’r DU ond gan fiwrocratiaeth anetholedig y tu hwnt i’n ffiniau yn ceisio gweithredu eu hagendâu eu hunain. Cytuno ai peidio, nid yw poblogaeth Cymru/y DU wedi rhoi unrhyw fewnbwn i’r cynigion hyn.” **Dienw**

“Dylid cynnal ymchwiliad ehangach i’r cysylltiadau rhwng gwastraff a llygredd aer. Mae’r ymgynghoriad presennol ar yr economi gylchol yn gwneud cysylltiadau ag ansawdd aer ond nid oes digon o bwyslais ar sut y mae ein cymdeithas ‘rhaid cael’ a ‘thaflu i fwrdd’ yn effeithio ar y gallu i fod yn gynaliadwy. Tueddwn i feddwl am ‘filltiroedd cynnyrch’ o ran cludo nwyddau i gyrchfannau, ond mae’n bosibl bod cymaint o filltiroedd, os nad mwy, ynghlwm wrth gludo’r nwyddau pan fyddant yn troi’n wastraff. Gan ein bod eisoes yn gwybod bod trafndiaeth yn cyfrannu’n sylweddol at ansawdd aer gwael, dylid rhoi ystyriaeth briodol i’r milltiroedd trafndiaeth ychwanegol a grëir trwy symud gwastraff.” **Dienw**

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb i’r cwestiwn hwn wrth i ni ddatblygu camau gweithredu yn y Cynllun Aer Glân.

Atodiad A Gweithdai Ymgynghoriad Cyhoeddus

Gweithdai Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Aer Glân

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru dri gweithdy i gefnogi'r ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2020. Roedd y digwyddiadau'n agored i'r cyhoedd a chawsant eu cynnal ar 12 Chwefror 2020 yn Aberystwyth (y Canolbarth a'r Gorllewin), 25 Chwefror yn Wrecsam (y Gogledd a'r Canolbarth) a 5 Mawrth yng Nghaerdydd (y De). Aeth 124 o bobl i'r digwyddiadau.

Rhoddodd y gweithdai gyfle i'r rhai a oedd yn bresennol ddysgu mwy am y cynllun a'r cynigion ynddo. Prif nod y gweithdai oedd cael adborth gan gyfranogwyr.

Mynegwyd barn debyg ar draws y tri gweithdy ymgynghori ac mae crynodeb o'r adborth isod:

Sylwadau cyffredinol

Roedd pryder ynghylch cadernid systemau i gynorthwyo'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf ond oedd yn lleiaf abl i fforddio trefniadau pontio, os bydd angen newidiadau i ffordd o fyw. Er enghraifft, gallai gwahardd rhai tanwyddau solet achosi canlyniadau anfwriadol megis tlodi tanwydd oherwydd cost newid systemau gwresogi.

Cafwyd ceisiadau i adolygu'r cynlluniau presennol ar gyfer cynlluniau rheoli mwg, rheoli traffig, teithio llesol a buddsoddi gwyrdd. Awgrymodd cyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi cynlluniau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r nod a fwriadwyd, yn cyflawni'r gostyngiadau gofynnol o ran llygredd aer ac nad ydynt yn achosi canlyniadau anfwriadol a allai fod yn waeth na'r broblem wreiddiol. Dylai Llywodraeth Cymru wedyn ddysgu'r gwersi o'r adolygiadau hyn a'u cymhwyso i bolisiâu yn y dyfodol.

Roedd pryder na fyddai 'un ateb i bawb' ar gyfer Cymru yn ystyried yr amrywiadau daearyddol a'r boblogaeth wasgaredig. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu ynghylch newid ymddygiad. Er bod croeso i gydweithio rhanbarthol, ni ddylai hyn fod ar draul gweithredu lleol ar feysydd lle mae problemau'n cael eu nodi.

Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryderon ynghylch ymarferoldeb cerbydau trydan, y seilwaith i'w cefnogi a'r diffyg buddsoddiad i gefnogi datblygiad cerbydau nwyddau a cherbydau ffermio/adeiladu â thanwydd amgen. Tynnodd rhai mynychwyr sylw at yr angen i ganolbwyntio ar wahanol ddulliau polisi ar gyfer Cymru wledig a Chymru drefol, gan y bydd amrywiaeth o gyfleoedd a heriau cymhleth i'w hystyried.

Soniodd nifer o gyfranogwyr am symudiad Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol at ganoli addysg a gwasanaethau eraill mewn cyfleusterau mwy, canolog, ymhellach o gartrefi. Teimlwyd bod hyn yn gwrthddweud polisi ehangach Llywodraeth Cymru i leihau teithio mewn car i gefnogi teithio llesol, lleihau allyriadau a gwella iechyd. Gwnaed argymhellion i gyrff cyhoeddus ystyried manteision gwasanaethau lleol llai ar lygredd, y defnydd o gerbydau a thagfeydd.

Gwella ansawdd aer er mwyn diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol

- Mae angen i'r Cynllun Aer Glân egluro'r gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n fygythiad i iechyd a'r hyn sy'n niwsans yn unig (i leddfu pryder y cyhoedd). Gallai'r Cynllun elwa o ganolbwyntio ar nifer o gamau llai sy'n cyfrannu at newid mawr yn hytrach na newid mawr untro a drud.
- Mae angen buddsoddi mewn monitro a modelu ansawdd aer, gan gynnwys dadansoddi amser real o'r data a darparu'r wybodaeth hon i'r cyhoedd. Byddai hyn yn caniatáu cyfathrebu ar sail tystiolaeth. Pwysleisiwyd hefyd fod yn rhaid i hyn ddod gyda chyllid newydd, yn hytrach na dibynnu ar gyllidebau presennol, gydag arweiniad clir i awdurdodau lleol.
- Dylai'r cyfathrebu ar newid ymddygiad fod wedi'i dargedu, yn benodol ac wedi'i gefnogi gan dystiolaeth.
- Dylid annog teithio llesol. Dylid canolbwyntio ar fuddsoddi mewn teithio llesol. Dylai llwybrau newydd osgoi rhwydweithiau ffyrdd sy'n bodoli eisoes i leihau cysylltiad â llygredd aer. Ystyried llwybrau 'cerbydau trac sengl' ar gyfer beiciau, e-feiciau, beiciau modur a sgwteri
- Dylid hyrwyddo cynlluniau "parcio a beicio". Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad newydd mewn loceri beiciau, cyfleusterau newid mewn ysgolion a chyfleusterau mewn gorsafoedd trenau a bysiau.
- Dylai cyflogwyr annog pobl i weithio gartref er mwyn helpu i leihau llygredd aer sy'n deillio o drafnidiaeth.
- Canolbwyntio ar fynd i'r afael â llosgi tanwydd solet yn y cartref mewn amgylcheddau trefol, lle mae dewisiadau glanach eraill yn bodoli ar gyfer gwresogi.

Gwella ansawdd aer i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth

- Annog mwy o ymgysylltiad â'r gymuned ffermio a chysylltu'r Cynllun Aer Glân â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ffordd gydlynol.
- Cefnogi mesurau a brofwyd yn y gorffennol i reoli'r amgylchedd. Er enghraifft, gall llosgi tir wedi'i reoli'n ofalus achosi deunydd gronynnol tymor byr, ond pan gaiff ei ddefnyddio'n gywir ac yn y tymor hir, mae'n fuddiol mewn ffyrdd eraill.
- Annog defnydd amgen ar gyfer tir amaethyddol anghynhyrchiol ac ailstyried dulliau cyfredol o ddad-ddwysáu defnydd tir cynhyrchiol. Mae cael gwared ar wrychoedd, coed a glaswelltir wedi arwain at lifogydd ac erydiad tir. Gall plannu coed fod o fudd ond dim ond os caiff ei gynllunio'n gywir a chan ddefnyddio cymysgedd da o blanhigion brodorol.
- Adfer cymorth ar gyfer taenu calch ar dir amaethyddol er mwyn lleihau asideiddio a hybu cynhyrchu cnydau. Gweithio gyda ffermwyr i annog arfer gorau ar gyfer gwasgaru slyri, dyddodi nitrogen a ffermio adfywiol.
- Cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer cynhyrchu bwyd yn lleol (lleihau milltiroedd bwyd) a dad-ddwysáu ffermio.
- Cefnogi cynigion ar gyfer sicrhau bod yr amgylchedd trefol yn fwy gwyrdd. Fodd bynnag, mynegwyd rhybudd nad seilwaith gwyrdd yw'r unig ateb a gall seilwaith sydd wedi'i gynllunio'n wael gael canlyniadau anfwriadol.

Gwella ansawdd aer i gefnogi Cymru lewyrchus

- Roedd diffyg ffocws digonol ar yr economi yn thema yn y tri gweithdy. Mynegodd rhai mynychwyr bryderon ynghylch gweithredu newidiadau radical yng Nghymru a allai effeithio'n negyddol ar fusnesau sy'n bodoli eisoes ac atal mewnfuddsoddi.
- Mae angen gwella prosesau cynllunio i ystyried effeithiau datblygiadau ar ansawdd aer.
- Datgysylltiad ymddangosiadol rhwng polisiau ar ynni ac aer glân, o ran cefnogaeth i gynhyrchu biomas. Teimlwyd nad oedd polisiau ynni a rheoli carbon wedi'u hintegreiddio'n ddigonol i'r Cynllun Aer Glân.
- Gwrthdaro ymddangosiadol rhwng cynlluniau'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy i gefnogi gosod odyrau sychu pren gyda'r allyriadau anochel sy'n deillio o'r broses sychu. Cefnogi dulliau sychu pren naturiol yn hytrach na rhai sy'n defnyddio ynni.
- Gwnaed cais i eithrio rheilffyrdd treftadaeth stêm o unrhyw gyfyngiad ar losgi glo gan eu bod yn creu incwm twristiaeth sylweddol ac ystyrir bod lefel yr allyriadau'n fach.
- Roedd rhai mynychwyr o'r farn na ddylai elfen o godi tâl fod yn ofynnol mewn parthau awyr glân neu barthau allyriadau isel. Awgrymwyd y gellid dysgu gwersi o barthau allyriadau isel yn Ewrop sydd wedi llwyddo i leihau llygredd heb godi tâl.

Cynhyrchu a Dosbarthu Pŵer

- Amlygodd y rhai a oedd yn bresennol y ddibyniaeth gynyddol ar drydan ar gyfer cerbydau trydan a gwresogi cartrefi. Cwestiynwyd y gallu i gynhyrchu digon o ffynonellau ynni, gyda'r lleihad a ragwelir mewn cynhyrchu pŵer yn y DU dros y 10 mlynedd nesaf.
- Symud o hierarchaeth y grid canolog i fodelau cymunedol a rhanbarthol i annog microgynhyrchu a buddsoddi mwy mewn effeithlonrwydd ynni.

Gwella ansawdd aer i gefnogi mannau cynaliadwy

- Gwnaed argymhellion i roi ystyriaeth weithredol i hydrogen fel tanwydd amgen. Awgrymwyd y gellid ychwanegu'r seilwaith gofynnol at orsafoedd tanwydd sy'n bodoli eisoes ac y byddai'n goresgyn y broblem o ddibynnu ar fwynau strategol o wledydd ansefydlog i gynhyrchu batris.
- Mae angen datblygu rhwydwaith strategol o gyfleusterau gwefru trydan. Nid yw trosi i drydan yn ateb i bopeth o reidrwydd gan y byddai angen buddsoddiad seilwaith mawr ac mae'r dechnoleg yn dal i ddatblygu. Mynegwyd pryder ynghylch y grid dosbarthu trydan a'r angen i fuddsoddi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i gefnogi gwefru cerbydau trydan.
- Roedd cefnogaeth eang i ailwampio'r system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, ac nid yn y dinasoedd yn unig. Roedd hyn yn cynnwys galw i wella'r seilwaith rheilffyrdd a dibynadwyedd a'r defnydd o fodelau eraill (rheilffyrdd ysgafn, tramiau, bysiau integredig) fel opsiynau. Cyflwynwyd argymhellion i

ystyried adfywio trafnidiaeth leol, gan ddefnyddio hen reilffyrdd mwynau, tramffyrdd y cymoedd, gwelyau trac a llwybrau hanesyddol eraill.

- Cefnogwyd teithio llesol mewn egwyddor. Fodd bynnag, y gred oedd bod y manteision yn gyfyngedig i ardaloedd mwy trefol.
- Trafodwyd mesurau gwrthsegura a gostegu traffig. Galwyd am bwyll ynghylch y ddau fater gan fod astudiaethau wedi dangos y gallai'r mesurau hyn gael canlyniadau anfwriadol o ran cynyddu llygredd. Argymhellwyd ymchwil bellach.
- Buddsoddi i atal yr angen i deithio yn y lle cyntaf. Er enghraifft, annog a chymell cynlluniau gweithio gartref a gwell band eang.
- Monitro llygredd aer trawsffiniol a chaniatáu monitro'r effeithiau ar sail ranbarthol neu genedlaethol. Tracio gwaddodi a galluogi camau gorfodi posibl ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol.

Cynllunio

- Mynegwyd pryderon ynghylch cymhwyso unrhyw reoliad sy'n gofyn am ystyried ansawdd aer o safbwynt cynllunio. Mynegwyd amheuan ynghylch effeithiolrwydd camau gorfodi am dorri amodau caniatâd cynllunio a phwy sy'n gorfodi. Ai Awdurdod Lleol sy'n gweithredu'n anghyfrifol? Un enghraifft a roddwyd oedd lleoli ysgol gynradd newydd rhwng dwy briffordd. Nid oedd yn glir a ystyriwyd tystiolaeth ddigonol ar effeithiau llygredd aer ar ysgyfaint pobl ifanc a ffisioleg sy'n datblygu.
- Tynnwyd sylw at bwysigrwydd seilwaith gwyrdd wedi'i gynllunio'n briodol yn yr amgylchedd trefol. Mynd i'r afael â chydbwysedd y seilwaith caled a meddal a'u heffaith ar fanteision i gynefinoedd.
- Gorfodaeth i gynnwys pwyntiau gwefru trydan ar unrhyw gartrefi, swyddfeydd ac adeiladau newydd eraill.
- Cynnwys monitro ansawdd aer yn orfodol ar bob safle newydd ar gyfer cartrefi, swyddfeydd, ac ati. Dylid gosod a chynnal y rhain, gyda'r datblygwr yn talu'r gost wirioneddol, ond eu monitro'n annibynnol fel rhan o'r broses o Reoli Ansawdd Aer Lleol neu rwydwaith monitro ansawdd aer arfaethedig Llywodraeth Cymru.
- Mwy o bwyslais ar ddatblygu cynaliadwy. Er enghraifft, ystadau tai ac ystadau diwydiannol gyda llwybrau bysiau a beiciau a mesurau gwrthlygredd wedi'u cynllunio o'r cychwyn cyntaf a mwy o ddefnydd o gytundebau Adran 161 i gynnwys mesurau ansawdd aer.

Senedd Ieuenctid Wrecsam

Aeth cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i gyfarfod o Senedd Ieuenctid Wrecsam ar 24 Chwefror 2020 i drafod a chael adborth ar y Cynllun Aer Glân. Cyflwynwyd trosolwg o'r Cynllun i'r mynychwyr ac fe'u gwahoddwyd i gynnig sylwadau a thrafod cynigion yn y Cynllun. Ceir crynodeb o'r adborth isod:

Trafnidiaeth Gyhoeddus

- Trydaneiddio bysiau i leihau llygredd.
- Integreiddio bysiau gwledig â gwasanaethau pellter hir.

- Yr angen i wasanaethau gwledig redeg yn amlach a chydabod yr anawsterau y gall hyn eu hachosi i unigolion heb gludiant annibynnol.
- Mae cost trafnidiaeth gyhoeddus i deuluoedd yn uwch na theithio mewn car yn aml.
- Cyfathrebu gwael o ran newidiadau i lwybrau neu amserlenni a diffyg gwybodaeth am newidiadau i wasanaethau.
- Gofyniad i wasanaethau trafnidiaeth redeg pan fydd eu hangen ar bobl ac ar lwybrau sy'n diwallu angen y cyhoedd.

Amaethyddiaeth

- Trafodaeth ar ffermio dwys.
- Prynu bwyd o ffynonellau lleol i leihau milltiroedd bwyd.
- Yr angen am reoli allyriadau'n fwy caeth ar ffermydd.

Ynni

- Cefnogaeth i ynni niwclear fel rhan o grid ynni cynaliadwy ar gyfer Cymru.
- Newid i ynni adnewyddadwy.
- Gosod paneli solar ar bob tŷ newydd.
- Diffodd gwefrwr ffôn pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Buddsoddiad gan y Llywodraeth mewn mwy o ffynonellau tanwydd ac ynni.
- Newid i gyflenwyr ynni gwyrdd.
- Ysgolion i ddiffodd eu TGCh dros nos. Soniodd nifer o bobl am ysgolion yn gadael goleuadau, cyfrifiaduron a chyfarpar arall ymlaen dros nos.
- Sicrhau bod cartrefi wedi'u hinswleiddio'n briodol.

Trafnidiaeth ffordd

- Trafododd y mynychwyr gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag allyriadau gormodol o nitrogen deuocsid. Galwadau am well gwybodaeth am lygredd aer a'r angen i sicrhau bod cyfyngiadau cyflymder yn gweithio ar ffyrdd lle mae allyriadau gormodol o nitrogen deuocsid. Roedd rhai yn teimlo y gallai cyfyngiadau cyflymder achosi problemau llygredd aer mewn mannau eraill am fod pobl yn brecio'n sydyn i fodloni terfynau cyflymder ac yna'n cyflymu'n gyflym pan fyddant yn dod allan o'r parth cyfyngu cyflymder.
- Newid o danwydd ffosil i gar hybrid dros dro ac i geir trydan pan fydd gwefru'n dod yn fwy hwylus.
- Newid i gerbydau sy'n fwy effeithlon o ran tanwydd.

Awgrymiadau cyffredinol

- Defnyddio cynhyrchion am gyfnodau hirach, gan leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai.
- Rhoi'r gorau i brynu plastig.
- Defnyddio cwmnïau amgylcheddol-gyfeillgar ardystiedig.

Atodiad B

Gohebiaeth Weinidogol

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig 9 darn o ohebiaeth yn ymwneud ag ymgynghoriad y Cynllun. Roedd wyth o'r rhain gan aelodau o'r cyhoedd ac roedd un gan y Grŵp Cynghori Pobl Hŷn.

Cysylltodd nifer o ohebwyd â'r Gweinidog ynghylch llosgi domestig.

Gofynnodd un gohebydd i Lywodraeth Cymru ystyried effeithiau cadarnhaol llosgwyr pren mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

Ysgrifennodd un gohebydd i fynegi ei ddealltwriaeth bod yn rhaid cael cyfyngiadau ar yr hyn y dylai pobl ei losgi. Fodd bynnag, roedd am bwysleisio bod ffyrdd cynaliadwy o ganfod coed i'w llosgi.

Mynegodd un gohebydd ei gefnogaeth i gyfyngiadau ar losgi domestig oherwydd yr effaith niweidiol a gaiff mwg ar ddioddefwyr asthma.

Mynegodd un gohebydd bryderon am effaith y cynigion ar gymunedau gwledig. Yn benodol, gwahardd y defnydd o losgwyr pren tra bod cartrefi gwledig yn eu defnyddio fel ffynhonnell wres sylfaenol, ac anymarferoldeb defnyddio cerbydau trydan yng nghefn gwlad lle y gallai taith gron i'r archfarchnad fod yn 100 milltir.

Ysgrifennodd dau ohebydd arall at y Gweinidog i leisio eu pryderon am effaith cyfyngu ar losgi coed mewn cartrefi heb wres canolog, neu rai nad ydynt yn gallu fforddio gosod, gwres canolog.

Tynnodd un gohebydd sylw at fater tân gwyllt yn cyfrannu at lefelau PM_{2.5}.

Cysylltodd un gohebydd â'r Gweinidog i ofyn am weithredu cadarnach o ran peiriannau'n segura ym mhobman, nid dim ond y tu allan i ysgolion.

Derbyniodd yr holl ohebwyd ymateb uniongyrchol gan y Gweinidog ac mae eu barn yn cael ei hystyried wrth i ni ddatblygu'r camau gweithredu cysylltiedig yn y Cynllun Aer Glân.

Atodiad C

Deiseb Cynllun Aer Glân

Drwy gydol yr ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân, cawsom 823 o ymatebion i'r ddeiseb. Dyma destun y ddeiseb:

Annwyl Dîm Polisi Ansawdd Aer,

Mae llygredd aer yn effeithio ar fy iechyd, iechyd fy nheulu, llesiant fy ffrindiau a'm cymdogion, a'r amgylchedd o'm cwmpas. Gofynnaf i chi, Lywodraeth Cymru, gymryd camau beiddgar a chyflymach i gyflwyno Cynllun Aer Glân newydd, a deddfu ar gyfer Deddf Aer Glân newydd i Gymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Rwyf yn cefnogi'r syniadau a gyflwynwyd yn 'Awyr Iach, Cymru Iach', yn enwedig y lluo o fentrau i wella ansawdd aer, ond i mi nid yw'r cynllun yn mynd yn ddigon pell. Mae aer budr yn cyfrannu at farwolaeth 2,000 o bobl yng Nghymru bob blwyddyn ac mae'n niweidio ein hinsawdd. I achub bywydau ac i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, mae arnom angen deddfwriaeth, nid cynllun yn unig.

Mae ansawdd aer gwael yn gost i'n hiechyd ac i'n hamgylchedd, ac mae hefyd yn costio dros £1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru – ni all hyn barhau. Dylem allu cerdded a beicio heb i'n bywydau gael eu cwtogi gan aer gwenwynig.

Dyna pam mae angen i ni gael Deddf Aer Glân cyn gynted â phosibl a fyddai'n cyflwyno terfynau llygredd aer llymach, ei gwneud yn orfodol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu strategaeth ansawdd aer bob deng mlynedd a sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i fonitro ac asesu llygredd yn yr aer a chymryd camau yn ei erbyn.

Rydym i gyd yn haeddu hawl i anadlu aer glân. Gobeithio y gallwch wneud y newidiadau angenrheidiol nawr, er lles pobl fel fi, sy'n byw yng Nghymru heddiw, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol.

Diolch am eich amser

O'r 823 o ymatebion, roedd 44 wedi ychwanegu sylwadau personol at y testun. Crynhoir y sylwadau hynny isod:

Roedd tri ymateb yn tynnu sylw at effaith lefelau uchel o lygredd mewn dinasoedd fel Caerdydd ar bobl ag asthma. Nododd ymateb arall effaith tanau glo agored ar bobl ag asthma, mater nad yw'n gyfyngedig i ddinasoedd neu ardaloedd gwledig yn unig.

Roedd dau ymateb yn tynnu sylw at ffynonellau llygredd aer mewn ardaloedd gwledig, fel ffermydd, sy'n gallu gwaethygu problemau iechyd pobl sy'n byw gerllaw. Nododd un o'r ymatebwyr y gallai ffynonellau llygredd aer mewn ardaloedd gwledig fod yn llai amlwg na mewn dinasoedd. Tanlinellodd y llall fater llosgi gwastraff anghyfreithlon mewn ardaloedd gwledig.

Lleisiodd dau o'r ymatebwyr eu cefnogaeth i annog y cyhoedd i brynu cerbydau trydan ac i Lywodraeth Cymru wella'r seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

Roedd ymateb arall yn cefnogi gwahardd diesel oherwydd y lefelau uchel o lygredd a gynhyrchir gan beiriannau diesel.

Mynegodd nifer o bobl bryderon am faterion lleol penodol.

Ymatebodd dau gyda phryderon ynghylch yr oedi parhaus o ran y ffordd osgoi sydd ei hangen ar gyfer Llandeilo. Nododd y ddau fod traffig trwm ar y brif ffordd trwy'r dref yn achosi lefelau uchel o lygredd.

Tynnodd un ymatebwr sylw at sut y mae diffyg cydymffurfedd â chyfyngiadau cyflymder 20mya yng Nghaerdydd yn gwaethygu'r lefelau llygredd a achosir gan draffig trwm yn y ddinas.

Mynegodd un ymateb bryderon ynghylch agosrwydd ysgolion a meithrinfeydd i'r A48 yn Llanedern.

Roedd un ymateb yn nodi pryderon am losgydd yn y Barri a'i effaith ar bobl leol ag asthma.

Mynegodd wyth ymatebydd bryderon ynghylch defnyddio ffyrdd prysur i deithio i'r gwaith ac i'r ysgol.

Roedd un ymatebwr yn cefnogi'n llawn y penderfyniad i ganslo estyniad yr M4 trwy'r gwlyptiroedd a gofynnodd am ddefnyddio'r un dewrder a blaengaredd yn y Cynllun Aer Glân.

Rhestrodd un ymateb lygrwyr amrywiol, gan gynnwys diwydiant, a'r gordefnydd o geir, awyrennau a lorïau. Galwodd ar i'r rhain i gyd gael sylw mewn Deddf Aer Glân, sy'n dal diwydiant i gyfrif ac sy'n ystyried pob llygrydd sy'n effeithio ar iechyd pobl.

Mae un ymateb yn mynegi pryderon ynghylch diffyg cydymffurfedd â thargedau os nad oes cosbau i'w cefnogi.

Roedd un ymatebydd yn poeni am faint o goed sy'n cael eu torri yn ei ardal leol.

Atodiad D

Sefydliadau a ymatebodd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	MPA Cymru
Cynllun Masnachwyr Glo Cymeradwy	Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol
ASH Cymru	Parciau Cenedlaethol Cymru
Cymdeithas Mewnforwyr a Chynhyrchwyr Glo Prydain	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cymdeithas Feddygol Prydain	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sefydliad Prydeinig y Galon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cymdeithas Porthladdoedd Prydain	Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	NFU Cymru
Ymddiriedolaeth Llwybr Cambrian	Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Plantlife Cymru
Ymgyrch Seiclo 'Bargen Prifddinas-Ranbarth' Caerdydd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyngor Caerdydd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ymgyrch Beicio Caerdydd	Y Gymdeithas Cludiant Ffyrdd
Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol	Coleg Brenhinol y Pediatregwyr ac Iechyd Plant Cymru
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd	Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
Comisiynydd Plant Cymru	Grŵp y Post Brenhinol
Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cymru	Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid
Ffederasiwn y Masnachwyr Glo	RTPI
Cyddfederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru	RWE Generation
Cyngor Sir Ynys Môn	Senedd Ieuenctid Wrecsam
Energy UK	SMMT
Ffederasiwn Busnesau Bach	Canolfan Feddygol St Julians, Casnewydd
Cymdeithas Cludo Nwyddau	Stove Industry Alliance
Undeb Amaethwyr Cymru	Y Gymdeithas Ynni Cynaliadwy
Awyr Iach Cymru	Cyngor Abertawe

HETAS	SWIPE
Hybu Cig Cymru	Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Hydrock	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru	Toyota Motor Europe
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff	Uniper
Liftshare Ltd.	Prifysgol De Cymru
Lime Firms Ltd	UPS
Liquid Gas UK	Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre
Living Streets	Fforwm Ansawdd Aer Cymru
Llais y Goedwig	Cyswllt Amgylcheddol Cymru
Y Swyddfa Dywydd	TUC Cymru
Cyngor Sir Fynwy	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru
Academi Morgan, Prifysgol Abertawe	Plaid Lafur Etholaeth Ynys Môn
Grŵp Gweithredu Beiciau Modur	

Ymatebwyr unigol

Peter Ashcroft	Richard Jones	Wendy Pugh
Stuart Bain	James Lancaster	Jacob Tasker
Pauline Bett	Andrew Lewis	Janice Taylor
Nicola Buttland	Jordan Lewis	Pippa Tee
Julie Byers	Jane Mansfield	Alan Tinline
Jeffery Cuffe	Oliver Matthews	Julie Vernall
Roger Davies	Ms Sharon McCarney	Daniel Verrier
Colin Evans	Graham James Morgan	Max Wallis
W.P. Evans	Dr. Robert Morgan	Peter Walters
David Groom	Kay Oliver	Adrienne Williams
Dr. Chris Hazell-Marshall	Dr. BV Osborne	Elena Woolfenden
Francesca Hill	Chris Penn	Connor Wright
Nicola Hughes	Joanna Phillips	
Liam Hutton	Clive Poulton	
Bob Jacques	Lesley Prosser	

Sefydliadau a fynychodd weithdai

Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent	Cadwch Gymru'n Daclus
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Iechyd Cyhoeddus Cymru
ARUP	Living Streets
Associated British Ports	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Asthma UK	Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Mott MacDonald
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cymdeithas Porthladdoedd Prydain	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Caerdydd	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
Cyngor Sir Gaerfyrddin	Masnachwyr Glo Gogledd Cymru
Celtic Energy	Cyngor Sir Penfro
CEMEX	Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV) CIEH Cymru	Fferm Plwcca Dafydd
Cyngor Dinas Caerdydd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cymdeithas y Tirfeddianwyr	Ridge Fuels Ltd
ClientEarth	Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Y Gymdeithas Tanwydd Solet (SFA)
Cycling UK	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Cyngor Gwynedd	Cyngor Abertawe
D J Davies Fuels Ltd.	Prifysgol Abertawe
DEFRA	Swyddog Cynllunio ac Amgylchedd
Cyngor Sir Ddinbych	Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
ERM	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Sir y Fflint	Trafnidiaeth Cymru
Cyfeillion y Ddaear, Y Barri a'r Fro	University of the West of England
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	Cyngor Sir Bro Morgannwg
Cyngor Sir Gwynedd	Ymddiriedolaeth GIG Felindre
HAC	Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn	Cyswllt Amgylchedd Cymru
J J Jones (Coal Merchants) Ltd	CLILC
Jacobs	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
JNCC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam